# Gwerddon

*Cyfnodolyn Academaidd Cymraeg*

*Golygydd: Yr Athro Ioan Williams*

Rhif 16 Hydref 2013 • ISSN 1741-4261 • Golygydd: Yr Athro Ioan Williams

*Cyhoeddwyd gyda chymorth:* Coleg Cymraeg Cenedlaethol

# Gwerddon

CYFNODOLYN ACADEMAIDD CYMRAEG

Golygydd **Yr Athro Ioan Williams**

Rhif 16 Gorffennaf 2013 • ISSN 1741-4261

# Bwrdd Golygyddol


| | |
|---|---|
| Golygydd: | Yr Athro Ioan Williams |
| Is-Olygydd: | Dr Hywel Griffiths, Prifysgol Aberystwyth |
| Cynorthwywyr Golygyddol: | Dr Meilyr Emrys<br>Dr Gwenllian Lansdown Davies<br>Dr Angharad Watkins |
| Cadeirydd y Bwrdd Golygyddol: | Dr Eleri Pryse, Prifysgol Aberystwyth |
| Aelodau'r Bwrdd Golygyddol: | Dr John S. Davies<br>Dr Noel A. Davies<br>Dr Myfanwy Davies, Prifysgol Bangor<br>Yr Athro Siwan Davies, Prifysgol Abertawe<br>Dr Arwyn Jones, Prifysgol Caerdydd<br>Dr Carwyn Jones, Prifysgol Fetropolitan Caerdydd<br>Yr Athro Rhys Jones, Prifysgol Aberystwyth<br>Dr Gwyn Lewis, Prifysgol Bangor<br>Yr Athro Diarmait Mac Giolla Chríost, Prifysgol Caerdydd<br>Dr Angharad Price, Prifysgol Bangor<br>Dr Hefin Jones, Prifysgol Caerdydd<br>Dr Enlli Thomas, Prifysgol Bangor<br>Mr Wyn Thomas, Prifysgol Bangor<br>Yr Athro Daniel Williams, Prifysgol Abertawe |


E-gyfnodolyn academaidd cyfrwng Cymraeg yw *Gwerddon*, sy'n cyhoeddi ymchwil ysgolheigaidd yn y Gwyddorau, y Celfyddydau a'r Dyniaethau. Cyhoeddir *Gwerddon* ar y we o leiaf ddwywaith y flwyddyn. Arfernir cyfraniadau gan arbenigwyr yn y meysydd perthnasol yn y modd arferol. Ceir gwybodaeth lawn am amcanion, polisïau golygyddol, canllawiau i awduron a chanllawiau i arfarnwyr ar y wefan: www.gwerddon.org <http://www.gwerddon.org>


Cyllidir *Gwerddon* gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.



Cysylltwch â *Gwerddon* drwy e-bostio gwybodaeth@gwerddon.org neu drwy'r post: *Gwerddon*, Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg, Prifysgol Aberystwyth, Yr Hen Goleg, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2AX.



ISSN 1741-4261



Hawlfraint *Gwerddon*


www.gwerddon.org

# Cynnwys

Golygyddol 5

Crynodebau 6

Summaries 8

Erthygl 1: Craig Owen Jones, 'Brwydr Iaith, Brwydro Iaith: Terminoleg y byd pop Cymraeg fel dull protestio yn y 1960au a'r 1970au' 10

Erthygl 2: Ffion Curtis, E. J. Oliver, A. W. Jones, S. Rice, a R. Thatcher, 'Iechyd a newidiadau ffordd o fyw sy'n gysylltiedig ag oedran mewn ardaloedd gwledig: y pwyslais ar bryderon cyfredol yng Nghymru' 28

Erthygl 3: Osian Rees a Huw Pritchard, 'Gwersi o Ogledd Iwerddon: Awdurdodaeth Gymreig a dyfodol addysg gyfreithiol yng Nghymru' 40

Erthygl 4: Rhys ap Gwent, 'Cynllun Llywodraeth Cymru i gyflwyno system caniatâd tybiedig ar gyfer rhoi organau' 63

Cyfranwyr 78

# Golygyddol

Yn y rhifyn hwn, mae *Gwerddon* yn dychwelyd i'w batrwm arferol, drwy gyhoeddi cynnyrch sawl maes academaidd amrywiol. Ceir ymdriniaeth â iaith cyhoeddiadau'r byd pop Cymraeg yn ystod y 1960au a'r 1970au a'u perthynas â'r mudiad ymgyrchu iaith ar hyd y cyfnod hwnnw, ynghyd ag erthygl sy'n cyflwyno awgrymiadau pendant mewn perthynas â diogelu a gwella iechyd yr henoed mewn ardaloedd gwledig. Ceir hefyd ddwy erthygl sy'n cyflwyno cynnyrch ymchwil ym maes y gyfraith yng Nghymru; y naill yn trafod y sefyllfa pe sefydlid awdurdodaeth gyfreithiol i Gymru, a'r llall yn dadansoddi'r cynllun datganoledig newydd a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru i sefydlu system caniatâd tybiedig ar gyfer rhoi organau.

Law yn llaw â chyflwyno'r fath amrywiaeth o ymchwil, daw'r heriau arferol o ran golygu. Serch hynny, yr hyn sy'n fy nharo o weld yr erthyglau wedi'u casglu ynghyd ar dudalennau'r rhifyn hwn yw eu perthnasedd nid yn unig i feysydd academaidd eraill, ond hefyd i drafodaethau ehangach. Mae'r ymdriniaeth â iechyd yr henoed mewn cymunedau gwledig yn troi'r meddwl yn syth at y cyd-destun gwleidyddol, a pherir i ni ystyried – paham nad yw'r fath ystyriaethau synhwyrol yn ganolog i bolisïau iechyd ein cymunedau? Ochr yn ochr â hynny, mae'r dadansoddiad a gyflwynir gan Rhys ap Gwent o'r drefn newydd o roi organau'n cynnig cymorth i bob yr un ohonom i wneud y penderfyniad personol sy'n ein disgwyl dan y gyfraith ddiwygiedig.

Nodais yn nodyn golygyddol Rhifyn 15 – rhifyn arbennig ar ieithoedd modern – fod y cydweithredu a welir yn y cylchoedd academaidd ar draws y gwahanol ieithoedd yn adlewyrchu anogaeth y sefydliadau cyllido. Mae ymarferoldeb a pherthnasedd yr ymchwil a gyflwynir yn y rhifyn hwn yn tystio i'r un hyblygrwydd â'r hyn a welir mewn meysydd eraill, a thu hwnt i hynny gwelir arwyddion pendant o ddatblygiad cymuned ymchwil gref ar draws yr holl feysydd ymchwil yn y Gymraeg. Er hynny, fel y dywed Osian Rees a Huw Pritchard yn eu herthygl hwy, mae ymchwilwyr yn parhau i deimlo effaith rhagfarn yn erbyn cyhoeddi yn y Gymraeg yng nghyd-destun y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil, a hynny er gwaethaf datganiad pendant y Panel Canolog sy'n cymeradwyo cyhoeddiadau Cymraeg eu hiaith. Mae'r mur hwn yn dadfeilio'n raddol, i raddau yn sgil ymdrechion y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, ond gofynnir dyfalbarhad ar ran pob yr un ohonom.

Cyn terfynu, mae'n bleser gennyf ganmol y gwaith ardderchog a gyflawnwyd gan Dr Meilyr Emrys dros *Gwerddon* yn ystod ei gyfnod fel cynorthwy-ydd, gan ddymuno pob llwyddiant iddo yn ei swydd newydd. Ar yr un pryd, mae'n bleser croesawu Dr Angharad Watkins, sydd bellach yn gweithredu fel Golygydd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac a fydd hefyd yn gweithredu fel cynorthwy-ydd *Gwerddon* nes y bydd Dr Gwenllïan Lansdown Davies yn dychwelyd i'w swydd yn y flwyddyn newydd.

Wrth gau pen y mwdwl, nodaf air bach i ddweud y bydd y rhifyn nesaf yn rhifyn arbennig dan y thema 'Trwy Ddulliau Chwyldro', a gydlynir gan Dr Huw Lewis ac a gyhoeddir yn y flwyddyn newydd.

Yr Athro Ioan Williams

# Crynodebau

## Craig Owen Jones, 'Brwydr Iaith, Brwydro Iaith: Terminoleg y byd pop Cymraeg fel dull protestio yn y 1960au a'r 1970au'

Mae'r erthygl hon yn bwrw golwg manwl ar y berthynas rhwng ymgyrchu iaith y 1960au a'r 1970au, a bathu termau newydd yn y byd pop Cymraeg. Canolbwyntir ar geisiadau i addasu'r Gymraeg i amgylchiadau cerddoriaeth boblogaidd y cyfnod hwn, ac eir ati i archwilio canlyniadau ideolegol y strategaethau bathu termau amrywiol a ddefnyddiwyd gan ysgrifenwyr.

## Ffion Curtis, E. J. Oliver, A. W. Jones, S. Rice, a R. Thatcher, 'Iechyd a newidiadau ffordd o fyw sy'n gysylltiedig ag oedran mewn ardaloedd gwledig: y pwyslais ar bryderon cyfredol yng Nghymru'

Ystyrir y cynnydd yng nghanran y boblogaeth hŷn yn her fyd-eang yng nghyd-destun iechyd a gofal cymdeithasol. Yn y Gymru gyfoes, mae'r anghydbwysedd cynyddol ym mhroffeil oedran y gymdeithas – mewn cymunedau gwledig yn arbennig – yn codi cwestiynau pwysig ynghylch darparu gofal iechyd addas i'r boblogaeth hŷn. Ceir galw cynyddol am y gofal hwnnw yn wyneb elfennau ffordd o fyw a gysylltir â henaint; lefelau isel o weithgaredd corfforol, llai o amlygiad i'r haul ynghyd â gallu'r corff i syntheseisio Fitamin D. Mae'r erthygl hon yn canolbwyntio ar ddau o'r problemau iechyd mwyaf sy'n ganlyniad i'r elfennau hyn, a bair ofid cynyddol yng Nghymru, sef clefyd siwgr (DM2: *diabetes mellitus math 2*) ac achosion o gwympo (cael codwm). Cyflwynir adolygiad beirniadol ar y dystiolaeth ddogfennol a gasglwyd ynghylch y berthynas rhwng lefelau gweithgaredd corfforol, Fitamin D a'r pathogenesis o DM2 ac achosion o gwympo. Eir ati hefyd i drafod natur ymyriadau cyfredol cyn cyflwyno cyfres o argymhellion ynglŷn â sut i ddarparu gwasanaethau gwell er mwyn mynd i'r afael â'r problemau hyn, yn bennaf yng Nghymru wledig. Gall targedu ffordd o fyw chwarae rhan bwysig yn y gwaith o leihau'r achosion o DM2 a chwympo; dau bryder cymdeithasol ac economaidd yng Nghymru heddiw.

## Osian Rees a Huw Pritchard, 'Gwersi o Ogledd Iwerddon: Awdurdodaeth Gymreig a dyfodol addysg gyfreithiol yng Nghymru'

Arweiniodd datganoli at wahaniaethau sylweddol rhwng cyfraith Cymru a chyfraith Lloegr. Yn ogystal, mae'r drafodaeth ynghylch yr angen i sefydlu awdurdodaeth gyfreithiol Gymreig ar wahân i Loegr wedi dechrau o ddifrif. Gyda hyn mewn golwg, mae'r erthygl yn edrych ar addysg gyfreithiol yng Nghymru, ac yn ystyried pa ddatblygiadau sy'n angenrheidiol er mwyn ymateb i'r heriau a'r cyfleoedd a ddaw yn sgil datganoli, yn ogystal ag unrhyw ddatblygiadau pellach y byddai galw amdanynt pe sefydlid awdurdodaeth Gymreig. Yn sgil hynny, mae'r erthygl yn amlinellu rhai o ddarganfyddiadau allweddol prosiect ymchwil empeiraidd a gynhaliwyd yng Ngogledd Iwerddon, sydd – fel awdurdodaeth fechan â llywodraeth ddatganoledig o fewn y Deyrnas Unedig – yn cyflwyno safbwynt dadlennol.

## Rhys ap Gwent, ‘Cynllun Llywodraeth Cymru i gyflwyno system caniatâd tybiedig ar gyfer rhoi organau’

Yn 2015, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru’n cyflwyno cynllun caniatâd tybiedig ar gyfer rhoi organau. Yn fras, yn ôl y cynllun hwn, os na fynegwyd gwrthwynebiad gan oedolion yng Nghymru i roi eu horganau ar ôl iddynt farw, ac os na leisir gwrthwynebiad gan eu teuluoedd, tybir gan yr awdurdodau fod caniatâd wedi ei roi. Yn ôl y drefn bresennol, rhoddir cyfrifoldeb ar yr unigolyn i gofrestru fel rhoddwr, ond gyda gweithredu’r cynllun newydd, gofynnir i’r unigolyn ddatgofrestru os mai dyna yw ei ddymuniad. Cyflwynir yma werthusiad o’r cynllun o safbwynt cyfreithiol a moesegol.

# Summaries

## Craig Owen Jones, 'A Battle for Language, Language Battles: Terminology of the Welsh pop world in the 1960s and 1970s'

This article offers a detailed examination of the relationship between the campaign to revitalise the Welsh language in the 1960s and 1970s and the coining of new words in Welsh-language popular music. It concentrates on attempts to adapt Welsh to the circumstances of the pop world during this period in particular, and examines the ideological consequences of various strategies for coining terms that were used by writers.

## Ffion Curtis, E. J. Oliver, A. W. Jones, S. Rice, and R. Thatcher, 'Health and lifestyle changes associated with ageing in rural communities: the emphasis on current concerns in Wales'

The rapidly ageing population has been identified as a major global challenge; within Wales there is a growing imbalance in the age-profiles of rural communities in particular. The demands of providing appropriate healthcare for a changing population are exacerbated by lifestyle changes associated with ageing, specifically low levels of physical activity, reduced exposure to the sun and compromised ability to synthesise vitamin D. This report focuses on two important health outcomes affected by these changes that are of increasing concern within Wales: diabetes (DM2: *diabetes mellitus type 2*) and falls incidence. The article critically reviews the evidence base pertaining to the relationships between physical activity, vitamin D, and both the pathogenesis of DM2 and falls incidence. Current interventions are discussed and a series of recommendations for service delivery within Wales' rural communities are presented. We argue that there is a clear role for targeting these modifiable lifestyle factors in reducing the prevalence and severity of falls and diabetes, two growing areas of social and economic concern within Wales.

## Osian Rees and Huw Pritchard, 'Lessons from Northern Ireland: A Welsh jurisdiction and the future of legal education in Wales'

Devolution has led to significant divergences between the law of Wales and the law of England. Furthermore, the question of whether a separate Welsh jurisdiction is needed is increasingly being given serious consideration. With this in mind, this article examines the issue of legal education in Wales, and considers what developments are needed in order to meet the challenges and opportunities resulting from devolution, as well as any additional developments that would be needed if a Welsh jurisdiction were to be established in the future. In so doing, the article sets out some key findings from an empirical research project carried out in Northern Ireland, which as a small jurisdiction with a devolved government within the United Kingdom, provides an instructive point of reference.

### Rhys ap Gwent, ‘The Welsh Government’s plan to introduce a system of presumed consent for organ donation’

The Welsh Assembly Government will introduce a system of presumed consent for organ donation in 2015. According to this scheme, if adults in Wales have not expressed their opposition to the use of their organs after their death, and in the absence of opposition from their families, permission to use their organs will be presumed by the authorities. According to the present system, the onus is on the individual to register as a donor, but if this new scheme is implemented, it will be the responsibility of the individual to deregister as a donor. This essay is a legal and ethical evaluation of the proposed changes.

Craig Owen Jones

# Brwydr Iaith, Brwydro Iaith: Terminoleg y byd pop Cymraeg fel dull protestio yn y 1960au a'r 1970au

Gwerddon
CYFNODOLYN ACADEMAIDD CYMRAEG
Golygydd **Yr Athro Ioan Williams**

# Brwydr Iaith, Brwydro Iaith: Terminoleg y byd pop Cymraeg fel dull protestio yn y 1960au a'r 1970au

*Craig Owen Jones*

Mae nifer wedi dadlau bod y byd pop Cymraeg yn allweddol i lwyddiant yr ymgyrch hawliau sifil dros siaradwyr Cymraeg ar ddiwedd y 1960au a dechrau'r 1970au. Amlygodd Dylan Phillips dair elfen yn y ddadl hon: yn gyntaf, swyddogaeth cyngherddau roc a phop o godi arian i goffrau Cymdeithas yr Iaith (ffactor a oedd yn hollbwysig ym 1976 a 1991, pan fu elw'r gwyliau roc 'Twrw Tanllyd' a 'Rhyw Ddydd, Un Dydd' yn fodd i'r Gymdeithas glirio ei dyledion);[1] ac yn ail, swyddogaeth cyngherddau fel llwyfan i aelodau ac artistiaid fedru cyfleu neges y Gymdeithas i gynulleidfa ehangach.[2] Yn ogystal, bu geiriau caneuon gan gantorion protest megis Dafydd Iwan, Heather Jones, 'Y Chwyldro' ac ati yn gymorth i godi ymwybyddiaeth o'r egwyddorion y tu ôl i'r ymgyrch adfywio iaith a sicrhau'r hawl i'w defnyddio. Y drydedd elfen oedd yr ysgogiad i hyrwyddo'r byd pop trwy gyllido recordiau newydd, noddi gigiau i fandiau Cymraeg, ynghyd â chreu ffansîns i roi cyhoeddusrwydd i'r bandiau hynny;[3] bu hyn yn fodd o sicrhau presenoldeb yr iaith mewn amgylcheddau cymdeithasol a fu'n gaeëdig i'r profiad Cymraeg yn flaenorol, yn enwedig yn ardaloedd Seisnig y dwyrain.

O dro i dro, fodd bynnag, mae sylwedyddion wedi cynnig beirniadaeth ar bedwerydd safbwynt, ac amcan yr erthygl hon yw cynnig arolwg manwl o'r safbwynt hwnnw. Wrth edrych ar y ffynonellau sydd wedi goroesi, daw'n amlwg y cyfoethogwyd yr iaith Gymraeg gan y rheiny a gymerai ran yn y byd pop, a bod hyn yn ffordd unigryw o roi cymorth i'r mudiad protest. Roedd anghenion diwydiant pop y 1960au, fel heddiw, yn gorfodi artistiaid a sylwedyddion i fathu termau newydd yn gyson i ddisgrifio arddulliau ac is-arddulliau newydd, heb sôn am yr angen am eiriau ar gyfer dyfeisiadau mecanyddol a thechnolegol sy'n gysylltiedig ag offerynnau ac offer cerddorol. Dylid ystyried hefyd duedd naturiol yr ifanc i addasu a defnyddio bratiaith er mwyn ymwahanu oddi wrth y cenedlaethau hŷn, yn ogystal â'r angen i fabwysiadu elfennau o fratiaith ieuenctid Eingl-Americanaidd. Er bod nifer o'r termau Cymraeg a fathwyd yn y 1960au wedi diflannu o'r iaith fyw, serch hynny, mae'n amlwg bod y berthynas rhwng yr ymgyrch iaith a'r eirfa newydd hon yn un ddwyochrog; roedd eu presenoldeb yn yr iaith yn gymorth i gymeradwyo defnydd o'r iaith, ac roedd yr ymgyrch iaith yn gymorth i gymeradwyo defnydd o'r eirfa. Bydd y drafodaeth ganlynol yn bwrw golwg manylach ar y berthynas hon, gan ganolbwyntio ar ymdrechion i addasu'r Gymraeg i amgylchiadau

---

1 Phillips, D. (1998), *Trwy Ddulliau Chwyldro…?: Hanes Cymdeithas yr Iaith Gymraeg 1962-1992* (Llandysul: Gomer), tt. 96-97.

2 Ibid., t. 114.

3 Ibid., t. 115. Er enghraifft, mae Phillips yn tynnu sylw at fodolaeth ffansîns megis *Llmych* yng Nghlwyd. Cynhaliwyd nifer cymharol fawr o gigiau yn y gogledd-dwyrain yn y 1980au hwyr a'r 1990au cynnar. Serch hynny, mae bodolaeth 'sîn Clwyd' yn y 1990au cynnar yn broblemus; gweler Jones, C. O., "Still Here'?: A Geospatial Survey of Welsh-language Popular Music', yn Cohen, S., Knifton, R., Leonard, M., et al. (goln) (i'w chyhoeddi, 2013), *Sites of Popular Music Heritage: Memories, Histories, Places* (London: Routledge).

cerddoriaeth boblogaidd y 1960au a'r 1970au yn enwedig, ac yn archwilio canlyniadau ideolegol strategaethau bathu termau a ddefnyddiwyd gan ysgrifenwyr yn ystod y cyfnod hwnnw. Archwilir yr effeithiau y mae'r strategaethau hyn yn eu cael ar yr iaith ysgrifenedig, ynghyd ag ar iaith bob dydd, a dangosir bod ymdrechion i fathu termau newydd yn ddibynnol – yng nghyd-destun y byd pop – ar ewyllys da yr ifanc i'w poblogeiddio a'u defnyddio.

**Rhagolwg: ehangu geirfa'r Gymraeg yn yr ugeinfed ganrif**

Roedd astudio geiriau benthyg yn y Gymraeg yn faes cymharol ddieithr tan droad yr ugeinfed ganrif, pan aeth carfan fach o ysgolheigion Cymreig ati i ddarganfod mwy am yr agwedd hon ar yr iaith na dderbyniodd fawr o sylw'n flaenorol. Yn eu plith roedd T. H. Parry-Williams, a ysgrifennodd *The English Element in Welsh* (Llundain, 1923), sef astudiaeth arloesol ar eiriau benthyg, eu gwreiddiau, a'u hystyron. Enillodd y gyfrol gryn barch ymhlith adolygwyr, ond ynddi, canolbwyntiodd Parry-Williams ar Gymraeg Canol a'r iaith fel y defnyddiwyd hi tan yr oes fodern gynnar yn unig. Ei amcan oedd cynnig arolwg hanesyddol, yn hytrach nag ateb i'r broblem gynyddol o ddod o hyd i eiriau Cymraeg i gyfateb i eiriau Saesneg newydd, yn enwedig ar gyfer dyfeisiadau a pheiriannau newydd a oedd yn dyst i dueddiadau moderneiddio ym mhob agwedd ar fywyd bob dydd yng Nghymru.

Roedd yn rhaid aros tan ar ôl yr Ail Ryfel Byd i weld ymdrech deg i fathu termau newydd. Daeth y sbardun i wneud hyn o sawl cyfeiriad. Ymhlith y cyntaf i arloesi yn y maes oedd y Bwrdd Gwybodau Celtaidd, a gyhoeddodd *Termau Technegol*, rhestr o dermau mewn meysydd megis gramadeg, cerddoriaeth ac estheteg mor gynnar â 1950. Roedd cyfraniad Gwasg Prifysgol Cymru yn hollbwysig – lluniwyd sawl rhestr o eiriau'n ymwneud ag addysg, bioleg, y swyddfa a busnes ac ati yn ystod y 1950au a'r 1960au. Cyfoethogwyd yr eirfa wyddonol yn ystod y 1950au, pan ddaeth gwyddonwyr o Goleg Prifysgol Cymru a'r Orsaf Bridio Planhigion (*Welsh Plant Breeding Station*) ger Aberystwyth at ei gilydd i drafod a phenderfynu ar dermau newydd. Ym 1964, cyhoeddwyd *Termau Theatr* gan R. Emrys Jones, fersiwn o restr eiriau a enillodd wobr yn yr Eisteddfod Genedlaethol dair blynedd yn gynt.[4]

Ffrwyth y gweithgareddau hyn oedd *Geiriadur Termau/Dictionary of Terms* (Caerdydd, 1973), cyfrol a gyhoeddwyd yn arbennig i'w defnyddio mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, ac a olygwyd gan Jac L. Williams. Mewn rhagymadrodd hynod werthfawr, gwelir gostyngeiddrwydd Williams – yn ogystal â'i ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y gymdeithas Gymraeg yn y cyswllt hwn – yn ei apêl at y rheiny a fyddai'n defnyddio'r gyfrol: gobeithiai y câi darllenwyr eu hannog '*in due course to "create" or adopt many new words to enrich the language*'.[5] Mewn gwirionedd, digwyddai hyn ers blynyddoedd maith mewn nifer o feysydd ymhlith siaradwyr o bob math. Fel y noda Janet Davies, bathwyd termau gan sefydliadau ynghyd â ffigyrau cyhoeddus, megis y darlledwr Isaac ('Eic') Davies ym myd rygbi.[6] Yn ogystal â hynny, mae Sarah Hill yn tynnu sylw at ymgais

[4] Jones, R. Emrys (1964), *Termau Theatr* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).

[5] Williams, J. L. (gol.) (1973), *Geiriadur Termau/Dictionary of Terms* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), tt. viii-ix.

[6] Davies, J., 'Welsh', yn Price, G. (gol.) (2ail argraffiad, 2000), *Languages in Britain and Ireland* (Oxford: Blackwell), t. 101.

Hywel Gwynfryn i ddefnyddio fersiwn Cymraeg o'r math o 'glebran' DJ a oedd mor boblogaidd ar orsafoedd radio Seisnig ar ddiwedd y 1960au, gan fathu geiriau newydd i ddisgrifio elfennau yn ymwneud â cherddoriaeth boblogaidd.[7] Dyma'r math o beth a ddigwyddai hefyd yn y wasg gerddorol ar y pryd.

Er nad oes cyfle yn yr erthygl hon i fwrw golwg manwl ar egwyddorion cyfieithu, man cychwyn da yw cydnabod y perthyn i gyfieithu elfen ideolegol . Ym marn Christina Schäffner:

> Over the centuries it has been fairly common that ideas and concepts have travelled between cultures and nations, due to intellectual exchanges, bi- and multilateral talks and negotiations, etc. as a result, new concepts and their corresponding words have been introduced into a culture, existing words have changed their meaning(s), and some concepts and/or words have disappeared altogether from the discourse …[8]

Fel arfer, mae hyn yn digwydd oherwydd defnydd cyson – mae geiriau'n mynd yn llai cyffredin ac mae geiriau newydd yn cymryd eu lle pan fo defnyddwyr yn ailddiffinio'r cysyniadau sy'n gysylltiedig â hwy – mae'r hen eiriau'n colli eu hystyr gwreiddiol. Ond beth sy'n dilyn pan fo cyd-destun is-ddiwylliannol rhyw air newydd yn wahanol i'r cyd-destun gwreiddiol o'r cychwyn? Y tebygolrwydd yw, mewn achosion o'r fath, bod termau yn y ddwy iaith '*that seem to be identical … are in fact different, thus causing misunderstandings and/or negotiations for meaning*'.[9] Mae Schäffner yn amlinellu'r drafodaeth rhwng defnyddwyr fel hyn, gan bwysleisio sut mae un diwylliant yn tynnu sylw at elfen mewn cysyniad neu wrthrych oherwydd gwahaniaethau diwylliannol a chanfyddiadol. Yn achos y Gymraeg, mae nifer o ffactorau hanesyddol yn dylanwadu ar y drafodaeth hon, gan gynnwys statws uwch y Saesneg fel cyfrwng 'swyddogol'.

Mae'r defnydd o derminoleg newydd yn y cyd-destun hwn, felly, yn ddibynnol ar sawl ffactor. Yn gyntaf, rhaid i siaradwyr gytuno bod angen gair newydd. Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu bathu term newydd. Weithiau mae'n fater syml o ehangu baich semantig (*semantic load*) gair Cymraeg sydd eisoes yn bodoli. Hyd yn oed os yw hyn yn digwydd, gall diffyg cynefindra â'r gair yn ei gyd-destun ieithyddol newydd arwain at gamddealltwriaeth, fel mae Morris Jones wedi nodi yn ei ddadansoddiad defnyddiol o'r broblem.[10] Yn ail, os nad oes dewis Cymraeg eisoes ar gael, rhaid i siaradwyr gytuno ar air i ddisgrifio'r ddyfais neu'r cysyniad newydd. Weithiau, mae siaradwyr yn mabwysiadu dull amlwg, os nad hirwyntog, o ddatrys y broblem – yr hyn sy'n cael ei ddisgrifio gan Jones fel '*descriptive circumlocution*', neu gyfleu ystyr term estron o fewn idiom neu frawddeg yn hytrach na gair newydd. Trwy'r dull hwn, mae 'popty dau funud', er enghraifft, yn cyfleu'r cysyniad o '*microwave*'. Mae hyn yn bell o fod yn ateb perffaith

---

7 Hill, S. (2007), '*Blerwytirhwng?': The Place of Welsh Pop Music* (Aldershot: Ashgate), t. 61.

8 Schäffner, C., 'Third Ways and New Centres: Ideological Unity or Difference?', yn Calzada Pérez, M. (gol.) (2003), *Appropos of Ideology: Translation Studies on Ideology – Ideologies in Translation Studies* (Manchester: St. Jerome Publishing), tt. 23-42; tt. 29-30.

9 Ibid.

10 Jones, Morris, 'The Present Condition of the Welsh Language', yn Stephens, M. (gol.) (1973), *The Welsh Language Today* (Llandysul: Gomer), tt. 110-26.

i'r broblem, fodd bynnag. Wrth ddisgrifio un o nodweddion arbennig '*microwave*' – sef ei allu i baratoi bwyd yn gyflym – nid yw'r term 'popty dau funud' yn cydnabod nodweddion eraill – mae'n colli felly rywfaint o'i bŵer disgrifiadol. Mae'r gair 'meicrodon', sydd hwyrach yn enw llai 'Cymreig' ei naws, yn fwy triw i'r term gwreiddiol o ran ei ystyr.[11]

Yn wir, gall y gair 'meicrodon' sefyll fel enghraifft o ateb posibl arall i'r broblem: creu dewis amgen Cymraeg i'r term gwreiddiol. Gall hyn fod yn derm cwbl wreiddiol – sef mynegiant gwahanol, gwirioneddol Gymraeg o'r term[12] – neu fersiwn Cymraeg o'r gair sy'n adlewyrchu ystyr a strwythur gwreiddiol y term mor gywir ag sy'n bosibl. Yn yr achos hwn, felly, mae 'meicro' yn dod o'r un gwraidd â 'micro', ac mae '(t)on' yn gyfieithiad llythrennol o'r gair '*wave*' sy'n ffurfio ail elfen y term gwreiddiol. Mae'r gair sy'n deillio o'r rhain yn enghraifft, felly, o ddynwarediad (*calque*). Eto, nid yw'r ateb hwn heb ei broblemau. Er bod yr enghraifft uchod yn un hawdd ei deall, nid yw pob enghraifft mor glir â hyn, ac os yw defnyddiwr rhyw air newydd o'r farn y gellid ei gamddeall, mae ganddynt ddau opsiwn: ychwanegu'r term Saesneg er mwyn osgoi'r broblem, neu gael gwared â'r term newydd Cymraeg yn gyfan gwbl. Yn ôl Jones, dyma'r drwg yn y caws – gall poblogeiddio'r gair, a sicrhau bod defnyddwyr eraill yn deall gwir ystyr y gair, wynebu rhwystrau sylweddol:

> … the great problem with Welsh translations is to achieve currency: native forms may be available but bilingualism encourages use of the English terms. … . New Welsh equivalents, of course, may be used in formal contexts – but this new use is invariably explained by also supplying the English equivalent in parenthesis.[13]

Y dewisiadau olaf yw defnyddio'r gair Saesneg mewn dyfynodau, neu ddefnyddio rhyw fath o Gymreigiad arwynebol o'r gair gwreiddiol, fel arfer trwy ychwanegu ôl-ddodiad Cymraeg neu rywbeth tebyg.[14] Mae'n amlwg o'r ffynonellau sydd wedi goroesi fod cerddorion ac ysgrifenwyr y byd pop wedi gwneud defnydd helaeth o'r dulliau hyn; ond beth mae eu defnydd amrywiol ohonynt yn ei ddatgelu am eu hagweddau tuag at y mudiad adfywio iaith?

Y cyhoeddiadau pwysicaf yn y cyswllt hwn o'r 1960au a'r 1970au cynnar oedd *Asbri* a *Sŵn*. Roedd eu cynhyrchwyr yn ymwybodol o'r ffaith eu bod yn creu gwasg gerddorol Gymraeg, ac achubwyd ar bob cyfle i dynnu sylw – yn enwedig sylw'r gynulleidfa – at statws arloesol y cylchgronau. Er enghraifft, o'i lansiad ym 1969 tan ei rifyn olaf ym 1978, cychwynnwyd pob colofn olygyddol a gyhoeddwyd yn *Asbri* gyda'r frawddeg 'Annwyl Gyd-Bopwyr!'. Roedd y byd pop Cymraeg newydd gychwyn,[15] ac mae'n ddigon clir

11 Yn ystod ymchwil maes ym Mlaenau Ffestiniog ym 1999, clywodd Timothy Jilg am y term 'popty dau funud', yn ogystal â'r term mwy poblogaidd 'popty ping'. Am ystod eang o eiriau i 'microwave' yn y Gymraeg, a rhagor o wybodaeth ar atebion rhanbarthol i broblemau tebyg, gweler Jilg, Timothy (2003), 'Cadarnle'r Gymraeg? : astudiaeth eirfaol o'r iaith Gymraeg ym Mlaenau Ffestiniog' (doethuriaeth na chyhoeddwyd, Prifysgol Caerdydd).

12 Yn 2012, er enghraifft, bathwyd y term Cymraeg 'adar angau' am *drones* milwrol awtomatig. Yn amlwg, ceir agenda gwleidyddol y tu ôl i'r cyfieithiad hwn; ond gellir dadlau mai'r un peth sy'n wir am y term Saesneg gwreiddiol, sy'n iwffemistig braidd!

13 Jones, 'The Present Condition of the Welsh Language', t. 118.

14 Dydy Morris Jones ddim yn gwahaniaethu yma. Mae'n gweld cynnyrch Cymreigio gair Saesneg fel math o air benthyg.

15 Gweler Hill, *'Blerwytirhwng?'* am arolwg o gerddoriaeth bop Gymraeg cyn y 1960au.

bod y rheiny a oedd yn weithgar yn y byd hwnnw'n awyddus i greu math o hunaniaeth newydd a fyddai'n diffinio a chyfoethogi profiadau cefnogwyr cerddoriaeth – y 'popwyr' – a oedd yn gynulleidfa i *Asbri*.

Wedi dweud hyn, mae'n amlwg na cheid polisi golygyddol cyson o ran bathu termau. Mae'r math o ddyfeisgarwch a symboleiddir gan y term 'popwyr' i'w weld ochr yn ochr â'r strategaethau eraill. Fel y gwelir isod, mae pob un o'r dulliau a grybwyllwyd uchod yn ymddangos yn nhudalennau'r cylchgrawn:

Tabl 1: dulliau bathu termau yn Asbri, 1969-7

| ***Datrysiad*** | ***Gair/term Saesneg gwreiddiol*** | ***Enghraifft*** |
|---|---|---|
| Newid baich semantig geiriau sydd eisoes yn bodoli | '*backing*' (h.y. ar gyfer canwr) | 'Darperir hefyd gefndir cerddorol …'[1] |
| '*Descriptive circumlocution*' (Jones, 1973) | '*sound light modulator*' | '(T)eclyn a achosai i oleuadau lliw fflachio mewn curiad efo'r sain a gynhyrchid'[2] |
| Mynegiant Cymraeg gwreiddiol o'r cysyniad Saesneg | 'DJ/DJs'<br><br><br>'*two speakers*' | 'Y discwyr … oedd tri bachgen ieuanc …'[3]<br>'Pwy yw'r troellwr (*disc jockey*) mwyaf poblogaidd …?'[4]<br>'dwy golofn sain'[5] |
| Dynwarediad (gydag eglurhad Saesneg) | '*computerised cutting*' | '… (mae'r) cyhoedd wedi blino ar safon cynhyrchu, a beiau peirinwaith *(sic)*, torri mecanyddol (*computerised cutting)* rhai (recordiau) …'[6] |
| Dynwarediad (heb eglurhad Saesneg) | '*slide guitar*' | 'Mae Geraint yn arbenigo yn y gitâr sleid …'[7] |
| Cymreigio'r gair | '*discotheque*' | 'Gallem synhwyro bod pobl ifanc yn mynd i ddisgotec …'[8] |
| Defnyddio'r gair/term Saesneg mewn dyfynodau (geiriau benthyg) | 'R & B'<br><br><br>'*with-it*' | '… yr un rydym ni'n ei hoffi fwyaf yw'r math araf (o gerddoriaeth), "R & B" ("Rhythm & Blues") fel y dywed y Sais.'[9]<br>'Credaf fod ieuenctid Cymru eisiau bod mor "*with-it*" â'u cyfoeswyr …'[10] |

Yn wahanol i gylchgronau diweddarach megis *Sgrech*, ni osododd olygyddion *Asbri* erioed agenda wleidyddol bendant; ond wrth edrych ar y tabl uchod, mae'n amlwg bod cryn bwyslais ar sicrhau Cymreictod y cyhoeddiad. Roeddent yn awyddus i bwysleisio swyddogaeth gymdeithasol cylchgrawn newydd am gerddoriaeth bop, gan gyfeirio at 'drachwant canu pop' yn y wlad, a disgrifiwyd y cylchgrawn fel 'Arwydd calonogol o'r egni sy'n dygyfor trwy fywyd Cymraeg Cymru y dyddiau hyn' gan neb llai na Gwynfor Evans.[16] Mae negeseuon o gefnogaeth i Dafydd Iwan – cadeirydd Cymdeithas yr Iaith ar y pryd – yn dilyn ei ryddhau o'r carchar ar ddechrau

16 *Asbri* (1969), 1, Mai, 3. Bu Gwynfor yn ymwybodol o'r byd pop ymhell cyn dyfodiad *Asbri* – roedd ei fab, Dafydd Evans, yn aelod o'r bandiau roc arloesol 'Y Pedair Kaink' a'r Blew' mor gynnar â 1966 a 1967.

1970 yn awgrymu cydymdeimlad y panel golygyddol ag amcanion y Gymdeithas,[17] a derbyniodd digwyddiadau byw Cymdeithas yr Iaith, megis 'Pop a Phencerdd' (cyngerdd wrtharwisgo ym mis Mehefin 1969) a'r gwyliau 'Twrw Tanllyd' yng nghanol y 1970au, sylw a chyhoeddusrwydd yn y cylchgrawn.

Gellir tybio felly, fod natur yr iaith ysgrifenedig a ddefnyddiwyd yn *Asbri* hefyd yn rhan o'r swyddogaeth gymdeithasol hon, ac mae'r pwyslais ar uniaethu â'r 'popwyr', yn ogystal â bod yn rhan o 'fyd pop' neu 'fudiad canu pop', hyd yn oed, yn awgrymu cysyniad newydd o iaith yr ifanc. Roedd *Asbri* yn gylchgrawn parchus, yn denu cefnogaeth hoelion wyth y gymdeithas Gymraeg megis Islwyn Ffowc Elis a Gwynfor Evans. Wrth edrych ar rai o'r sylwadau a wnaethpwyd amdano yn y 1970au cynnar, gellir tybio bod ei ddarllenwyr yn hŷn na darllenwyr *Sŵn*. Fodd bynnag, cafwyd dealltwriaeth o'r angen i apelio at yr ifanc, ac roedd hyn, yn ogystal ag awydd y cyfranwyr i gofleidio (a chreu) termau newydd yn y Gymraeg, yn arwydd o ymgais onest, os nad diniwed, i foderneiddio'r iaith yn y cyd-destun hwn.

Fel y profa'r enghraifft 'cyd-bopwyr', nid oedd ymdrechion ysgrifenwyr *Asbri* i fathu termau newydd bob amser yn llwyddiannus. Roedd anghysondeb rhwng fersiynau newydd o eiriau – hyd yn oed o fewn yr un rhifyn – yn gyffredin. Enghraifft ddiddorol yw'r termau a fathwyd i gyfleu ystyr y gair '*amplifier*': hyd yn oed ar ôl tair blynedd, nid oedd 'sainchwyddwr' (naill ai gyda phriflythyren neu hebddi) wedi ennill ei blwy' yn ddigon cadarn i gyfiawnhau ei ddefnyddio mewn rhifyn o'r cylchgrawn ym 1977, ac ymddangosodd y term benthyg 'ampiau' yn ei le:

**Tabl 2: Termau ar gyfer '*amplifier*' a ddefnyddiwyd yn *Asbri***

| ***Term*** | ***Defnyddiwyd yn Asbri*** | ***Argraffwyd gyda'r term Saesneg mewn cromfachau?*** |
|---|---|---|
| *Amplifier* | 1971 | -- |
| chwyddwr sŵn | 1972 | Naddo |
| sainchwyddwr | 1973 | Naddo |
| Sainchwyddwr | 1974, 1975 | Naddo (1974); do (1975) |
| Amp. (Marshall) | 1975 | -- |
| Mwyadur | 1975 | Do |
| amp(iau) | 1977 | Naddo |

Mae'r rhestr anghyson uchod yn nodweddiadol o'r math o agwedd *laissez faire* tuag at fathu termau yn y wasg gerddorol. Ceid ymwybyddiaeth o'r angen i ddod o hyd i ateb i'r broblem o air heb gyfieithiad Cymraeg (ond gweler isod); ar y llaw arall, ni cheid consensws na chysondeb.

---

17 'Yn sicr, rydyn ni'n falch iawn hefyd fod Dafydd Iwan – un o'n harloeswyr canu gwerin modern (–) wedi ei ryddhau o'r carchar ar ôl cael cyfle(,) gobeithio, i gyfansoddi rhagor o ganeuon gwefreiddiol', *Asbri* (1970), 5, Ionawr-Chwefror, 3.

Erys dau fater yn y cyswllt hwn, sef sut yr oedd gwahanol bobl yn deall a dehongli'r rheolau y tu ôl i fathu termau (ffactor sy'n egluro, i ryw raddau, ddiflaniad y termau hyn o'r rhan fwyaf o gyweiriau), a'r angen am air newydd yn y lle cyntaf. Mae'r geiriau uchod i gyd yn dangos rhywfaint o ymwybyddiaeth o reolau ieithyddol; mae'r ôl-ddodiaid *-wr* ac *-adur* yn gyffredin mewn enwau. Fodd bynnag, nid yw'r termau 'sainchwyddwr' a 'chwyddwr sŵn' yn dilyn cyngor Jac Williams, a argymhellodd *-ydd* fel ôl-ddodiad ar gyfer offer neu gyfrwng, ac *-wr* i'r unigolyn a oedd yn gyfrifol am y weithgaredd. Mae'r ddau'n swnio'n rhyfedd braidd yn eu ffurfiau lluosog.

Yr hyn sy'n peri syndod, fodd bynnag, yw'r ffaith bod term ar gyfer '*amplifier*' eisoes yn bodoli. Mae'r *Geiriadur Mawr* yn rhoi 'chwyddleisydd' a 'chwyddiadur' fel dewisiadau. Beth felly oedd cymhelliant yr ysgrifenwyr i chwilio am derm arall? Yn achos y term cyntaf, mae ei anaddasrwydd i'w swyddogaeth yn y byd pop yn amlwg. Argraffwyd y *Geiriadur Mawr* ym 1958, mewn cyfnod pan ddefnyddid 'chwyddleisyddion' mewn un ffordd yn unig yng Nghymru fel rheol, sef er mwyn sicrhau bod cynulleidfaoedd yn medru clywed arweinwyr neu areithwyr; oddi yma, felly, y daeth y term. Buasai'n anacroniaeth anfaddeuol – a chwerthinllyd – i'r rhai a ysgrifennai am fandiau roc ddechrau cyfeirio at 'chwyddleisydd' yng nghyd-destun offer gitarydd neu fasydd. Nid tasg hawdd felly oedd bathu termau yn wyneb cyflymder datblygiadau'r diwydiant pop.

Erbyn y 1980au, felly, 'amp' – yn ogystal â'i fersiwn lluosog, 'ampiau' – a enillodd y dydd, ond nid oedd hyn yn ganlyniad anochel. Mae'r drafodaeth uchod yn gadael dau ddewis 'Cymraeg'; 'chwyddiadur' o'r *Geiriadur Mawr*, a 'mwyadur' o *Asbri*. Fodd bynnag, ni ddefnyddiwyd y cyntaf mewn cyd-destun technegol ar y cyfan,[18] a byr iawn oedd bywyd cerddorol y llall[19] (nad yw'n syndod ar ôl cyfnod mor hir o ansicrwydd ac anhrefn!).

Agwedd debyg iawn i hyn oedd gan ysgrifenwyr y cylchgrawn cynharaf i ganolbwyntio ar yr arddull roc, sef cylchgrawn *Sŵn*. Sefydlwyd *Sŵn* ym 1972 gan Dafydd Meirion Jones ac Alun 'Sbardun' Huws – dau gerddor a chyn-aelodau bandiau roc eraill ('Y Tarddiad' a'r 'Datguddiad' yn achos Jones, a'r 'Tebot Piws' yn achos Huws). Iddynt hwy, yn lle'r awyrgylch llon ond henffasiwn a oedd i'w ganfod ar dudalennau *Asbri*, gwnaeth *Sŵn* ddefnydd llawer mwy rheolaidd o sillafiadau geiriau cyffredin a adlewyrchai eu defnydd yn yr iaith lafar. At hynny, roedd cysodiad y cylchgrawn yn llawer mwy anhrefnus, gyda mwy o luniau o berfformiadau byw a ffontiau cyfoes, ac achubwyd ar bob cyfle i ymosod ar elfennau'r byd y'u hystyrid yn henffasiwn.

Roedd *Sŵn* hefyd yn gyfrifol am argraffu rhai o'r ymdrechion cynharaf i geisio gwahaniaethu rhwng mathau gwahanol o gerddoriaeth boblogaidd newydd yng Nghymru. Roedd y broses hon yn galw am ddealltwriaeth fanylach, ynghyd â defnydd mwy gofalus o dermau arddulliol nag erioed. Un o gyfranwyr *Sŵn* a roddodd ystyriaeth i'r mater hwn oedd Alun Cynfael Lake, a ysgrifennodd ym 1974 am sut y newidiodd ystyr y termau 'pop' a 'chanu ysgafn' yn ystod y 1970au. Yn ei farn ef, ceid dau brif gategori cerddorol yr adeg honno, cerddoriaeth 'bît' (darllener: 'roc') a'r 'canu mwy

---

18 Gweler, er enghraifft, 'Teledu o'r gofod' (1987), *Y Gwyddonydd,* 25 (1), Haf, 35. Defnyddiwyd i olygu '*microscope*' mor gynnar â 1930 – rheswm arall, efallai, paham iddo gael ei anwybyddu gan ysgrifenwyr sy'n trafod cerddoriaeth boblogaidd.

19 Mae 'mwyhadur' – gyda 'h' – yn ymddangos yn y *Geiriadur Termau*. Hefyd, roedd yn derm am offer gwyddonol; mae 'mwyadur' yn golygu '*microscope*'. Enghraifft ydyw o gais aflwyddiannus i newid baich semantig gair sydd eisoes yn bodoli.

traddodiadol' a nodweddid gan 'Y Diliau', 'yr Hennessys' a Dafydd Iwan ac ati. Yn ôl Lake nid dyna oedd y broblem, ond yn hytrach methiant y byd pop i wahaniaethu rhyngddynt:

> Y ffaith amdani yw fod canu ysgafn yn cynnwys pop, ond nad yw pop o angenrheidrwydd yn bopeth a gysylltir â'r dosbarth canu ysgafn. … Beth felly am Hogia'r Wyddfa, Llandegai, (neu) Tony ac Aloma? Ble mae eu lle hwy? Yn amlwg – ddim yn y byd canu pop, gan nad yw eu canu hwy yn dod i fewn i un o'r (ddau gategori). … mae clywed rhywun yn datgan yn hapus a diniwed fod rhywun fel Hogia'r Wyddfa yn canu POP yn achosi i mi ddisgyn ar y llawr yn y poenau mwyaf ofnadwy ac i wylo digon o ddagrau i lenwi Llyn y Bala.[20]

Buasai'r awdur a fynegodd ei farn am y sioe deledu *Disc a Dawn* yn y rhifyn cyntaf wedi cytuno i'r carn:

> … Tony ac Aloma, Hogia'r Wyddfa … Ond i mi, nid hyn yw CANU POP! Mae canu pop IAWN i fod yn anelu at y bobl ifanc. Gwir, mae 'na le i'r math cyntaf o ganu pop (sef Tony ac Aloma ac ati), ond nid ar sioe bop, a dyna, am wn i, yw *Disc a Dawn* i fod.[21]

Trwy'r dull hwn, felly, tynnwyd ffin rhwng yr hen arddull gyda'i fandiau harmoni clòs a'i chylchdaith noson lawen, a'r 'byd pop' newydd.

**Bathu termau er gyfer ideoleg** [22]

Y prif wahaniaeth yn y bôn rhwng *Asbri* a *Sŵn* oedd eu pwyslais ar agweddau gwahanol ar y byd pop. Roedd golygyddion *Asbri* yn ffafrio arddull hŷn canu pop – fel a gafwyd gan 'Perlau Taf', 'Y Pelydrau', a hyd yn oed 'Hogia Llandegai' a'u tebyg – tan gyfnod diweddarach ym modolaeth y cylchgrawn. Yn y deg rhifyn cyntaf, mae erthyglau ar fandiau roc yn ymddangos ar dri achlysur yn unig.[23] Ar y llaw arall, canolbwyntiodd *Sŵn* – er gwaethaf ei is-deitl camarweiniol braidd, 'Y Papur POP' (ond gweler isod) – ar roc fel prif arddull byd pop newydd. Er y cydnabyddir bod arddull gerddorol y bobl a ffurfiodd y bandiau roc a ddeuai i'r amlwg tua 1972 a 1973 yn deillio, mewn llawer o achosion, o wreiddiau'r hyn a ddisgrifiwyd ar y pryd fel yr arddull 'acwstig' neu 'neis-neis', gwelai'r golygyddion hefyd mai'r angen i roi cefnogaeth frwd i roc, yn hytrach na'r arddull hŷn, oedd y ffordd ymlaen. Eu prif rwystr oedd y ffaith mai bach iawn oedd cymuned y bandiau roc Cymraeg ym 1972 a 1973, ac roedd yn amhosibl llenwi rhifyn gyda newyddion am y bandiau Cymraeg yn unig. Felly, rhoddodd *Sŵn* gyhoeddusrwydd i'r genhedlaeth newydd o gerddorion a ddeuai dan ddylanwad cerddoriaeth 'blws' a roc, a chydnabyddai hefyd ychydig o'r gerddoriaeth hŷn ei harddull a ddehonglwyd fel cynnyrch mwy perthnasol i'r frwydr iaith a phrofiadau siaradwyr ifainc.

---

20 Lake, Alun Cynfael (1974), 'Problem diffinio', *Sŵn*, 8, Haf, 4.

21 Anhysbys (1972), 'Disc a Dawn: Sioe Ifanc i'r Hen neu sioe Hen i'r Ifanc?', *Sŵn*, 1, Ebrill-Mai, 8-9.

22 Rwyf yn defnyddio'r gair 'ideoleg' yn ei ystyr ehangaf posibl i gyfeirio at y galw i adfywio'r iaith. Honnodd Gareth Miles fod Cymdeithas yr Iaith yn 'fudiad di-ideoleg o bobl ddi-ideoleg'. Dyfynnwyd yn Phillips, *Trwy Dulliau Chwyldro …?*, t. 153.

23 Sef 'Y Datguddiad', 'Sŵn Rhydd' a'r 'Mellt'. Mae'n debyg i'r 'Mellt' chwarae setiau 'trydanol' erbyn 1970, ond serch hynny, mae eu statws fel band roc go iawn tua'r cyfnod hwn yn ansicr iawn. Cyhoeddwyd erthygl am 'Y Tebot Piws' ym 1970, ond nid oedd 'Y Tebot Piws' wedi troi at yr arddull roc eto.

Gwelir hyn yn y 'Siartiau Swnllyd' (Ffigur 1), rhestr o'r recordiau Cymraeg gorau a gwaethaf dros y blynyddoedd a gyhoeddwyd ar dudalen olygyddol y rhifyn cyntaf ym 1972. Gellir dehongli hyn fel y datganiad amlycaf posibl o agenda gwleidyddol, lle cafwyd artistiaid protest 'hŷn' fel Dafydd Iwan a Huw Jones ar restr y goreuon (ochr yn ochr, yn naturiol, â recordiau o naws rocaidd megis 'Maes B' gan 'Y Blew' a 'Rhaid yw eu tynnu i lawr' gan 'Y Chwyldro') – tra ymddangosai artistiaid siwgraidd megis Hogia'r Wyddfa, ynghyd ag Alwen ac Owain Selway, ar restr y recordiau gwaethaf. Serch hynny, roedd y broses hon o geisio ail-lunio'r byd pop yn ôl cysyniadau mwy modern o gerddoriaeth boblogaidd yn fater anodd, ac yn llawn cyferbyniadau. Ym 1972, cyhoeddwyd sylw gan golofnydd *Sŵn* yn canmol penderfyniad Tony ac Aloma – a ymddangosodd ar restr y recordiau gwaethaf dim ond rai misoedd ynghynt – i roi'r gorau i berfformio tra oeddent ar frig y byd pop.[24]

Ceid felly ddau gyhoeddiad a dau agenda cerddorol cwbl wahanol, ond serch hynny, gellir dadlau i gyfranwyr *Asbri* a *Sŵn* flaenoriaethu moderneiddio'r iaith Gymraeg, ond bod y cylchgronau'n cyflwyno ffyrdd cyferbyniol o gyflawni hyn. Fel rheol, mae'r dulliau o fathu termau Cymraeg sy'n fwy dibynnol ar y geiriau a'r ffurfiau Saesneg gwreiddiol yn fwy cyson o lawer yn *Sŵn* nag yn *Asbri*; e.e., yn *Sŵn*, mae geiriau megis 'staciau', 'seshiwn jam', 'jamio', 'blwch ffws' (*fuzz box*) ac ati yn gyffredin. Fodd bynnag, ni ellir gwadu ymrwymiad golygyddion *Sŵn* i'r frwydr iaith, ac felly mae penbleth yn codi. Mae bathu term Cymraeg, boed yn derm cwbl newydd neu'n air Saesneg gyda'r terfyniad 'iau' neu 'iaid', yn gwneud rhywfaint i gyfoethogi'r iaith, ond mae bathu term Cymraeg er mwyn gwneud pwynt ideolegol – mewn geiriau eraill, i bwysleisio 'arallrwydd' yr iaith – yn ddibynnol ar sŵn a natur y gair. Nid yw'r hyn a ddisgrifiwyd gan R. S. Thomas fel '*the deplorable habit of attaching 'io' to hosts of English words*'[25] yn creu'r un grym rhethregol bob tro â chreu termau cwbl Gymraeg, am y tuedda'r canlyniadau i gadarnhau amheuon traddodiadol am natur israddol a sathredig yr iaith Gymraeg yn llygaid ei gwrthwynebwyr.

Pwysleisiwyd y pwynt hwn mewn dadl ar dudalennau cyfnodolyn y Gynghrair Geltaidd, *Carn*, ym 1987 a 1988. Mynegodd Richard Gendall, un o benseiri adfywiad yr iaith Gernyweg, farn ar y dulliau a ddefnyddiwyd i ail-greu rhannau o'r eirfa Gernyweg, a oedd yn anghyflawn oherwydd diflaniad cynnar yr iaith yn y ddeunawfed ganrif. Roedd yr arfer o fenthyca o'r Saesneg, yn ei farn ef, yn dderbyniol, ac roedd yn ffordd well o lenwi bylchau na benthyca o iaith Geltaidd arall, fel Cymraeg neu Lydaweg. Mewn ymateb a gyhoeddwyd tua dechrau 1988, cyfrannodd Peter Lloyd at y drafodaeth gan ategu barn nifer o ysgolheigion eraill:

> … nid oes drwg ym menthyg gair lle bo gwneud felly yn llenwi bwlch, ond os benthycir gair *lle mae un Cymraeg cryno ar gael yn barod*, gwneir niwed i'r Gymraeg, a phrysurir ei chwymp i fratiaith ddiwerth (fy mhwyslais i).[26]

---

24 *Sŵn* (1972), 3, Awst-Medi, 2.

25 *Cymru or Wales?* (1992) (Llandysul: Gomer), t. 18. Yn y llyfr hwn, mae R. S. Thomas yn cydnabod pwysigrwydd bathu termau gwreiddiol a naturiol Cymraeg, ac yn cynnig amddiffyniad egnïol o'r syniad.

26 Gendall, Richard (1998), 'Geiriau Benthyg a Bathu Termau', *Carn*, 61, Gwanwyn, 12.

Yn rhyfedd ddigon, y rheswm dros duedd ysgrifenwyr *Sŵn* i osgoi rhai o'r geiriau newydd a gofleidiwyd gan *Asbri*, yw eu bod o natur hirwyntog. Ni ellir gwadu'r ffaith fod geiriau a thermau megis 'sainchwyddwyr' yn ffurfiol ei naws, sydd hwyrach yn rheswm dros ddefnydd y gair 'ampiau' cyn diwedd y 1970au. Daw eglurhad arall i'r amlwg, fodd bynnag, pan ystyrir safbwynt mwy cyfoes *Sŵn*. Eglurhad llawer mwy argyhoeddiadol o duedd y golygyddion i droi cefn ar y termau Cymraeg gwreiddiol a symud tuag at eiriau benthyg o bob lliw oedd yr angen a deimlent i gyflwyno fersiwn newydd a modern o'r iaith Gymraeg.

Ers 1968, wedi'r cyfan, enillai Hywel Gwynfryn glod am greu '*DJ patter*' yn Gymraeg ar ei sioe radio *Helo sut dach chi?*, ac mae'n debyg i garfan gynyddol o 'droellwyr' (neu DJs) ar ddechrau'r 1970au ddatblygu 'rhigymau' tebyg (yn ôl disgrifiad *Asbri* o'r ffenomen) er mwyn llenwi'r bylchau rhwng recordiau. Mae'n debyg bod anghysondeb yr eirfa a ddefnyddiwyd yn y '*DJ patter*' – sydd yn ôl pob tebyg yn gyfrifol am lawer o'r enghreifftiau o eiriau Saesneg wedi'u Cymreigio – yn deillio o'r angen hwn i lanw bylchau. Yn wir, mae'n berffaith nad oedd y golygyddion yn gwneud dim mwy nag adlewyrchu'r iaith a glywsent yng nghylchoedd cefnogwyr cerddoriaeth roc Gymraeg, boed gyda'r tafod yn y boch, ai peidio.

### Ymadroddion Cymraeg 'brodorol' – canlyniadau ideolegol

Serch hynny, erys y ffaith bod rhai o'r ymadroddion Cymraeg 'brodorol' wedi goroesi. Nid yw'n syndod bod rhai yn y byd pop yn awyddus i boblogeiddio termau tywyll eu hystyr am resymau gwleidyddol, ac mae'n ymarfer gwerth chweil i edrych ar y rhesymeg y tu ôl i hyn. Mae Peter Merriman a Rhys Jones wedi dadlau'n argyhoeddiadol bod ymgyrch hirdymor Cymdeithas yr Iaith dros arwyddion dwyieithog yn bwysig, am iddi ddehongli statws arwyddion uniaith Saesneg fel symbol o ormes a gwladychiaeth lywodraethol Brydeinig. Mae'r awduron yn gweld yr ymgyrch hon fel '*one of the most effective campaigns carried out by the Welsh Language Society*',[27] ac yn tynnu ar syniadau Michael Billig am '*banal nationalism*', gan bwysleisio pwysigrwydd arwyddion dwyieithog fel arwydd hollbresennol o'r iaith:

> Language campaigners were quite clear about the significance of erecting Welsh language road signs. English language road signs were part of the daily, incremental performance of anglicisation and English government control in Wales, while Welsh-language signs would form an important component in the everyday banal flagging of the language …[28]

Os yw honiad Merriman a Jones yn wir, sef '*place-name signs shape private and personal, as well as public and collective, geographies of locales, regions and nations*',[29] a ellir hawlio felly bod yr un egwyddor yn berthnasol yng nghyd-destun yr ystafell ymarfer, tudalennau'r ffansîn cerddoriaeth, neu lwyfan y dafarn leol? Yn yr un modd ag arwyddion cyhoeddus, caiff cerddoriaeth boblogaidd effaith barhaol ar ein bywydau

---

27 Merriman, Peter, a Jones, Rhys (2009), 'Symbols of Justice': the Welsh Language Society's campaign for bilingual road signs in Wales, 1967-1980', *Journal of Historical Geography*, 35, 350.

28 Ibid., 358–9.

29 Ibid., 353.

pob dydd; erbyn dyfodiad y Walkman yn y 1980au cynnar, gellid gwrando arno drwy'r amser ym mha le bynnag y dymunid.[30]

Dan yr amgylchiadau hynny, roedd yr ysgogiad i sicrhau bod y gerddoriaeth honno mor 'Gymraeg' â phosibl yn bwysicach nag erioed, yn enwedig yn wyneb y symudiad cyffredinol oddi wrth arddulliau acwstig, a thuag at arddulliau roc – arddull a welwyd gan rai fel arddull anobeithiol o anghymreig. Yn wir, dichon mai dyna oedd y rhesymeg y tu ôl i ymdrechion ysgrifenwyr megis Alun Lenny a Hefin Wyn i fathu termau newydd am yr arddull roc a'i is-arddull newydd, pync, yn y 1970au diweddar. Cafodd y termau 'sigl a swae' a 'sigl a chraig' eu bathu i ddisgrifio '*rock 'n' roll*' yn y 1960au cynnar, ond ni lwyddodd yr un ohonynt i ennill eu plwy'. Fodd bynnag, cwtogodd Alun Lenny ei ymadrodd, 'sigl a chraig', i 'craig' ymhen ychydig.[31] Yn y cyfamser, ceisiodd Wyn boblogeiddio ei dermau 'roc rafins' a 'rocecer' ar gyfer cerddoriaeth pync, a defnyddiodd y termau sawl gwaith yn ei golofnau yn *Y Cymro*.[32]

Ni ddaeth dim o'r ymdrechion hyn, gyda'r ieuenctid (a'r bandiau eu hunain yn y diwedd) yn ffafrio'r termau sy'n deillio o'r geiriau Eingl-Americanaidd gwreiddiol 'roc a rôl' a 'pync', gan eu bod yn 'gwneud synnwyr'. Heblaw am sŵn annaturiol y termau newydd mewn cyd-destun cerddorol, dichon fod a wnelo ffactorau diwylliannol â'u methiant. Fel y nododd Robert Smith, yn y blynyddoedd ar ôl yr Ail Ryfel Byd, dychwelodd nifer o Gymry i'r wlad ar ôl cyfnodau o wasanaeth yn y lluoedd arfog, neu o weithio mewn mannau eraill ym Mhrydain ochr yn ochr â siaradwyr uniaith Saesneg, lle gofynnid iddynt fod yn rhan o'r diwylliant Seisnig. Ar yr un pryd, yn ystod y 1950au, daeth ffurfiau newydd o adloniant ysgafn megis dawnsio cyfoes a'r sinema i Gymru:

> ... Saesneg oedd iaith caneuon poblogaidd y dydd. Cafwyd adfywiad yn y diwydiant ffilm ym Mhrydain yn ystod y cyfnod hwn a denid miloedd o Gymry Cymraeg i'r sinemâu i wylio ffilmiau a gynhyrchid mewn stiwdios megis Ealing. Yr oedd hwn yn ddiwylliant byd-eang, yn drwm dan ddiwylliant yr Unol Daleithiau, a chynigiai i drigolion Cymru gyfle i fwynhau profiad diwylliannol nad oedd ddim gwahanol i'r hyn a fwynhâi eu cyfoeswyr (Prydeinig y tu hwnt i Gymru). Brawychwyd rhai o arweinwyr cyhoeddus Cymru gan ddylanwad diwylliant estron a oedd, yn eu tyb hwy, yn gwbl anghydnaws â'r traddodiad Cymreig.[33]

At ei gilydd, cafodd y ffurfiau newydd o adloniant rywfaint o ddylanwad ar agweddau cyfoes y genhedlaeth newydd hon tuag at ddefnydd y Gymraeg (mewn perthynas â'r ffurfiau newydd hynny). Cyfeiriwyd at y ffurfiau gan ddefnyddio geiriau Saesneg; ceid cyfeiriadau di-rif at '*pops*', yr '*hit parade*' a'r '*Top Twenty*' yn nhudalennau'r *Cymro* a'r *Herald Gymraeg a'r Genedl* yn ystod y 1950au a'r 1960au; cyflwynwyd y rhain heb ymddiheuriad am y diffyg termau Cymraeg gan ei fod yn beth hollol naturiol i drafod y pwnc yn Saesneg yn y lle cyntaf.

---

30 Hosokawa, S. (1984), 'The Walkman Effect', *Popular Music 4: Performers and Audiences*, 165-80.

31 Gweler, er enghraifft, Lenny, Alun (1976), 'Twrw Tanllyd '76', *Asbri*, 31, Haf, 12. Fel arfer, defnyddiodd ysgrifenwyr *Asbri* y term gwreiddiol 'rock and roll' mewn llythrennau italig cyn 1976.

32 Gweler, er enghraifft, *Y Cymro* (1977), 22 Tachwedd, 9, lle mae Wyn yn rhoi ei resymeg dros ddefnyddio'r gair 'rocecer' wrth ddisgrifio'r Trwynau Coch: '"Ecer" yw gair pobl y cwm am siarad yn blaen …'

33 Smith, R. (2000), 'Newyddiaduraeth a'r Iaith Gymraeg', yn Jenkins, G. H. a Williams, M. A. (goln), *'Eu Hiaith a Gadwant'?: Y Gymraeg yn yr Ugeinfed Ganrif* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), tt. 281-2.

Mae'n glir bod y safbwynt hwn yn newid, yn enwedig yn y blynyddoedd ar ôl darllediad *Tynged yr Iaith* ym 1962, ac mae ymdrechion megis y rheiny gan Lenny a Wyn yn tanlinellu'r sensitifrwydd a oedd yn gyffredin yn y byd pop tan ddiwedd y 1970au ynghylch defnyddio'r enw 'roc' i ddiffinio'r garfan newydd o artistiaid megis 'Injaroc', 'Shwn' a 'Crysbas' a chwaraeai yn yr arddull hwnnw.[34] Maent hefyd yn awgrymu ymwybyddiaeth o'r materion ideolegol ehangach. Fel yr honnodd Christina Schäffner wrth ysgrifennu am gyfieithu: *'… ideological aspects can also be determined within a text itself… at the lexical level (reflected, for example, in a deliberate choice or avoidance of a particular word)…'*[35] Dichon fod 'roc' neu 'pync' yn cynrychioli Seisnigeiddio annerbyniol i rai, ac fe'u hystyrid yn eiriau y dylid eu hosgoi. Y tristwch oedd bod bathu termau megis 'craig' a 'rocecer' heb gonsensws yn rhy artiffisial i sicrhau eu defnydd gan siaradwyr, er gwaethaf awdurdod dylanwadol *Y Cymro* i gynorthwyo i gyfreithloni'r term (yn achos Wyn).

O'r safbwynt hwn, ac wrth edrych ar y dystiolaeth sy'n goroesi, gellir awgrymu bod defnydd o eiriau brodorol yn dynodi protest: hynny yw, ffordd o bwysleisio Cymreictod diwylliant Cymraeg a Chymreig mewn sefyllfa lle mae'r diwylliant hwnnw'n cwrdd â rhan o'r diwylliant Eingl-Americanaidd – sef diwylliant pop yr ifanc – a dreiddiodd i bob man, ac fe'i gwrthwynebir trwy Gymreigio'i dueddiadau a'i ymadroddiad Saesneg. Wedi'r cwbl, awgrymodd Dafydd Iwan y canlynol ym 1977:

> Y nod yn syml yw ein bod yn medru byw yn gyflawn drwy'r Gymraeg, a mwynhau pob math o brofiad, meddwl pob math ar feddyliau a gwneud pob math ar weithredoedd fel Cymry, gant y cant. Trwy sefydlu a datblygu'r Byd Cymraeg hwn yn unig y medrwn rwystro'r Byd Eingl-Americanaidd rhag meddiannu Cymru.[36]

Ym marn Iwan, roedd yn bosibl gweld natur iaith y byd pop hwnnw fel mur yn erbyn anrhaith y diwylliant Saesneg ei iaith. Os yw tranc termau megis 'rocecer' a 'sigl a chraig' yn yr iaith lafar (ac, i raddau helaeth iawn, yr iaith ysgrifenedig) yn datgelu unrhyw beth, dengys bod ymdrechion o'r math hwn ym myd diwylliant yr ifanc yn colli llawer o'u grym rhethregol os nad derbynnir cymorth yr ifanc eu hunain.

Beth, felly, am y ffyrdd amrywiol o greu geiriau newydd? Nid oedd i'r dulliau hyn statws cyfartal ymhlith ymgyrchwyr, a gellir honni bod y rheiny a ddeallai egwyddorion yr ymgyrch iaith, megis aelodau'r Gymdeithas, yn ffafrio'r strategaeth o fathu termau Cymraeg newydd sbon dros y strategaethau eraill mwy 'Seisnig', fel y ffordd fwyaf effeithiol o ddangos Cymreictod, ac o ganlyniad, o brotestio. Nid yw'n anodd gweld yr apêl – rhoddodd R.S. Thomas grynodeb defnyddiol o'r ystyriaeth y tu ôl i hyn ym 1992:

> … Even allowing for the commendable efforts to find Welsh equivalents for the thousand and one objects and inventions which appear daily, it is a depressing experience to see how nearly allied to, if not identical with the English term they are. … What should be aimed at when converting English terms and phrases into Welsh

34 Yn rhyfedd ddigon, aeth ysgrifenwyr *Sŵn* allan o'u ffordd i osgoi'r term yn nyddiau cynnar y cylchgrawn, yn ffafrio'r termau 'bît' neu '*descriptive circumlocutions*' Morris Jones, a 'grwpiau ar gyfer dawnsfeydd' yn hytrach na 'grwpiau roc'.

35 Schäffner, 'Third Ways and New Centres', t. 23.

36 Iwan, D. (1977), 'Y Byd Cymraeg', pamffled 'Twrw Tanllyd', t. 9.

> is not an exact rendering, but a natural word or phrase, which conveys the meaning while retaining its Welsh character.[37]

Mae gwreiddiau'r ddadl hon i'w darganfod yn yr ysgogiad i wahanu'r iaith Gymraeg, ac felly hefyd y Cymry, oddi wrth y geiriau cyfatebol Saesneg, ac mae hyn yn bwysig pe dymunir gwahaniaethu rhwng y ffyrdd y defnyddia'r ymgyrchwyr y strategaethau hyn. Roedd yr ymdrechion i addasu'r iaith ar gyfer y byd pop yn *Asbri* a *Sŵn* yn rhan o dueddiad ehangach. Yn y 1960au, ni bu ymgyrchwyr yn hir cyn cydnabod dau honiad: yn gyntaf, bod y Gymraeg yn henffasiwn, ac yn ail, bod siaradwyr Cymraeg wedi datblygu'r arfer o ddefnyddio termau Saesneg mewn meysydd cyfan o fywyd pob dydd. Er mwyn dod o hyd i atebion i'r problemau hyn, ceisiodd Cymdeithas yr Iaith, ymhlith eraill, annog eu cefnogwyr i ddefnyddio geiriau Cymraeg ar gyfer gweithgareddau lle'r oedd terminoleg Saesneg wedi cael ei defnyddio hyd at y pwynt hwnnw. Mae barn Mac a' Ghobhainn a Berresford Ellis yn berthnasol yn y cyswllt hwn. Yn ysbryd eu haeriad mai '*(the) introduction and use (of a lesser-used language) in every walk of life at every conceivable opportunity, until it becomes a natural thing, no longer laboured or false*' yw'r unig ffordd o ddiogelu iaith leiafrifol,[38] dechreuodd ysgrifenwyr *Tafod Y Ddraig* nodi gweithgareddau bob dydd lle'r oedd pobl yn tueddu i ddefnyddio geiriau Saesneg, ac aethant ati i gyhoeddi rhestri o dermau Cymraeg yn eu lle, fel a welir yn y rhestr o dermau pysgota yn Ffigur 2. Dyna'n wir, gellir dehongli, yw pwrpas rhestr debyg o eiriau yn ymwneud ag offer sain mewn cyfweliad â Mici Plwm (cefnogwr brwd i Gymdeithas yr Iaith) yn *Asbri* (Ffigur 3). Mae sawl un o'r termau hynny wedi goroesi yn yr iaith lafar.

Felly, gallwn gyd-destunoli ymddangosiad geiriau megis 'bwrdd troelli', 'troellwr' a 'chwyddwr sŵn' nid yn unig mewn ystyr ymarferol, ond mewn ystyr ideolegol yn ogystal. Gan eu bod yn fwy 'Cymraeg' eu naws, maent yn atgoffa'r siaradwr Cymraeg o natur unigryw ei famiaith. Os llwyddant hefyd i gael eu defnyddio'n naturiol yn yr iaith lafar ynghyd ag ennyn poblogrwydd, gallant ennyn yn y siaradwr deimladau o falchder a hunanhyder. Roedd hyn yn bwnc llosg erbyn y 1970au, pan oedd Cymreictod y byd pop yn destun dadl, yn enwedig pan ddechreuodd bandiau megis 'Brân', 'Crysbas' a 'Shwn' chwarae cerddoriaeth mewn arddulliau fel roc, a oedd yn gysylltiedig ym meddwl rhai â safbwynt a oedd yn groes i'r diwylliant Cymraeg. Er enghraifft, wrth siarad ym 1976 am y band Edward H. Dafis, mynegodd Dafydd Iwan y farn ganlynol:

> I mi, y cyfraniad mwya' bod nhw wedi gwneud ydy dangos bod hi'n bosib i ganu y math yna o ganeuon (sef caneuon yn yr arddull roc) yn Gymraeg, heb lurgunio'r Gymraeg, a heb ddefnyddio 'lled iaith' Americanaidd. Mae eu geiriau ar y cyfan yn glir ac yn groyw ac yn Gymraeg iawn er bod y miwsig yn gallu bod yn Americanaidd iawn ei sŵn.[39]

O ystyried geiriau Dafydd Iwan, a datganiadau tebyg o'r un cyfnod, gellir datgan bod artistiaid a sylwedyddion yn credu'n gryf dros bwysigrwydd sicrhau Cymreictod y byd pop, a hynny drwy wrthwynebu unrhyw ddylanwadau a oedd yn debygol o arwain at Seisnigeiddio'r byd hwnnw. Yn amlwg, roedd y math o iaith yr oedd artistiaid yn ei defnyddio yn eu caneuon yn allweddol yn hyn o beth.

---

37 *Cymru or Wales?*, t. 16; t. 18.

38 Berresford Ellis, Peter, a Mac a' Ghobhainn, Seamus (1971), *The problem of language revival: Examples of language survival* (Inverness: Club Leabhar), t. 144.

39 *Edward H. Dafis* (darlledwyd 10 Medi 1976), ffilm ddogfen.

**Diweddglo**

Mae natur y dystiolaeth a oroesodd o'r 1960au a'r 1970au yn ein gorfodi i ganolbwyntio ar ffynonellau printiedig yn bennaf, ond dylid cofio gwahaniaethu rhwng defnydd yr iaith ysgrifenedig a defnydd yr iaith lafar. Defnydd byrhoedlog a gafodd cryn dipyn o'r geiriau a fathwyd yn *Asbri* a *Sŵn*, a hwyrach nad y'u defnyddiwyd mewn sgyrsiau pob dydd o gwbl. Erbyn dechrau'r 1990au, tueddwyd i ddefnyddio dynwarediadau a geiriau benthyg yn hytrach nag addasu geiriau Cymraeg a fodolai eisoes, mynegiannau Cymraeg o gysyniadau neu '*descriptive circumlocutions*'. Er enghraifft, gwelir yn Nhabl 2 i'r gair 'amp' a'r lluosog 'ampiau' fynd yn fwyfwy poblogaidd yn *Asbri* yn ystod y 1970au, a hynny ar draul y rheiny a oedd yn ceisio poblogeiddio'r term 'sainchwyddwr'. Erbyn diwedd y 1980au ar yr hwyraf, roedd 'amp' wedi ennill y dydd, a defnyddiwyd y gair yn gyson mewn ffansîns a chylchgronau megis *Sothach* (hynny yw, pan nad oedd ysgrifenwyr yn defnyddio'r gair benthyg 'cab' iddynt).[40]


Dichon fod hyn yn adlewyrchu defnydd y termau nid yn unig yn yr iaith lafar, ond hefyd newid o fewn cyd-destun gwleidyddol. Wedi'r cwbl, mae'n bosibl olrhain hanes y term 'byd pop Cymraeg' o'r 1960au hyd at y 1970au diweddar, pan gychwynnodd 'byd roc Cymraeg' ennill tir. Erbyn diwedd y 1980au ar yr hwyraf, roedd y term 'sîn roc Gymraeg' – term llawer llai herfeiddiol oherwydd ei fod yn adlewyrchu termau Eingl-Americanaidd tebyg – yn cael ei ddefnyddio'n aml, ac mae'n ddigon amlwg na pherthyn yr ymadrodd i gysyniad Dafydd Iwan o'r 'Byd Cymraeg'. Pan fynegir bodolaeth cerddoriaeth boblogaidd Gymraeg yn nhermau 'sîn' yn hytrach na 'byd', mae'n colli'r elfen o weithgaredd annibynnol a awgrymir gan y gair 'byd'. Yn yr un modd, ac er gwaethaf ymdrechion gorau aelodau Cymdeithas yr Iaith, fel y rapiwr Steffan Cravos, i boblogeiddio termau fel 'ailgymysgiad' am '*remics*', 'gollwng' (h.y. gollwng nodwydd ar record) yn lle 'dropio', ar gloriau cefn eu recordiau, mae'r geiriau sy'n seiliedig ar eiriau benthyg – yn hytrach na dynwarediadau neu dermau cysyniadol Gymraeg – yn rhan o'r iaith fyw erbyn hyn. Yn sgil dwyieithrwydd cynyddol y sîn gerddorol yn arbennig, mae'n gwestiwn a gaiff y duedd hon effaith andwyol ar natur ieithyddol y sîn honno yn y dyfodol.

**Diolchiadau**

Mae'r uchod yn fersiwn o bapur a roddwyd yng ngynhadledd 'Trwy Ddulliau Chwyldro...?', Prifysgol Bangor, Tachwedd 2012. Fel rhan o'r ymchwil ar gyfer yr erthygl hon, edrychwyd ar y ffilm ddogfen *Edward H. Dafis* (1976) yn y British Film Institute, Llundain, yn ystod taith ymchwil a gyllidwyd gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Hoffai'r awdur ddiolch i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol am eu haelioni, yn ogystal â Ms Hannah Loy yn y BBC yng Nghaerdydd am ei chymorth, ynghyd â staff y BFI, yn enwedig Ms Hannah Curry a Mr Steve Tollervey.

---

40 Mae cyhoeddiad o ganol y 1980au, y cylchgrawn byrhoedlog *Dracht* (dau rifyn, 1985), yn rhoi enghreifftiau o'r nifer fawr o eiriau benthyg a oedd yn yr eirfa ar y pryd: defnyddir '*cab*', '*monitors*', '*chorus pedal*', '*direct input PA*', '*digital delay*', a llawer o eiriau eraill heb ymgais i'w cyfieithu na'u haddasu. Mae geiriau technolegol hŷn megis 'meicroffon' yn ymddangos, fodd bynnag.



Siartiau Swnllyd

Y recordiau GORAU erioed yn Gymraeg

1. Maes B - *Y Blew*
2. Colli Iaith - *Heather Jones*
3. Pam fod yr eira'n wyn - *Dafydd Iwan*
4. Siwsi - *Nhw*
5. Rhaid yw eu tynnu i lawr - *Y Chwyldro*
6. Gwalia - *Janet Evans a Diliau Dyfrdwy*
7. Dihuno'r bore - *Eleri Llwyd*
8. Pont y Borth *Hogia'r Werin*
9. Blodau'r Grug - *Eirlys Pary*
10. Llond Bola - *Y Dyniadon*
11. Byw yn y wlad - *Meic Stevens*
12. Moliannwn - *Bob Tai'r Felin*
13. Dŵr - *Huw Jones*
14. Myn Duw mi a wn y daw - *Dafydd Iwan*
15. Blaenau Ffestiniog - *Y Tebot Piws*
16. Can Walter - *Meic Stevens*
17. Yr Asyn a fu farw - *Bob Tai'r Felin*
18. Ar lan y môr - *Hennesseys*
19. Daw dydd - *Huw Jones*
20. Mwg - *Meic Stevens*

Dim mewn unrhyw drefn arbennig.

Y recordiau GWAETHAF erioed yn Gymraeg

1. Mynd mae ein rhyddid ni - *Perlau Taf*
2. Roced fach ni - *Pelydrau*
3. Caneuon Tafarn - *Yr Alcoholics*
4. Tri Mochyn Bach - *Tony ac Aloma*
5. Wil Coes Bren - *Hogiau'r Deulyn*
6. Y ferch ar y cei yn Rio - *Hogia'r Wyddfa*
7. Bachgen llygad ddu - *Y Pelydrau*
8. Cristion bychan ydwyf - *Alwen ac Owain Selway*
9. Câr y rhain i gyd - *Perlau Taf*
10. Pictiwrs bach y Borth - *Blodau'r Ffair*

*a rhai miloedd o rai eraill.*

*Ffigur 1: Y 'Siartiau Swnllyd' (1972), Sŵn, 1, 3.*

**YN GYMRAEG**—wrth bysgota :

| | | |
|---|---|---|
| *net :* rhwyd | *hook :* bach, bachyn | fly *:* pluen |
| *gaff, harpoon :* tryfer | *rod :* gwialen, genwair | *bait :* abwyd |
| *salmon :* eog | *trout :* brithyll | *bank :* torlan |
| *to cast :* chwipio, lluchio | *worm :* pry' genwair, mwydyn | |
| *gut :* blaen llinyn | *lead :* plwm, plymen. | |

***Ffigur 2: Rhestr o eiriau a thermau Cymraeg yn ymwneud â physgota (1965), Tafod y Ddraig, 18, Mawrth, 4.***

*Gol. : Pa fath o offer a ddefnyddir gennych ?*

*M.P. :* 'Rwyf wedi ceisio prynu'r offer gorau y mae modd ei gael ar y farchnad. Mae saith mlynedd o waith gyda'r Bwrdd Trydan, a'r amser gyda'r Cwmni Theatr y tu ôl i mi yn fy ngalluogi i wario'n ddoeth, gobeithio. I'r rhai sy'n gwybod am y pethau yma, mae gen i :

*ddau fwrdd troelli (turn tables)*
*ddau feicroffon a stand*
*un taflunydd (projector)*
*un strôb*
*dau sbicâr (speaker) 50 W. yr un*
*un chwyddŵr swn (amplifier) 70 Watt.*
*un uned Rheoli Sain/Goleuadau*
*dau Golofn olau (gydag 8 bwlb i bob colofn)*
*dau stribed golau (gyda 4 bwlb i bob stribed)*

Ac ar hyn o bryd, tua 150 o recordiau. Byddaf yn prynu rhai ychwanegol bob wythnos.

***Ffigur 3: Rhestr o eiriau a thermau Cymraeg yn ymwneud ag offer sain (1972), Asbri, 16, Gwanwyn, 16.***

**Llyfryddiaeth**


Berresford Ellis, Peter, a Mac a' Ghobhainn, Seamus (1971), *The problem of language revival: Examples of language survival* (Inverness: Club Leabhar).

Davies, Janet (2ail argraffiad, 2000), 'Welsh', yn Price, Glanville (gol.), *Languages in Britain and Ireland* (Oxford: Blackwell), tt. 78-208.

Gendall, Richard (1988), 'Geiriau Benthyg a Bathu Termau', *Carn*, 61, Gwanwyn, 12.

Hill, Sarah (2007), *'Blerwytirhwng?': The Place of Welsh Pop Music* (Aldershot: Ashgate).

Hosokawa, Shuhei (1984), 'The Walkman Effect', *Popular Music 4: Performers and Audiences*, 165-80.

Iwan, Dafydd (1977), 'Y Byd Cymraeg', pamffled 'Twrw Tanllyd' (dim manylion cyhoeddwr), t. 9.

Jones, Craig Owen (2013, i'w chyhoeddi), "Still Here'?: A Geospatial Survey of Welsh-language Popular Music', yn Sara Cohen, Robert Knifton, Marion Leonard, a Les Roberts (goln), *Sites of Popular Music Heritage: Memories, Histories, Places* (London: Routledge).

Jones, R. Emrys (1964), *Termau Theatr* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).

Jones, Morris (1973), 'The Present Condition of the Welsh Language', yn Stephens, Meic (gol.), *The Welsh Language Today* (Llandysul: Gomer), tt. 110-26.

Merriman, Peter, a Jones, Rhys (2009), ''Symbols of Justice': the Welsh Language Society's campaign for bilingual road signs in Wales, 1967-1980', *Journal of Historical Geography*, 35, tt. 350-75'.

Parry-Williams, T. H. (1923), *The English Element in Welsh* (London: Honourable Society of Cymmrodorion).

Phillips, Dylan (1998), *Trwy Ddulliau Chwyldro…?: Hanes Cymdeithas yr Iaith Gymraeg 1962-1992* (Llandysul: Gomer).

Schäffner, Christina (2003), 'Third Ways and New Centres: Ideological Unity or Difference?', yn Calzada Pérez, María (gol.), *Appropos of Ideology: Translation Studies on Ideology – Ideologies in Translation Studies* (Manchester: St Jerome Publishing), tt. 23-41.

Smith, Robert (2000), 'Newyddiaduraeth a'r Iaith Gymraeg', yn Jenkins, Geraint H. a Williams, Mari A. (goln), *'Eu Hiaith a Gadwant'?: Y Gymraeg yn yr Ugeinfed Ganrif* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), tt. 267-98.

Stephens, Meic (gol.) (1973), *The Welsh Language Today* (Llandysul: Gomer).

Williams, Jac L. (gol.) (1973), *Geiriadur Termau/Dictionary of Terms* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).

Thomas, R. S. (1992), *Cymru or Wales?* (Llandysul: Gomer).


**Cylchgronau a phapurau newydd**


*Asbri*

*Y Cymro*

*Dracht*

*Sgrech*

*Sŵn*

*Edward H. Dafis*, ffilm ddogfen (darlledwyd 10fed Medi 1976).

Ffion Curtis, E. J. Oliver, A. W. Jones, S. Rice, a R. Thatcher

# Iechyd a newidiadau ffordd o fyw sy'n gysylltiedig ag oedran mewn ardaloedd gwledig: y pwyslais ar bryderon cyfredol yng Nghymru

Gwerddon
CYFNODOLYN ACADEMAIDD CYMRAEG
Golygydd Yr Athro Ioan Williams

# Iechyd a newidiadau ffordd o fyw sy'n gysylltiedig ag oedran mewn ardaloedd gwledig: y pwyslais ar bryderon cyfredol yng Nghymru

*Ffion Curtis, E. J. Oliver, A. W. Jones, S. Rice, a R. Thatcher*

Daw rhai cyflyrau meddygol penodol yn fwy tebygol gyda henaint, gan gynnwys clefyd cardiofasgwlaidd, diabetes, osteoporosis a chanser. Er y gellir profi bod perthynas rhwng heneiddio ac achosion cynyddol y cyflyrau hyn yn y boblogaeth hŷn, nid y'u hachosir gan henaint fel y cyfryw gan na fydd pob unigolyn yn eu dioddef wrth heneiddio. Mae elfennau ffordd o fyw yn cyfrannu at gyflyrau meddygol a gysylltir â henaint; ffactorau yw'r rhain y gellir eu rheoli'n gymharol rhwydd fel deiet, ymarfer corff a threulio digon o amser yn yr awyr agored ac yn yr haul. Wrth i ganran y boblogaeth hŷn gynyddu yng Nghymru, daw'r gwasanaethau iechyd wyneb yn wyneb â chyfres o sialensau newydd. Yn yr adroddiad hwn, tanlinellir y sialensau hyn a chyflwynir dadleuon o blaid ymyriadau cynnar ag elfennau ffordd o fyw. Trafoda'r erthygl broblemau o ran gofal, iechyd a chost sy'n deillio o gynnydd yng nghanran y boblogaeth hŷn yng nghefn gwlad Cymru, a phwysleisir cyfraniad allweddol elfennau ffordd o fyw at gynnydd mewn achosion o glefyd siwgr a chwympo (cael codwm). Ar ôl trafodaeth ar y dystiolaeth sydd ar gael mewn perthynas ag ymyriadau cyfredol, cyflwynir awgrymiadau ynghylch gwasanaethau'r dyfodol yng Nghymru wledig.

Cydnabyddir y cynnydd diweddar yng nghanran y boblogaeth sydd dros oedran ymddeol yn sialens fyd-eang. Erbyn 2012, roedd pobl dros 60 mlwydd oed yn cynrychioli dros 18 y cant o'r boblogaeth gyfan (Cronfa Poblogaeth y Cenhedloedd Unedig (UNPF), 2012). Yn ôl y rhagolygon, disgwylir i'r ffigwr gynyddu hyd at gyfanswm o dros un biliwn ymhen degawd. Wrth ystyried y Deyrnas Unedig yn ei chyfanrwydd, yng Nghymru y ceir y ganran uchaf o'r boblogaeth sydd dros oedran ymddeol, a disgwylir y bydd y ganran honno'n cynyddu i dros 25 y cant o'r boblogaeth gyfan erbyn 2033 (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2008). Cydnabyddir mai darparu gwasanaethau digonol i'r henoed yng Nghymru yw un o'r sialensau mwyaf dyrys sy'n wynebu'r pedwerydd Cynulliad (Gwasanaeth Ymchwil y Cynulliad Cenedlaethol, 2011). Mae'r CPCU yn dadlau y dylai iechyd a lles yr henoed fod yn ganolog i ystyriaethau'r gymdeithas, a bod dyletswydd ar bob llywodraeth i sicrhau polisïau sy'n hyrwyddo byw yn iach.

Yng nghefn gwlad Cymru, mae'r anghydbwysedd cynyddol ym mhroffeil oedran y boblogaeth yn ychwanegu at raddfa'r broblem hon (Hartwell, Kitchen, Milbourne, et al., 2007). Gwelir y genhedlaeth ifanc yn symud o'i hardaloedd am resymau cyflogaeth a phrisiau tai (Stockdale, 2004), a'r genhedlaeth hŷn – yn enwedig ar ôl ymddeol – yn symud i ardaloedd gwledig. Gwlad wledig yw Cymru yn bennaf, a cheir ynddi nifer fawr o awdurdodau gwledig (Ceredigion, Conwy, Gwynedd, Powys, Sir Benfro, Sir Ddinbych, Sir Fynwy, Sir Gaerfyrddin ac Ynys Môn) ac ardaloedd gwledig o fewn yr awdurdodau eraill (Sir Fflint a Bro Morgannwg) (Arsyllfa Wledig Cymru). Gwelir cynnydd yn y boblogaeth, yn enwedig yn y Canolbarth (Hartwell, et al., 2007), ac

mae hyn yn ei dro yn creu heriau ychwanegol o ran gwella safon gofal iechyd yn yr ardaloedd hyn yn yr hinsawdd economaidd lem sydd ohoni.

**Newidiadau mewn ffordd o fyw sy'n gysylltiedig ag oedran**

Caiff y gofynion o sicrhau gofal iechyd priodol i'r boblogaeth hŷn eu cymhlethu ymhellach gan y math o newidiadau i ffordd o fyw sy'n gysylltiedig â heneiddio. Er gwaethaf yr holl dystiolaeth am les ymarfer corff – ansawdd bywyd gwell, llai o siawns o ddatblygu iselder ysbryd a chlefyd y galon, cyhyrau cryfach a chymalau ystwythach (Aoyagi, Park, Park, et al., 2010; Barreto, 2009; Barbour, Edenfield, a Blumenthal, 2007) – gwelir gostyngiad cynyddol yng ngweithgaredd corfforol yr unigolyn wrth iddo fynd yn hŷn. Mae llawer o bobl hŷn yn ystyried oedran a/neu iechyd gwael yn rhwystr i gadw'n heini (Whaley ac Ebbeck, 2002; Wurm, Tomasik, a Tesch-Römer, 2010). Wrth edrych ar unigolion sy'n dioddef am eu bod wedi cwympo, mae'r broblem yn waeth oherwydd yr effeithiau seicolegol sydd ynghlwm wrth hynny – ofn cwympo drachefn, diffyg hyder a'r tueddiad i osgoi rhai gweithgareddau – sydd yn eu tro yn creu rhwystrau pellach i gadw'n heini (gweler Jorstad, Hauer, Becker, et al., 2005). Hyd yn oed yn achos yr henoed nad ydynt wedi cwympo'n flaenorol, gall yr ofn o gwympo arwain at ostyngiad yn eu gweithgaredd corfforol (Bruce, Devine, a Prince, 2002).

Wrth i lefelau o weithgaredd corfforol leihau gydag oedran, ceir gostyngiad cyfatebol yng nghyfanswm y cyfnodau a dreulia'r boblogaeth hŷn yn yr awyr agored (Janssen, Samson, a Verhaar, 2002), sydd yn ei dro yn dylanwadu ar gyfleoedd yr henoed i amlygu'r croen i'r haul. Gan mai synthesis trwy'r croen yw prif ffynhonell fitamin D, ceir perygl i'r boblogaeth hŷn ddioddef diffyg ohono. Rhaid cofio nad y boblogaeth hŷn yn unig a effeithir gan ddiffyg fitamin D. Mae diffyg fitamin D yn epidemig byd-eang gyda 50 y cant o'r boblogaeth mewn perygl (Prentice, 2008). Daw'r henoed wyneb yn wyneb â pheryglon ychwanegol o ganlyniad i newidiadau yn eu harferion bwyta, ynghyd â gostyngiad yn eu gallu i syntheseisio fitamin D yn y croen (Janssen, et al., 2002). Wrth ystyried y ffactorau hyn yn eu crynswth, mae'n amlwg bod canlyniadau difrifol yn wynebu'r boblogaeth hŷn. Canolbwyntia'r adroddiad hwn ar ddau o'r problemau iechyd mwyaf a gysylltir â diffyg fitamin D, sef DM2 (*diabetes mellitus math 2*) ac achosion o gwympo ymhlith y boblogaeth oedrannus; problemau iechyd difrifol sy'n wynebu Cymru heddiw.

**Canlyniadau newydd ffordd o fyw: achosion o gwympo**

Cydnabuwyd ers amser bod cwympo ymysg y boblogaeth hŷn yn bryder sylweddol yng nghyd-destun iechyd cyhoeddus, yn sgil y nifer uchel o farwolaethau a'r costau uchel wrth drin cleifion o fewn y GIG (e.e., Masud a Morris, 2001). Amcangyfrifir y bydd 1 allan o bob 3 oedolyn dros 65 oed yn cwympo bob blwyddyn (Hausdorff, Rios, a Edelber, 2001), a chwympo yw'r prif reswm dros farwolaethau, anafiadau ac ymweliadau ag ysbytai o ganlyniad i drawma ymysg y boblogaeth dros 65 oed (Hornbrook, et al., 1994). Yn ategol at gostau triniaeth gychwynnol, gall costau hirdymor gofal ar ôl cwympo fod yn ddrud. Mae cwympo yn ffactor allweddol ym 40 y cant o'r achosion sy'n arwain at ofal hirdymor mewn oedolion hŷn (Kennedy a Coppard, 1987). Wrth ystyried ffactorau risg (y gellir eu rheoli), mae metadadansoddiadau wedi cadarnhau pwysigrwydd y

ffactorau hynny sy'n deillio o ddiffyg gweithgaredd corfforol, gan gynnwys gwendid cyhyrol, diffygion cydbwysedd ac osgo a chyfyngiadau symudedd (e.e., Sturnieks, et al., 2004). Mae tystoliaeth epidemiolegol yn tanlinellu cyfraniad gweithgaredd corfforol cyson at leihau'r tueddiad o gwympo, ac o ganlyniad yn lleihau problemau iechyd. Mae astudiaethau wedi awgrymu lleihad o 20-40 y cant yn y risg o dorri asgwrn y glun wrth gwympo yn achos unigolion sy'n ymarfer y corff o'i gymharu â'r risg yn achos y rheiny sy'n treulio mwy o amser ar eu heistedd (Gregg, Pereira, a Caspersen, 2000).

Fel y gellir gweld, mae diffyg gweithgaredd corfforol yn arwain at gynnydd yn yr achosion o gwympo ymysg yr henoed, ac yn yr un modd, mae diffyg fitamin D yn gyfeirydd arwyddocaol wrth ragweld cynnydd yn y perygl o gwympo (O'Donnell, et al., 2008). Ceir tystiolaeth hefyd bod cysylltiad rhwng diffyg fitamin D a gweithrediadau niwrogyhyrol gwael, yn ogystal â chydbwysedd osgo a deinamig (Boersma, et al., 2012). Mae newidiadau i symudiad, problemau wrth godi o'r gadair a phoenau cyhyrol yn symptomau sy'n nodweddu diffyg fitamin D (Pfeifer, et al., 2002). Mae canlyniadau nifer o astudiaethau epidemiolegol wedi dangos bod gan unigolion a chanddynt weithrediadau (*functions*) cyhyrol da (cryfder a maint) ddeiet cytbwys a ffordd o fyw sy'n arwain at lefel uchel o fitamin D (25(OH)D) (Pfeifer, et al., 2002; Visser, Deeg a Lips, 2003; Bischoff-Ferrari, et al., 2004). Yng nghyd-destun pwysigrwydd fitamin D, er na fesurwyd lefelau yn uniongyrchol, adnabu Faulkner, et al. (2009) risg annibynnol ar wahân i ffactorau risg corfforol, yn deillio o beidio â threulio amser digonol yn yr awyr agored. Yn ogystal â chynyddu'r risg o gwympo (O'Donnell, et al., 2008), gellir gweld y cynnydd yn yr achosion o dorri esgyrn wrth gwympo yn y rhai sydd â lefelau annigonol o fitamin D (Nakamura, et al, 2010; Schoor, et al., 2008) gan fod fitamin D yn rheolydd allweddol mewn metaboledd esgyrn, gyda diffyg ynddo'n arwain at ostyngiad yng ngynhwysedd yr esgyrn (Lips, 2001).

**Canlyniadau newid ffordd o fyw er mwyn gwella iechyd: clefyd siwgr**

Mae achosion o glefyd siwgr yn cynyddu ar draws y byd. Yn ôl yr amcangyfrifon, dioddefai 130 miliwn o'r cyflwr ym 1995, a disgwylir y bydd y cyfanswm yn codi i hyd at 300 miliwn erbyn 2025 (Pierce, 1999). DM2 yw 90-95 y cant o'r holl achosion o glefyd siwgr (Albright, et al., 2000), felly mae'r clefyd metabolig hwn ar fin datblygu i fod yn un o'r epidemigion mwyaf yn hanes y ddynolryw (Zimmet, et al., 2003). Yn y Deyrnas Unedig, adwaenir achos o DM2 bob tair munud (Diabetes UK, 2008). Er rhaid cydnabod pwysigrwydd ffactorau genetig, amcangyfrifir bod 9 allan o bob 10 achos o DM2 yn deillio o ddewisiadau ffordd o fyw, yn enwedig deiet a diffyg ymarfer corff (Hu, et al., 2001).

Mae lefelau isel o weithgaredd corfforol, llai o amser yn yr awyr agored, gordewdra, deiet annigonol a henaint oll yn ffactorau risg mewn perthynas â DM2 a phroblemau sy'n gysylltiedig â diffyg fitamin D (Liviu, 2009). Erbyn hyn, cyhoeddwyd canlyniadau i ymchwil estynedig sy'n profi'r berthynas rhwng fitamin D a pathogenesis DM2 (Alfonso, et al., 2009). Dengys astudiaethau croesdoriadol gysylltiadau gwrthdroadol rhwng prif fesur fitamin D (crynodiad 25(OH)D) a phresenoldeb DM2 neu fesuriadau glycemig mewn amrywiaeth o wahanol boblogaethau (Baynes, Boucher, Feskens, et al., 1997; Chiu, et al., 2004; Forouhi, et al., 2008; Ford, et al., 2005; Hyppönen a Power, 2006; Need,

O'Loughlin, et al., 2005; Scragg, et al., 2004). Adroddodd y *National Health and Nutrition Survey (NHANES)* fod crynodiadau serwm 25(OH)D ar ôl newidiadau amlamrywiaethol yn dangos cysylltiadau gwrthdroadol yn nifer yr achosion o DM2 mewn rhannau o'r boblogaeth Americanaidd (Ford, et al., 2005; Scragg, et al. 2004). Mewn astudiaeth dros gyfnod o ddwy flynedd ar hugain, adroddwyd bod crynodiadau uwch o 25(OH)D gan ddynion na'r hyn sydd gan ferched, gyda'r dynion a oedd â'r crynodiad uchaf o fitamin D (yn y chwarter uchaf) yn dangos gostyngiad o 72 y cant yn eu tebygolrwydd o ddatblygu DM2 (Knekt, et al., 2008).

Wrth droi at weithgaredd corfforol, dengys ymchwil epidemiolegol fod unigolion sy'n cadw'n heini yn llai tebygol o ddatblygu clefyd siwgr (30-50 y cant yn llai tebygol) na'r boblogaeth sy'n treulio mwy o amser ar ei heistedd (Bassuk a Manson, 2005). Dengys cefnogaeth empeiraidd fod gweithgaredd corfforol cymedrol am gyn lleied â 30 munud y dydd yn amddiffyn y corff rhag DM2 (Hu, et al., 2003; Kriska, 2000). Er enghraifft, dangosodd astudiaeth 6.9 mlynedd ar ôl y *Womens Health Survey* fod cerdded yn sionc am o leiaf 3–4 awr yr wythnos yn lleihau'r risg o ddatblygu clefyd siwgr o tua 34 y cant (Weinstein, et al., 2004). Dilynodd yr *Iowa Women's Health Study* (Folsom, et al., 2000) dros 34,000 o ferched rhwng 55-69 oed am 12 mlynedd, rhai ohonynt yn dilyn patrwm o gerdded o leiaf unwaith yr wythnos, rhai 2-4 gwaith yr wythnos a rhai dros 4 gwaith yr wythnos. Dangoswyd bod y grwpiau 10, 14 a 27 y cant yn llai tebygol o ddatblygu DM2 o'i gymharu â merched nad oeddent yn cerdded yn rheolaidd. At hynny, cysylltir DM2 â chynnydd yn y risg o ddatblygu clefyd cardiofasgwlaidd a chyfradd marwolaethau, ond arweinia ymarfer corff rheolaidd at ostwng lefelau'r ddau ohonynt (Weinstein, et al., 2004).

**Lleihau'r risg o gwympo: ymyriadau cyfredol**

Mae nifer o ymyriadau ar gael a gynlluniwyd i leihau'r achosion o gwympo ymysg unigolion nad ydynt wedi cwympo'n flaenorol, pobl sydd mewn perygl o gwympo ynghyd â'r rhai sydd wedi cwympo o'r blaen. Mae ymyriadau sy'n targedu lefelau fitamin D wedi dangos canlyniadau cadarnhaol, gan leihau nid yn unig yr achosion o gwympo ond hefyd y ffactorau risg sy'n gysylltiedig ag ef. Er enghraifft, darganfu Pfiefr, et al. (2002) fod cymryd fitamin D ychwanegol (800 Unedau Rhyngwladol (IU)·dydd$^{-1}$) ynghyd â chalsiwm (1200 mg·dydd$^{-1}$) o gymharu â'r un lefel o galsiwm yn unig (1200 mg·dydd$^{-1}$) yn creu gostyngiad o 9 y cant ($p = 0.0435$) yn symudiad annisgwyl y corff. Codwyd cyfartaledd y crynodiad 25(OH)D yn y grŵp fitamin D o 25.7 ± 13.6 nmol·L$^{-1}$ i 40.5 ± 27.0 nmol·L$^{-1}$ nmol/l (Pfeifer, et al., 2000). Adroddodd astudiaeth hapreoli arall fod gostyngiad o 49 y cant i'r risg o gwympo mewn gwragedd hŷn ar ôl cymryd atchwanegiad fitamin D (800 IU·dydd$^{-1}$) a chalsiwm (1200 mg·dydd$^{-1}$) o gymharu â'r un lefel o galsiwm yn unig (1200 mg·dydd$^{-1}$) (Bischoff, et al., 2003).

Cytunir yn gyffredinol y gallai oedolion hŷn sy'n debygol o gwympo neu sydd wedi cwympo'n flaenorol elwa o ymarfer corff ac ymyriadau cynnar yn y maes hwn, gan wella'u ffactorau ffisiolegol, statws gweithrediadol (*functional status*) a iechyd seicolegol (Barreto, 2009). Ceir tystoliaeth helaeth bod ystod eang o raglenni ymarfer corff yn arwain at wella iechyd a lleihau'r risg o gwympo ymysg yr henoed (Faber, et al., 2006; Heyn, et al., 2004). Er mwyn cyfleu pwysigrwydd ymyriadau cynnar, cyflwynodd Barnett

et al. (2003) ystadegau a ddangosai ostyngiad o 40 y cant yn yr achosion o gwympo o fewn y grŵp dros 65 oed a gafodd brofiad o ymyriadau (n = 67) gweithgaredd corfforol o'i gymharu â grŵp na dderbyniodd unrhyw ymyriadau (n = 70; IRR=0.60, 95 y cant CI=0.36-0.99). Adnabu metaddadansoddiad diweddar o 44 prawf, gyda 9,603 o bobl yn cymryd rhan, y gellid priodoli gostyngiad (17%) i raglenni ymarfer corff (IRR = 0.83, 95 y cant CI = 0.75-0.91) (Sherrington, et al., 2008).

Mae gwaith diweddar wedi profi y gellir cyflwyno rhaglenni fel hyn mewn cymunedau gwledig yng Nghymru. Er enghraifft, astudiodd Hudson, Oliver, Thomas a Higgs (2012) newidiadau mewn carfan o oedolion hŷn ar gwrs 32 wythnos yn y gymuned i wella sefydlogrwydd osgo. Adnabuwyd yr unigolion fel rhai a oedd yn debygol o gwympo neu wedi cwympo'n flaenorol. Rhaglen ar y cyd oedd hon rhwng yr Ymddiriedolaeth Iechyd Lleol, y Cyngor Sir a'r Cynllun Ymarfer Corff Ymgynghorol Cenedlaethol, gyda phwyslais ar wersi yn y gymuned ac ymarferion corff yn y cartref. Cefnoga'r data effaith y rhaglen ar alluoedd gweithrediadol y cleifion, gyda gwelliannau arwyddocaol yn y weithred 'eistedd i sefyll' ($M_{wythnos(wy)1}$ = 26.36, $M_{wy32}$ = 16.22, $p < .001$, Δ% 38.46) a phrofion 'codi a symud' wedi'u hamseru ($M_{wy1}$ = 15.89, $M_{wy32}$ = 12.02, $p < .005$, Δ% 24.35). Yn ychwanegol at y gwelliannau hyn, cynyddodd hyder yr unigolion yn eu cydbwysedd ($M_{wy1}$ = 18.46, $M_{wy32}$ = 15.83, $p < .005$, Δ% 14.24), gydag arwyddocâd pendant yn y gwellhad a welwyd yn eu gallu i osgoi cwympo ($M_{wy1}$ = 13.33, $M_{wy32}$ = 10.84, $p = .068$, Δ% 18.68). Dangosodd amrywiaethau gweithrediadol a seicolegol perthnasol eraill (e.e. prawf troi 180 gradd, ymchwil gweithrediadol a ffordd o fyw) rai gwelliannau bach na ellid eu hystyried yn arwyddocaol. O ran y garfan hon, tanlinellodd data ansoddol a gasglwyd o nifer o gyfweliadau newidiadau hirdymor mewn agweddau cyffredinol at ymarfer corff, ynghyd â chynnydd mewn hunanhyder a hunan-barch. Yn ddiddorol, gwelwyd bod pobl yn fwy bodlon â'r ddarpariaeth gymdeithasol a gynigiwyd iddynt, a gwelwyd gwellhad yn eu hymrwymiad i'r dosbarth. Ar ddiwedd y rhaglen 32 wythnos, gwelwyd tystoliaeth gref bod galluoedd gweithrediadol a chyfeiryddion seigolegol a iechyd wedi gwella'n sylweddol.

**Brwydr yn erbyn clefyd siwgr: ymyriadau cyfredol**

Bwriedir cyflwyno Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Diabetes erbyn diwedd 2013. Bydd y ddogfen yn rhoi sylw i fynediad at addysg strwythuredig i gleifion sy'n dioddef o DM2, ynghyd â phwyslais ar newid ffordd o fyw. Mae ariannu pecynnau fel hyn, serch hynny, yn her i'r Gwasanaeth Iechyd, gyda chanran fach yn unig o gleifion yn llwyddo i gael mynediad at wasanaethau o'r fath. Mae hyn yn wir er gwaetha'r ffaith y ceir tystoliaeth helaeth a chadarn sy'n profi effeithlonrwydd ymyriadau i berson sy'n dioddef symptomau difrifol clefyd siwgr. Er enghraifft, sylwodd Pan et al. (1997) ar ostyngiad sylweddol yn DM2 ar hyd yr arbrawf effeithiau cerdded dros gyfnod o chwe blynedd. Ceir nifer o astudiaethau eraill sy'n rhoi sylw i ar sut y gall ymarfer corff ysgafn i gymedrol ostwng lefelau siwgr yng ngwaed cleifion sy'n dioddef o DM2 (Albright, et al., 2000). Trafoda Larsen et al. (1997) yr un math o ostyngiadau plasma glwcos ac inswlin sy'n digwydd gydag ymarferion corff dwysedd uchel ysbeidiol ynghyd ag ymarferion corff cymedrol ar ôl bwyta, gyda'r gwariant egni'r ddau fath o ymarfer yn cyfateb i'w gilydd. Credir y digwydd y mwyafrif o welliannau mewn rheoli glwcos a gwrthsafiad inswlin fel adwaith i ymarfer corff o ganlyniad i'r gostyngiad yn lefelau siwgr y gwaed a lleihad yng

ngwrthsafiad yr inswlin, a ddeillia o bob sesiwn ymarfer corff unigol (Kelly a Goodpaster, 1999). O'r herwydd, mae'n hanfodol i unigolion fynd ati i ymarfer y corff drwy gydol eu bywydau.

Ynghyd â chynyddu lefelau ymarfer corff a newidiadau ehangach i ddeiet (fel rheoli carbohydradau), mae ymchwil yn cydnabod swyddogaeth atchwanegiad fitamin D o rwystro a rheoli DM2. Adroddodd astudiaeth ddiweddar gan Nikooyeh et al. (2011) fod ychwanegu fitamin D at ddiod iogwrt yn gwella statws glwcos gwaed unigolion sydd â DM2. Gwelwyd perthynas wrthdroadol rhwng newidiadau yn serwm 25(OH)D a glwcos plasma ymprydiol ($r = -0.208$, $p = 0.049$), a rhwng serwm 25(OH)D a gwrthsafiad inswlin ($r = -0.219$, $p = 0.005$) (amcangyfrifwyd yn ôl yr *HOMA*).

Gwelwyd gwelliannau sylweddol hefyd mewn sensitifrwydd inswlin ac adwaith inswlin ar ôl ymprydio wrth ychwanegu atchwanegiadau fitamin D (4000 IU bob dydd) at ddeiet unigolion o gymharu â'r grŵp plasebo. Ceir data diweddar, na chyhoeddwyd hyd yma (Curtis, Thatcher, Rice, et al., 2012), sy'n dangos amrywiaethau tymhorol yn y lefelau fitamin D mewn unigolion (oed 59.0±11.4), gyda rheolaeth glwcos gwaed anarferol ym mhoblogaeth Gorllewin Cymru yn achosi i'r Fitamin D gyrraedd lefelau digonol yn dilyn haf heulog (25(OH)$D_3$ 42.6 ± 23.8 nmol·$L^{-1}$), ond gwelwyd lefelau crynodiad fitamin D annigonol yn ystod y gaeaf (25(OH)$D_3$ 71.3 ± 23.8 nmol·$L^{-1}$). Sylwyd ar y berthynas rhwng crynodiadau fitamin D a gwerthoedd glwcos ($r_{s(99)}$=-0.224, p=0.02), sy'n tanlinellu pwysigrwydd cynnal lefelau optimaidd o fitamin D o safbwynt risg DM2. Mae darganfyddiadau fel hyn wedi atgyfnerthu'r galwadau am atchwanegiadau fitamin D fel ymyriad dichonadwy wrth reoli clefyd siwgr.

**Ystyriaethau ac argymhellion wrth ddarparu gwasanaethau'r dyfodol i Gymru**

Er gwaethaf budd amlwg ymyriadau ymarfer corff a fitamin D wrth frwydro yn erbyn achosion o gwympo a DM2, cododd nifer o faterion i'w hystyried wrth feddwl am eu defnydd yng nghymunedau cefn gwlad Cymru. O ran gweithgareddau corfforol, mae newidiadau demograffig yn y boblogaeth wedi arwain at ostyngiad yn y ddarpariaeth o wasanaethau hamdden a chwaraeon mewn rhai ardaloedd (Hartwell, et al., 2007). Gall hyn arwain at broblemau mynediad at raglenni ffurfiol a gweithredoedd hamdden anffurfiol i'r henoed, problem sy'n cael ei gwaethygu gan broblemau cludiant. Mae'n bosibl y byddai angen i raglenni pellach, cost effeithiol, gael eu darparu'n ganolog, a fydd yn cael effaith negyddol ar unigolion llai heini. Tanlinellodd Hudson et al. (2012) fuddion posibl o ymgyfuno rhaglenni gofal iechyd a gweithgareddau hamdden, gyda'r garfan a astudiwyd yn dangos ymlyniad cryf i weithgareddau ac ymateb cadarnhaol i weithgareddau dilynol. Ar y llaw arall, gellid ystyried datblygu technolegau tele-ofal a thele-iechyd er mwyn cyflwyno rhaglenni gofal, gan gynnwys monitro a chynhaliaeth yn y cartref (er na cheir tystiolaeth ar hyn o bryd o'u heffeithlonrwydd). Mae sicrhau mynediad digonol at wasanaethau iechyd a hamdden neu ofal ehangach (hwyrach drwy elusennau neu wirfoddolwyr) yn ystyriaeth hollbwysig wrth gynllunio at y dyfodol mewn ardaloedd gwledig.

Gan fod yr holl dystiolaeth sydd ar gael yn pwysleisio pwysigrwydd fitamin D, ceir dadl gref dros dargedu hyrwyddo ymarfer corff yn yr awyr agored. Er bod rhwystrau i drefnu

gweithgareddau corfforol mewn ardaloedd gwledig (gweler uchod), awgrymodd arolygon yr hoffai'r boblogaeth wledig gymryd rhan mewn ymarferion corff lefel isel i gymedrol, fel cerdded yn yr awyr agored (e.e., Rogers, et al., 2009). Cynigir felly y dylid hyrwyddo ardaloedd gwledig fel hwylusydd yn hytrach na rhwystr. Gallai rhaglenni rhwystro cwympo cyfredol ehangu ystod eu gweithgareddau, drwy ymestyn yn raddol o weithgareddau dan do at weithgareddau awyr agored. Gellir datblygu ymrwymiad i'r ardaloedd gwledig drwy ddatblygu partneriaethau gyda chyrff perthnasol fel y Comisiwn Coedwigaeth. Yn ystod misoedd y gaeaf, byddai ychwanegu atchwanegiad fitamin D at ddeiet yr oedrannus yn gymorth i osgoi gostyngiad sylweddol yn eu lefelau fitamin D, gan arwain at sgil-effeithiau buddiol ar hyd ystod o gydrannau iechyd (er nad yw'r cynnig hwn wedi ei lawn ddadansoddi'n arbrofol eto).

I grynhoi, dadleuir bod poblogaeth hŷn cefn gwlad Cymru yn gwneud lefel isel o weithgaredd corfforol yn ogystal â threulio llai o amser yn yr awyr agored a'r haul, sy'n arwain at ostyngiad yn y fitamin D a syntheseisir yn ategol at ganlyniadau iechyd difrifol. Arweinia hyn oll at broblemau iechyd, gan gynnwys cwympo, gordewdra a DM2. Dengys yr ymchwil a adolygwyd yma bod modd gwneud addasiadau syml i ffordd o fyw er mwyn atal a rheoli cwympo a DM2, materion sy'n codi pryderon cymdeithasol ac economaidd yng Nghymru. Ar hyn o bryd mae ymyriadau (o ran deiet ac ymarfer corff) yn digwydd mewn ymateb i broblemau iechyd. Awgrymir y dylid cyflwyno ymyriadau cynnar a seiliwyd ar dystiolaeth i rwystro problemau rhag datblygu yn hytrach na'u cyflwyno fel ymateb i salwch a phroblemau a ddaw yn sgil cwympo.

**Llyfryddiaeth**


Albright, A., Franz, M., Hornsby, G., et al. (2000), 'Exercise and type 2 diabetes', *American College of Sports Medicine*, 15, 1345-59.

Alfonso, B., Liao, E., Busta, A., et al. (2009), 'Vitamin D in diabetes mellitus – a new field of knowledge poised for Development', *Diabetes/metabolism*, 25, 417-19.

Aoyagi, Y., Park, H., Park, S., et al. (2010), 'Habitual physical activity and health-related quality of life in older adults: interactions between the amount and intensity of activity (the Nakanojo Study)', *Quality of life research: An international journal of quality of life aspects of treatment, care and rehabilitation*, 19, 3338.

Barbour, K. A., Edenfield, T. M., a Blumenthal, J. A. (2007), 'Exercise as a treatment for depression and other psychiatric disorders: A review', *Journal of Cardiopulmonary Rehabilitation and Prevention*, 27, 359-67.

Barnett, A., Smith, B., Lord, S. R., et al. (2003), 'Community based group exercise improves balance and reduces falls in at risk older people: A randomised control trial', *Age and Ageing*, 32, 407-14.

Barreto P. S. (2009), 'Exercise and health in frail elderly people: A review of randomized controlled trials', *European Review of Ageing and Physical Activity*, 6, 75-87.

Bassuk, S. S., a Manson, J. E. (2005), 'Epidemiological evidence for the role of physical activity in reducing risk of type 2 diabetes and cardiovascular disease', *Journal of Applied Physiology*, 99, 1093-104.

Baynes, K. C., Boucher, B. J., Feskens, E. J., et al. (1997), 'Vitamin D, glucose tolerance and insulinaemia in elderly men', *Diabetologia*, 40, 344-7.

Bischoff, H. A., Stahelin, H. B., Dick, W., et al. (2003), 'Effects of vitamin D and calcium supplementation on falls: A randomized controlled trial', *Journal of Bone and Mineral Research*, 18, 343-51.

Bischoff-Ferrari, H. A., Dawson-Hughes, B., Willett, W. C., et al. (2004), 'Effect of Vitamin D on falls: a meta-analysis', *JAMA: the Journal of the American Medical Association*, 291, 1999-2006.

Boersma, D., Demontiero, O., Mohtasham Amiri, Z., et al. (2012), 'Vitamin D status in relation to postural stability in the elderly', *The Journal of Nutrition, Health and Aging*, 16, 1-6.

Bruce, D., Devine, A., a Prince, R. (2002), 'Recreational physical activity levels in healthy older women; the importance of fear of falling', *Journal of the American Geriatrics Society*, 50, 80-9.

Chiu, K. C., Chu, A., Go, V. W. V., et al. (2004), 'Hypovitaminosis D is associated with insulin resistance and beta cell dysfunction', *The American Journal of Clinical Nutrition*, 79, 820-5.

Curtis, F., Thatcher, R., Rice, S., et al. (i'w chyhoeddi), 'Seasonal variation in vitamin D in a rural Welsh population'.

Faber, M. J., Bosscher, R. J., Chin, A., et al. (2006), 'Effects of exercise programs on falls and mobility in frail and pre-frail older adults: A multicenter randomized controlled trial', *Arch Phys Med Rehabil*, 87, 885-96.

Faulkner, K. A., Cauley, J. A., Studenski, S. A., et al. (2009), 'Lifestyle predicts falls independent of physical risk factors', *Osteoporosis International*, 20, 2025-34.

Ford, E. S., Ajani, U. A., McGuire, L. C., et al. (2005), 'Concentrations of serum vitamin D and the metabolic syndrome among US adults', *Diabetes Care*, 28, 1228-30.

Forouhi, N. G., Luan, J., Cooper, A., et al. (2008), 'Baseline Serum 25 – Hydroxy Vitamin D is Predictive of Future Glycemic Status and Insulin Resistance', *Diabetes*, 57, 2619-25.

Gregg, E. W., Pereira, M. A., a Caspersen C.J. (2000), 'Physical activity, falls, and fractures among older adults: A review of the epidemiologic evidence', *Journal of the American Geriatrics Society*, 48, 883-93.

Hartwell, S., Kitchen, L. C., Milbourne, P., et al. (2007), *Population change in rural Wales: social and cultural impacts* (adroddiad prosiect), http://www.walesruralobservatory.org.uk/reports/english/MigrationReport_Final (Cyrchwyd:13 Rhagfyr 2012).

Hausdorff, J. M., Rios, D. A., ac Edelber, H. K. (2001), 'Gait variability and fall risk in Community-living older adults: A 1-year prospective study', *Archives of Physical Medicine and Rehabilitation*, 82, 1050-6.

Heyn, P., Abreu, B. C., ac Ottenbacher, K. J. (2004), 'The effects of exercise training on elderly persons with cognitive impairment and dementia: A meta-analysis', *Archives of Physical Medicine and Rehabilitation*, 85, 1694-704.

Hornbrook, M. C., Stevens, V. J., Wingfield, D. J., et al. (1994), 'Preventing falls among community-dwelling older persons: Results from a randomized trial', *Gerontologist*, 34, 16-23.

Hu, F. B., van Dam, R. M., a Liu, S. (2001), 'Diet and risk of Type II diabetes: the role of types of fat and carbohydrate', *Diabetologia*, 44, 805-17.

Hu, G., Qiao, Q., Silventoinen, K., et al. (2003), 'Occupational, commuting, and leisure time physical activity in relation to risk for type 2 diabetes in middle age Finnish men and women', *Diabetologia*, 46, 322-9.

Hudson, J., Oliver, E. J., Thomas, L., et al. (2012), *Functional and Psychological Changes during a Community-based 32-week Postural Stability Training Programme: Recommendations for Future Practice*, http://www.aber.ac.uk/en/media/Tywyn-Report_Master.pdf (Cyrchwyd:10 Rhagfyr 2012).

Hyppönen, E., a Power, C. (2006), 'Vitamin D status and glucose homeostasis in the 1958 British birth cohort: The role of obesity', *Diabetes Care*, 29, 2244-6.

Janssen, C. J. P., Samson, M. M., a Verhaar, H. H. H. (2002), 'Vitamin D deficiency, muscle function, and falls in elderly people', *American Journal of Clinical Nutrition*, 75, 611-15.

Jorstad, E. C., Hauer, K., Becker, C., et al. (2005), 'Measuring the psychological outcomes of falling: a systematic review', *Journal of the American Geriatrics Society*, 53, 501-10.

Kelly, D. E., a Goodpaster, B. H. (1999), 'Effects of physical activity on insulin action and glucose tolerance in obesity', *Medicine and Science in Sports and Exercise*, 31, 619-23.

Kennedy, T. E., a Coppard, L. C. (1987), 'The prevention of falls in later life', *Danish Medical Bulletin*, 34, 1-24.

Knekt, P., Laaksonen, M., Mattila, C., et al. (2008), 'Serum Vitamin D and Subsequent Occurrence of Type 2 Diabetes', *Epidemiology*, 19, 666-71.

Kriska, A. (2000), 'Physical activity and the prevention of type 2 diabetes mellitus', *Journal of Sports Medicine*, 29, 147-51.

Larsen, J. J. S., Dela, F., Kjaer, M., et al. (1997), 'The effect of moderate exercise on postprandial glucose homeostasis in NIDDM patients', *Diabetologia*, 40, 447-53.

Lips, P. (2001), 'Vitamin D deficiency and secondary hyperparathyroidism in the elderly: concequnces for bone loss and fractures and theraputic implications', *Endocrine Reviews*, 2, 477-501.

Masud, T., a Morris, R. O. (2001), 'Epidemiology of Falls', *Age and Ageing*, 30, 3-7.

Nakamura, K., Saito, T., Oyama, M., et al. (2010), 'Vitamin D sufficiency is associated with low incidence of limb and vertebral fractures in community-dwelling elderly Japanese women: The muramastsu study', *Osteoporosis International*, 22, 97-103.

National Assembly Research Service (2011), *Key Issues for the Fourth Assembly,* http://www.assemblywales.org/11-026 (Cyrchwyd: 10 Rhagfyr 2012).

Need, A. G., O'Loughlin, P. D., Horowitz, M., et al. (2005), 'Relationship between fasting serum glucose, age, body mass index and serum 25 hydroxyvitamin D in postmenopausal women', *Clinical endocrinology*, 62, 738-41.

Nikooyeh, B., Neyestani, T. R., Farvid, M., et al. (2011), 'No Daily consumption of vitamin D – or vitamin D + calcium-fortified yogurt drink improved glycemic control in patients with type 2 diabetes: a randomized clinical trial', *The American Journal of Clinical Nutrition*, 93, 764-71.

O'Donnell, S., Moher, D., Thomas, K., et al. (2008), 'Systematic review of the benefits and harms of calcitriol and alfacalcidol for fractures and falls', *Journal of Bone Mineral Metabolism*, 26, 531-42.

Pan, X. R., Li, G. W., Hu, Y. H., et al. (1997), 'Effects of diet and exercise in preventing NIDDM in people with impaired glucose tolerance. The Da Quing IGT and diabetes study', *Diabetes Care*, 20, 537-44.

Pfeifer, M., Begerow, B., Minne, H. W., et al. (2002), 'Effects of a short-term vitamin D and calcium supplementation on body sway and secondary hyperparathyroidism in elderly women', *Journal of Bone and Mineral Research*, 15, 1113-18.

Pfeifer, M., Begerow, B., a Minne, H. W. (2002), 'Vitamin D and Muscle Function', *Osteoporosis*, 3, 187-94.

Pierce, N. S. (1999), 'Diabetes and exercise', *British Journal of Sports Medicine*, 33, 161-72.

Prentice, A. (2008), 'Vitamin D deficiency: A global perspective', *Nutrition Review*, 66, S153-64.

Rogers, L. Q., Markwell, S. J., Verhulst, S., et al. (2009), 'Rural breast cancer survivors: Exercise preferences and their determinants', *Psycho-Oncology*, 18, 412-21.

Schoor, N. M., Visser, M., Pluijm, S. M. F., et al. (2008), 'Vitamin D deficiency as a risk factor for osteoporotic fractures', *Bone*, 42, 260-6.

Scragg, R., Sowers, M. F., a Bell, C. (2004), 'Serum Hydroxyvitamin D, Diabetes and Ethnicity in the Third National Health and Nutrition Examination', *Diabetes Care*, 27, 1171-7.

Sherrington, C., Whitney, J. C., Lord, S. R., et al. (2008), 'Effective exercise for the prevention of falls: a systematic review and meta-analysis', *Journal of the American Geriatrics Society*, 56, 2234-43.

Stockdale, A. (2004), 'Rural Out-migration: Community Consequences and Individual Migrant Experiences', *Sociologia Ruralis*, 44, 167-94.

Sturnieks, D. L., Finch, C. F., Close, J. C. T., et al. (2004), 'Exercise for falls prevention in older people: Assessing the knowledge of exercise science students', *Journal of Science and Medicine in Sport*, 13, 59-64.

United Nations Population Fund (2012), *Ageing in the Twenty-First Century: A celebration and a challenge*, https://www.unfpa.org/public/home/publications/pid/ (Cyrchwyd: 7 Rhagfyr 2012).

Visser, M., Deeg, D. J. H., a Lips, P. (2003), 'Low vitamin D status and high parathyroid hormone levels as determinants of loss of muscle strength and muscle mass (sarcopenia): The longitudinal aging study Amsterdam', *Journal of Clinical Endocrinology*, 88, 5766-72.

Von Hurst, P. R., Stonehouse, W., Matthys, C., et al. (2008), 'Study protocol-metabolic syndrome, vitamin D and bone status in South Asian women living in Auckland, New Zealand: a randomised, placebo-controlled, double-blind vitamin D intervention', *BMC Public Health*, 8, 267.

Wei, M., Gibbons, L. W., Kampert, B. J., Nichaman, M. Z., et al. (2000), 'Low cardiorespiratory fitness and physical inactivity as predictors of mortality in men with type 2 diabetes', *Annals of Internal Medicine*, 132, 605-11.

Weinstein, A. R., Sesso, H. D., Lee, I. M., et al. (2004), 'Relationship of physical activity vs body mass index with type 2 diabetes in women', *JAMA: the Journal of the American Medical Association*, 292, 1188-94.

Whaley, D. E., ac Ebbeck, V. (2002), 'Self-schemata and exercise identity in older adults', *Journal of Ageing and Physical Activity*, 10, 245-59.

Wurm, S., Tomasik, M. J., a Tesch-Römer, C. (2010), 'On the importance of a positive view on ageing for physical exercise among middle-aged and older adults: Cross-sectional and longitudinal findings', *Psychology and Health*, 25, 25-42.

Zimmet, P., Shaw, J., ac Albertit, G. M. M. (2003), 'Preventing type 2 diabetes and the dysmetabolic syndrome in the real world: A realistic view', *Diabetic Medicine*, 20, 693-702.

Osian Rees a Huw Pritchard

# Gwersi o Ogledd Iwerddon: Awdurdodaeth Gymreig a Dyfodol Addysg Gyfreithiol yng Nghymru

Gwerddon
CYFNODOLYN ACADEMAIDD CYMRAEG
Golygydd **Yr Athro Ioan Williams**

# Gwersi o Ogledd Iwerddon: Awdurdodaeth Gymreig a Dyfodol Addysg Gyfreithiol yng Nghymru

*Osian Rees a Huw Pritchard*

## Cyflwyniad

Ers sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, bu twf rhyfeddol mewn datganoli yng Nghymru. Fe'i cyfyngwyd yn y man cyntaf i gynhyrchu deddfwriaeth eilaidd, ond erbyn hyn rhoddir rhyddid i'r Cynulliad basio ei ddeddfau ei hun,[1] ac amcangyfrifwyd ei fod yn gymwys i ailddeddfu neu gyfundrefnu tua traean o'r holl gyfreithiau statud domestig y rhoddwyd cymhwysedd i Gymru ddeddfu arnynt.[2] Yn wir, ceir enghreifftiau yn barod o wahaniaethau o fewn rhai meysydd yn sgil grymoedd deddfu Cymreig. O ganlyniad, mae nifer yn gofyn; a yw cadw awdurdodaeth unedig Cymru a Lloegr yn ddichonadwy,[3] ynteu a ddylid sefydlu awdurdodaeth gyfreithiol Gymreig ar wahân, fel sydd yn yr Alban a Gogledd Iwerddon?

Pe sefydlid awdurdodaeth gyfreithiol Gymreig, ceid goblygiadau pellgyrhaeddol. Hwyrach, er enghraifft, y byddai'n angenrheidiol cael system llysoedd a phroffesiwn cyfreithiol ar wahân. Yn gysylltiedig â hynny, mae'n bosibl y gallai'r gyfraith yng Nghymru ddatblygu ar wahân i'r gyfraith gyfatebol yn Lloegr, o ran sylwedd y ddarpariaeth statudol ac o ran ei dehongliad yn y llysoedd. Dichon hefyd y byddai galw am sefydliadau cynorthwyol, megis Comisiwn y Gyfraith ar gyfer Cymru, a byddai goblygiadau posibl eraill ar elfennau megis mynediad at gyfiawnder.

Yn 2012, cynhaliodd grŵp ymchwil o Ysgol y Gyfraith Prifysgol Bangor brosiect ymchwil empeiraidd, wedi ei ariannu gan y Gymdeithas Ysgolheigion Cyfreithiol, er mwyn archwilio sut yr ymdriniwyd â materion o'r fath yng Ngogledd Iwerddon, sydd – fel awdurdodaeth fechan â deddfwrfa ddatganoledig a thraddodiad cyfreithiol tebyg i Gymru a Lloegr – yn fodel priodol ar gyfer cymhariaeth ac er mwyn canfod y manteision a'r heriau posibl pe sefydlid awdurdodaeth gyfreithiol Gymreig.

Un peth a ddaeth yn glir o'r ymchwil hwn oedd y cyfyd cwestiynau pwysig hefyd yng nghyd-destun dyfodol addysg gyfreithiol yng Nghymru, ar lefel prifysgol ac ar lefel cymhwyso proffesiynol. Mewn rhai ffyrdd, mae'r cwestiynau hyn yn rhai cyfoes, gan gynnwys sut y dylid ymdrin â gwahaniaethau yn y gyfraith, ac mewn rhai ffyrdd eraill maent yn fwy damcaniaethol, megis sut y byddai cael awdurdodaeth ar wahân yn effeithio ar raddau cymhwysol yn y gyfraith, cymwysterau proffesiynol a throsglwyddedd

1 O dan Ran 4 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, mae gan y Cynulliad gymhwysedd i basio Deddfau mewn perthynas â'r pynciau a osodir o dan Atodlen 7 i'r Ddeddf.

2 Gweler Hughes, D., a Davies, H. (2012), 'Deddfwriaeth Hygyrch a Dwyieithog i Gymru (Accessible Bilingual Legislation for Wales)', *Statute Law Review*, 33, 127.

3 Daeth awdurdodaeth unedig Cymru a Lloegr i fodolaeth yn y bedwaredd ganrif a'r bymtheg o dan Ddeddf Gweinyddu Cyfiawnder 1830. Am fanylion pellach, gweler Watkin, T. (2012), *The Legal History of Wales* (Cardiff: University of Wales Press).

cymwysterau yng Nghymru. Yn sgil hyn, bwriad yr erthygl yw ymdrin ymhellach ag addysg gyfreithiol yng Nghymru, gyda'r amcan o ystyried pa ddatblygiadau y mae galw amdanynt ar hyn o bryd, ynghyd â pha ddatblygiadau y byddai eu hangen pe sefydlid awdurdodaeth Gymreig.

**Prosiect Ymchwil Gogledd Iwerddon**

Fel y nodwyd uchod, mae'r erthygl hon yn deillio o brosiect ymchwil ehangach sy'n archwilio profiadau Gogledd Iwerddon fel awdurdodaeth fechan o fewn y Deyrnas Unedig.[4] Fel rhan o elfen empeiraidd y prosiect, cynhaliwyd cyfweliadau lled-strwythurol gyda chynrychiolwyr o amryw o gyrff cyhoeddus yng Ngogledd Iwerddon er mwyn canfod eu safbwyntiau ar y cwestiynau uchod.[5] Nodir barn y cynrychiolwyr i gefnogi'r dadleuon a gyflwynir yn yr erthygl hon, lle byddo hynny'n berthnasol.[6]

**Datganoli yng Nghymru**

Er na roddir disgrifiad manwl o ddatblygiad y setliad datganoli yng Nghymru yn yr erthygl hon,[7] eir ati i egluro grymoedd deddfu'r Cynulliad er mwyn ystyried yr heriau sy'n wynebu addysg gyfreithol, ac er mwyn darparu ychydig o gyd-destun perthnasol.

Sefydlwyd y Cynulliad yn y lle cyntaf dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, gyda chymhwysedd deddfwriaethol cyfyngedig iawn.[8] Efallai nad yw'n syndod bod llawer o anfodlonrwydd ynghylch y sefyllfa honno, yn arbennig yn sgil y setliadau datganoli mwy hael yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.[9] Yn sgil yr anfodlonrwydd, sefydlwyd Comisiwn o dan gadeiryddiaeth yr Arglwydd Richard o Rydaman CF i ystyried grymoedd a threfniadau etholiadol y Cynulliad. Cyhoeddodd y Comisiwn ei adroddiad yn 2004,[10] a chafodd y mwyafrif o'i argymhellion, megis y dylai'r Cynulliad gael grymoedd deddfu sylfaenol, eu gweithredu drwy Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Hanfod y Ddeddf oedd cynyddu grymoedd deddfwriaethol y Cynulliad, yn gyntaf drwy'r broses Gorchymyn

---

4 Bwriad y prosiect yw cyfrannu at y drafodaeth sy'n gofyn a fyddai awdurdodaeth Gymreig ar wahân yn ddymunol, ac fe'i seiliwyd ar dri chwestiwn ymchwil: pa gwestiynau cyfreithiol penodol sydd angen eu datrys o ganlyniad i fodolaeth awdurdodaethau cyfraith gyffredin bychan; pa sefydliadau penodol sydd eu hangen i gefnogi awdurdodaethau, a sut yr effeithia eu bodolaeth ar y proffesiynau cyfreithiol?

5 Roedd y cyrff hyn yn cynnwys Comisiwn y Gyfraith Gogledd Iwerddon, Llyfrgell y Bar, Cymdeithas y Gyfraith Gogledd Iwerddon, Rhaglen Gwasanaethu'r System Gyfreithiol (*Servicing the Legal System Programme*), y Sefydliad Astudiaethau Cyfreithiol Proffesiynol (*Institute of Professional Legal Studies*), Prifysgol Queen's Belffast, Adran Gyfiawnder Gogledd Iwerddon a swyddfa Arglwydd Brif Ustus Gogledd Iwerddon.

6 Er mwyn cadw cyfrinachedd, nid oes enwau wedi eu cynnwys.

7 Er mwyn darllen yr hanes hwn, gweler Watkin, *The Legal History of Wales*, Pennod 10 a Parry, R. G. (2012), *Cymru'r Gyfraith: Sylwadau ar Hunaniaeth Gyfreithiol* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), Pennod 1.

8 Estynnai'r cymhwysedd hyd at rym i greu deddfwriaeth eilaidd mewn meysydd penodol o dan y Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau, ac o dan Ddeddfau Seneddol dilynol lle ceid darpariaeth ar gyfer hynny.

9 Am drafodaeth bellach, gweler Bogdanor, V. (1999), *Devolution in the United Kingdom* (Oxford: Oxford University Press); Aughey, A., Bort, E., ac Osmond, J. (2011), *Unique Paths to Devolution: Wales, Scotland and Northern Ireland* (Cardiff: Institute of Welsh Affairs).

10 *Adroddiad Comisiwn Richard* (2004). Ar gael ar: http://www.comisiwnrichard.gov.uk/content/finalreport/report-w.pdf (Cyrchwyd: 20 Chwefror 2013).

Cymhwysedd Deddfwriaethol o dan Ran 3 o'r Ddeddf, ac yn fwy diweddar trwy'r grym i greu Deddfau o dan Ran 4 Deddf 2006.[11]

Rhaid cydnabod bod y grymoedd deddfu yn bell o fod yn gynhwysfawr, gan eu bod ynghlwm â'r meysydd pynciol a osodir yn Atodlen 7 o Ddeddf 2006, sy'n golygu y seiliwyd Cymru ar fodel grymoedd 'penodedig'. Gwrthgyferbynna hyn â'r model grymoedd 'neilltuedig' sydd yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.[12] Er hynny, mae gan y Cynulliad gymhwysedd i ddeddfu mewn perthynas â nifer o feysydd cyfreithiol pwysig, gan gynnwys cyfraith iechyd, addysg, gwasanaethau cymdeithasol, tai, cynllunio a'r amgylchedd. Yn ogystal, mae'n bosibl yr ymestynnir datganoli i feysydd pellach yn y dyfodol, megis cyfiawnder troseddol.

Yn ymarferol, ceir gwahaniaethau clir rhwng rhai meysydd o gyfraith Cymru, a ddeilliodd o ddeddfu'r Cynulliad, a'r hyn a geir yng nghyfraith Lloegr. Gwelir gwahaniaethau, er enghraifft, yng nghyd-destun cyfraith cynllunio,[13] cyfraith addysg[14] a chyfraith gofal cymdeithasol.[15] Er mai gwahaniaethau bychan ydynt ar y cyfan, ceir meysydd eraill lle ceir gwahaniaethau sylweddol rhwng cyfraith Cymru a Lloegr. Mae'r Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, er enghraifft, yn torri cwys newydd, gan fod y Mesur yn ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yng nghyfraith Cymru drwy osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi 'sylw dyledus' i'w darpariaethau.[16] Nid oes dyletswydd gyfatebol yn Lloegr, felly gwelir gwahaniaeth pendant rhwng cyfraith Cymru a Lloegr yn deillio'n uniongyrchol o rym y Cynulliad i ddeddfwriaethu dros Gymru. Yn yr un modd, ceir gwahaniaethau rhwng cyfraith Cymru a Lloegr o ganlyniad i brosesau deddfu Lloegr yn unig.[17]

---

[11] O ran sylwedd, mae Deddfau'r Cynulliad yn ymdebygu i Fesurau'r Cynulliad. Y prif wahaniaeth yw nad oes angen Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol i drosglwyddo cymhwysedd. Roedd gweithrediad Rhan 4 yn ddibynnol ar refferendwm. Cafodd y refferendwm hwn ei gynnal a'i basio ar 3 Mawrth 2011. Am ragor o fanylion, gweler Miers, D. (2012), *Law Making in Wales: A Measure of Devolution*. Ar gael ar: http://www.studyofparliament.org.uk/spg-paper-2.pdf (Cyrchwyd: 20 Chwefror 2013).

[12] Efallai nad yw hyn yn nodwedd hanfodol ynddo'i hun. Fel y mae Emyr Lewis a Dan Wincott yn ei nodi: 'The adoption of a conferred powers model, as opposed to a reserved powers model, does not decrease the likelihood of a body of law emerging in Wales which is significantly different from the law which applies in England.' Gweler Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol (2012), *Ymchwiliad i Awdurdodaeth ar wahân i Gymru* (Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru), t. 24.

[13] Gweler, er enghraifft, Bush, K. (2004), 'The Planning and Compulsory Purchase Act 2004 – A Case Study in Post-Devolution Primary Legislation in Wales', *Cylchgrawn Cyfraith a Pholisi Cymru*, 3, 238-50.

[14] Gweler, er enghraifft, Huws, C. (2012), 'The Language of Education Law in England and/or Wales', *Statute Law Review*, 33, 252-80.

[15] Gweler, er enghraifft, Griffiths, A., Aaron, C., a Manley, J. (2012), 'Measuring a Measure: Much Ado About £50 a Week?', *Statute Law Review*, 33, 281-303.

[16] Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, a.1. Am fanylion pellach, gweler Williams, J. (2013), *The United Nations Convention on the Rights of the Child in Wales* (Cardiff: University of Wales Press).

[17] Fel y noda Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 'Rydym hefyd yn nodi nad yw ymwahanu rhwng cyfreithiau Cymru a Lloegr yn dibynnu ar ddeddfwriaeth sy'n cael ei gwneud gan y Cynulliad Cenedlaethol yn unig, gan fod Senedd y DU yn gynyddol yn gwneud cyfreithiau sy'n gymwys i Loegr yn unig ac sy'n wahanol i'r rhai sy'n gymwys i Gymru.' Gweler, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol (2012), *Ymchwiliad i Awdurdodaeth ar wahân i Gymru*, t. 34.

**Y cwestiwn ynglŷn ag awdurdodaeth Gymreig ar wahân**

Mae sefydlu awdurdodaeth gyfreithiol newydd yn amlwg yn codi nifer o gwestiynau. Mater sy'n achosi trafferth ac anghytundeb o'r dechrau yw sut i ddiffinio awdurdodaeth, a pha sefydliadau cefnogol sydd eu hangen er mwyn gweithredu awdurdodaeth yn effeithiol.[18] Ceir hefyd drafodaeth ynghylch a oes angen creu awdurdodaeth yn benodol, ynteu a oes modd iddi ddatblygu o ddydd i ddydd mewn modd organic incrementalaidd,[19] er enghraifft, wrth i nifer penodol o ddeddfau ar wahân arwain at bwynt tyngedfennol yn y dyfodol. Yn wir, yn yr ymchwil ar Ogledd Iwerddon, cafodd nifer o'r cynrychiolwyr drafferth wrth nodi beth yn union sy'n gwneud y dalaith yn awdurdodaeth ar wahân – hwyrach gan nad yw'n fater y gofynnwyd iddynt ei ystyried yn flaenorol. Er hynny, cydsyniwyd mai'r nodwedd bwysicaf oedd system lysoedd ar wahân.

Er diben yr erthygl hon awgrymir y dylid diffinio awdurdodaeth fel tiriogaeth gyda'i chyfreithiau a'i system lysoedd ei hun.[20] Mewn rhai ffyrdd, mae Cymru eisoes yn ateb y gofynion hyn. Mae'n sicr yn diriogaeth ar wahân; mae ganddi gorff cynyddol o gyfreithiau iddi ei hun; mae ganddi dribiwnlysoedd ar wahân ynghyd â'i llysoedd ei hun mewn rhai achosion.[21] Fodd bynnag, ceir sawl elfen sy'n achosi problemau mewn perthynas â'r ddau ofyniad olaf. Y gyntaf yw nad yw'r gwahaniad yn gyflawn: er y saif llysoedd Cymru ar wahân, maent yn parhau'n rhan o system lysoedd unedig. Nodwedd arall yw nad oes gan Gymru gorff o ddeddfwriaethau cynhwysfawr. Yn wir, gellir dadlau, mewn ystyr dechnegol, nad oes gan Gymru unrhyw ddeddfwriaeth ei hun, gan fod deddfwriaeth y Cynulliad yn rhychwantu Cymru a Lloegr, er ei bod yn berthnasol i Gymru'n unig.[22]

Mae Thomas Watkin o'r farn y ceir anghysondeb i sefyllfa lle ffurfir cyfreithiau sy'n gymwys i Gymru'n unig, ond a ddyfernir ac a ddehonglir gan lysoedd yn Lloegr, ac mae'n dadlau y dylai cyfreithiau o'r fath gael dyfarniad gan lysoedd sy'n eistedd yng Nghymru'n unig. Aiff ymlaen i ddadlau '*there are good reasons also … why even in non-devolved areas*

---

18 Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol (2012), *Ymchwiliad i Awdurdodaeth ar wahân i Gymru*, Pennod 3.

19 Gweler, er enghraifft, Jones, T., a Williams, J. (2004), 'Wales as a Jurisdiction', *Public Law*, 1, 78-101, neu Jones, T., a Williams, J. (2005), 'Cymru fel Awdurdodaeth', *Cylchgrawn Cyfraith a Pholisi Cymru*, 4, 33-53.

20 Cafodd diffiniad tebyg ei osod gan Bwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a nododd, 'bod llawer o dystion wedi cytuno y dylid seilio awdurdodaeth ar y nodweddion a ganlyn: tiriogaeth wedi'i diffinio – yn ein hachos ni, Cymru; corff o gyfreithiau, a fyddai'n cynnwys cyfreithiau a wneir gan y Cynulliad Cenedlaethol yn ogystal â chyfreithiau a etifeddir pan gaiff awdurdodaeth ei chyflwyno; ystod o sefydliadau cyfreithiol gwahanol a system llysoedd.' Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Ymchwiliad i Awdurdodaeth ar wahân i Gymru*, t. 4.

21 Gweler, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Ymchwiliad i Awdurdodaeth ar wahân i Gymru*, tt. 10–11.

22 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a.108. Fel y noda Watkin, 'This technical distinction between extent and applicability reinforces the jurisdictional integrity of the two nations, although the reality is that there are now some laws of England and Wales that only apply in England and some that only apply in Wales, although some – the majority – continue to apply in both countries. What the common extent of the three kinds entails is that they can all be enforced and interpreted by courts in either country. To that extent, it is denied that Wales is a separate jurisdiction.' Gweler Watkin, *The Legal History of Wales*, t. 208.

*a distinct court structure should exist in Wales to deal with litigation at least at first and second instance.*'[23] Nid bwriad yr erthygl hon yw cyflwyno dadl o blaid nac yn erbyn awdurdodaeth ar wahân i Gymru. Fodd bynnag, gellir awgrymu pe sefydlid strwythur o lysoedd ar wahân yn unol ag awgrym Watkin, yna byddai modd ystyried Cymru fel awdurdodaeth ar wahân, a fyddai yn ei dro yn debygol o gael effaith ar addysg gyfreithiol.

**Gogledd Iwerddon fel sail ar gyfer cymhariaeth**

Y cwestiwn cyntaf y dylid ei ystyried yw; beth sy'n gwneud Gogledd Iwerddon yn deilwng o astudiaeth gymharol wrth ystyried sefydlu awdurdodaeth Gymreig? Ar y naill law, ceir gwahaniaethau hanesyddol a gwleidyddol amlwg sy'n parhau hyd heddiw, ond ar y llaw arall, ceir nodweddion tebyg o bwys sydd – cyn belled ag yr ystyrir Cymru fel awdurdodaeth ar wahân – yn gwneud Gogledd Iwerddon yn fodel amlwg.

O ran cyfansoddiad, mae gan Ogledd Iwerddon ei system lysoedd ei hun o dan y Goruchaf Lys, a wasanaethir gan ei phroffesiwn cyfreithiol ei hun. Er y ceir strwythur tebyg, maent yn gwbl annibynnol oddi wrth y proffesiwn cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr, gyda gofynion cymhwyso gwahanol iawn a system reoli ar wahân. Daeth Gogledd Iwerddon yn awdurdodaeth yn sgil Deddf Llywodraeth Iwerddon 1920.[24] Gall awdurdodaeth a grëwyd mewn ffordd mor fwriadol, o'i chymharu ag awdurdodaeth a esblygodd dros amser, fod yn arbennig o berthnasol i'r newidiadau a ystyrir yng Nghymru.

Nodwedd arall a rennir gan y ddwy wlad yw datganoli. Cafodd Deddf Gogledd Iwerddon 1998 ei phasio ar yr un pryd â Deddf Llywodraeth Cymru 1998, gan sefydlu Cynulliad Gogledd Iwerddon. Tra bod cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Gogledd Iwerddon yn llawer mwy na'r hyn yr oedd gan y sefydliad Cymreig cyfatebol ar y dechrau, mae datblygiadau yng Nghymru ers hynny, ynghyd ag amryw o anawsterau a brofwyd yng Ngogledd Iwerddon,[25] yn gwneud eu sefyllfaoedd yn eithaf tebyg, er bod y setliad datganoli yng Ngogledd Iwerddon yn parhau'n ehangach na Chymru.[26]

Dwy nodwedd arall sy'n gwneud Gogledd Iwerddon yn astudiaeth fuddiol ar gyfer cymhariaeth yw, yn gyntaf, ei maint,[27] ac yn ail, ei bod yn awdurdodaeth cyfraith gyffredin sy'n rhannu ei thraddodiad cyfreithiol gyda Chymru a Lloegr. Mae nifer o'r cyfreithiau yng Ngogledd Iwerddon yn debyg i gyfreithiau Cymru a Lloegr, a hyd yn oed lle ceir gwahaniaethau, mae'r egwyddorion cyfraith gyffredin sy'n sylfaen i'r ddwy

23 Watkin, *The Legal History of Wales*, t. 208.

24 Am wybodaeth gefndirol, gweler Parry, R. G. (2012), *Evidence to the National Assembly for Wales Constitutional and Legislative Affairs Committee, Inquiry into a Separate Welsh Jurisdiction* (Cardiff: National Assembly for Wales), paragraff 51.

25 Yn fwyaf nodedig, cafodd y Cynulliad ei atal ym mis Hydref 2002, gan ailgyflwyno rheolaeth uniongyrchol dros Ogledd Iwerddon o San Steffan. Daeth hyn i ben ym Mai 2007.

26 Fel y nodwyd uchod, mae fframwaith datganoli yng Ngogledd Iwerddon wedi'i seilio ar fodel grymoedd a gedwir.

27 O ran maint, mae'r ddwy wlad yn fychan, er bod y ffaith bod poblogaeth Gogledd Iwerddon, sydd tua 1.8 miliwn, ychydig dros hanner poblogaeth Cymru, yn dangos nad yw maint yn atal gweithredu awdurdodaeth.

system yr un fath, gan olygu bod achosion Llys Apêl Cymru a Lloegr yn cael eu hystyried fel awdurdod perswadiol.

Yn ddiddorol, roedd rhai meysydd yn wahanol yng Ngogledd Iwerddon cyn datganoli i'r hyn ag yr oeddent yng Nghymru a Lloegr. Yn gyffredinol, ni cheid gwahaniaethau sylweddol rhwng cyfreithiau yng Nghymru a Lloegr, er y ceid enghreifftiau o 'ddeddfwriaeth Cymru'n unig' (*Wales-only legislation*) cyn datganoli yn dyddio yn ôl at Ddeddf Cau ar y Sul 1881. Yr enghraifft amlycaf yw cyfraith tir yng Ngogledd Iwerddon: gan nad oedd yr awdurdodaeth yn rhan o ddiwygiadau 1925, a ddaeth i rym yng Nghymru a Lloegr, mae sawl agwedd ar y gyfraith berthnasol yn sylfaenol wahanol.[28]

Mae'n werth nodi y datblygir cyfraith Gogledd Iwerddon ar adegau'n fwriadol i fod yn debycach i Gymru a Lloegr. Awgryma hyn y gall datganoli gyflwyno cydgyfeirio yn hytrach nag ymwahanu mewn rhai meysydd. Un enghraifft yw'r Bil Cyfiawnder Troseddol 2012, sydd â darpariaeth debyg i Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012.[29] Gellir gweld cydgyfeirio yn ogystal yn y Bil Elusennau, a gyflwynwyd ar 2 Gorffennaf 2012.[30] Awgryma hyn, hyd yn oed petai meysydd pellach yn cael eu datganoli i Gymru, hwyrach na arweiniai hynny o reidrwydd at ymwahaniaeth.

### Gwahaniaeth ac Addysg Gyfreithiol

Yng Nghymru, mae'r cwestiwn ynglŷn â sut i ymdrin â gwahaniaethau yn y gyfraith yn fater sy'n ymwneud â datganoli ar hyn o bryd, ac nid yn fater sy'n ymwneud ag awdurdodaeth. Y brif ddadl y gellir ei chyflwyno yw y dylai'r holl gyfraith sy'n rhan o'r awdurdodaeth gael eu haddysgu'n gywir mewn awdurdodaeth unedig. Mae hynny'n berthnasol ar lefel broffesiynol, ac yn arbennig ar lefel brifysgol, o ran israddedigion ac ôl-raddedigion. Mae'n hanfodol bod cyrsiau'r gyfraith yng Nghymru a Lloegr, ynghyd ag unrhyw brifysgol arall sy'n honni eu bod yn addysgu cyfraith Cymru a Lloegr,[31] yn cymryd cyfreithiau Cymreig i ystyriaeth.

---

28 Yn draddodiadol, roedd cyfraith tir Gogledd Iwerddon yn debyg i gyfraith tir Gweriniaeth Iwerddon. Er hynny, yn sgil y diwygiadau Gwyddelig o ganlyniad i'r Ddeddf Diwygio Cyfraith Tir a Thrawsgludo 2009 (Iwerddon), nid dyna'r sefyllfa mwyach. Am wybodaeth bellach, gweler yr adroddiad diweddar ynglŷn â chyfraith tir a gyhoeddwyd gan Gomisiwn y Gyfraith Gogledd Iwerddon. Mae'r adroddiad ar gael ar: www.nilawcommission.gov.uk/land_law_report_nilc_8__2010_.pdf (Cyrchwyd: 20 Chwefror 2013).

29 Am wybodaeth bellach, gweler y Memorandwm Esboniadol sydd ar gael ar: www.niassembly.gov.uk/Documents/Legislation/Bills/Executive%20Bills/Session-2011-12/niabill-10-11-15-efm.pdf (Cyrchwyd: 20 Chwefror 2013).

30 Fel yr eglurir yn y memorandwm esboniadol (mae'r Memorandwm Esboniadol ar gael ar: www.niassembly.gov.uk/Documents/Legislation/Bills/Executive%20Bills/Session-2011-12/Charities_EFM%20-%20As%20Introduced.pdf (Cyrchwyd: 20 Chwefror 2013), prif amcan y ddeddf yw diwygio'r prawf budd cyhoeddus o dan adran 3 Deddf Elusennau (Gogledd Iwerddon) 2008 er mwyn ail-greu'r ddarpariaeth sydd yng Nghymru a Lloegr. Yn ddiddorol, mae darpariaeth 2008 wedi ei seilio ar ddarpariaeth Albanaidd (adran 8 Deddf Buddsoddiad Ymddiriedolwyr ac Elusennau (Yr Alban, 2005)), a bu'n destun beirniadaeth am greu ansicrwydd cyfreithiol.

31 Mae Prifysgol Dundee yn cynnig gradd yng nghyfraith Lloegr yn ogystal â gradd yng nghyfraith yr Alban. Mae Richard Owen, o Brifysgol Morgannwg, wedi paratoi deunydd addysgol yn bennaf ar gyfer darlithwyr sy'n addysgu tu allan i Gymru: www.ukcle.ac.uk/resources/nations/wales/the-government-of-wales-act-2006/ (Cyrchwyd: 20 Chwefror 2013).

Yn Ysgolion y Gyfraith yng Nghymru, ystyrir effaith datganoli a chyfreithiau Cymreig newydd ar addysgu ac ymchwil.[32] Fodd bynnag, er nad ymgymerwyd ag ymchwil cynhwysfawr, ceir awgrymiadau bod achos pryder ynghylch i ba raddau yr ymdrinnir â materion Cymreig mewn prifysgolion yn Lloegr. Er enghraifft, mae David Melding, Cadeirydd Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Cynulliad, yn gwneud y pwynt canlynol mewn perthynas â'r gwahaniaethau rhwng Cymru a Lloegr:

> Evidence to our Inquiry has shown that (the divergence) is highlighted in Welsh universities, but we are concerned that this may not be the case in English institutions. Whilst devolution is no doubt an element of courses on Constitutional and Administrative Law, it is unlikely that courses on specific subjects such as (Education, Housing and Social Care) highlight the differences that have already arisen. Lawyers in East Anglia or London, acting for a construction company, may get caught out by the very different planning legislation that applies in Wales.[33]

Gellir defnyddio llyfrau statud cyfraith teulu fel enghraifft. Bu i un o awduron yr erthygl hon nodi rhwystrau sylweddol wrth ymchwilio i fater cyfreithiol, gan nad oedd gwybodaeth gyflawn am Gomisiynydd Plant Cymru, y Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, ynghyd â gwybodaeth am Gomisiynydd Plant Lloegr wedi'i chynnwys yn y llyfrau statud cyfraith teulu.[34] Ceir hefyd dystiolaeth sy'n awgrymu nad yw rhai gwerslyfrau ar gyfraith Cymru a Lloegr yn trafod cyfreithiau Cymreig. Yn wir, roedd un gwerslyfr cyfraith teulu yn anwybyddu'r Mesur yn llwyr wrth drafod ymgorfforiad Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yng nghyfraith Cymru a Lloegr.[35]

Yn gyffredinol, ceir perygl clir yr esgeulusir datblygiadau Cymreig. O ddadansoddi'r Adolygiad Addysg a Hyfforddiant Cyfreithiol, ymddengys, fodd bynnag, nad yw rhai yn poeni am y sefyllfa, a mynegwyd pryder y byddai cynnwys darpariaeth Gymreig yn creu dryswch dianghenraid. Fel y nodwyd yn yr Adolygiad:

> The quantitative difference between the law of England and that of Wales, at least at present, prompted several participants in focus groups to suggest that any wholesale change (to the extent of, for example, separate degrees or separate training regimes) was premature. It was perhaps inevitable that those in Wales felt not only better informed on the issue, but foresaw that their colleagues in England might be less so. As with any suggestion that additional material should be included in any of the academic courses, concern was expressed about overloading

---

32 Gweler, er enghraifft, Leighton, P. (2003), 'Is the Legal Education System in Wales Measuring Up to Contemporary Challenges? Some Research Evidence from the MaLEW Project 2003', *Cylchgrawn Cyfraith Cymru*, 2 (4), 386–90; Owen, R., 'The Government of Wales Act 2006: The Challenges for Legal Education', i'w weld ar: www.ukcle.ac.uk/resources/nations/wales/wales/ (Cyrchwyd: 20 Chwefror 2013); East, R., 'Legal Education in Wales: Opportunities and Challenges', i'w weld ar: http://www.ukcle.ac.uk/resources/directions/previous/issue10/wales/ (Cyrchwyd: 20 Chwefror 2013); a Parry, *Cymru'r Gyfraith*, tt. 108-9.

33 Melding, D. (2012), 'Editorial', *Statute Law Review*, 33, 101.

34 Mae fframwaith statudol Comisiynydd Plant Cymru wedi'i osod allan yn y Ddeddf Safonau Gofal 2000, a'i ddiwygio gan Ddeddf Comisiynydd Plant Cymru 2001. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer Comisiynydd Plant Lloegr wedi ei gosod yn Neddf Plant 2004.

35 Gweler Burton, F. (2012), *Family Law* (London: Routledge), t. 310. Fel y noda Burton, 'However, the UN Convention on the Rights of the Child does not have the force of law in England and Wales, despite some of its concepts being enshrined in the (Children Act) 1989.'

> the curriculum either at academic or vocational stage. This was balanced against a sense from some participants that students, and not just those in Wales, should during the course of their education be made aware of the developing differences.[36]

Er bod elfen o gydbwysedd, ceir awgrym bod nifer sylweddol o'r farn na ddylid cynnwys datblygiadau Cymreig ar y cwricwlwm. Pan ystyrir mai ymwybyddiaeth o'r gyfraith yw un o'r rhagofynion mwyaf sylfaenol i sicrhau llwyddiant system gyfreithiol, fe ellir ei ystyried fel cam o safbwynt egwyddorol pe nad addysgir myfyrwyr am yr holl gyfreithiau sy'n berthnasol i'w hawdurdodaeth. Yn ogystal, dylid edrych ar ymwahaniaeth fel nodwedd gadarnhaol am ei fod yn darparu sail ar gyfer cymhariaeth ynghyd â sefydlu arfer da. Yn y cyd-destun hwn, gellir dadlau y cyfoethogir y cwricwlwm drwy edrych ar wahaniaethau, yn hytrach na'i orlwytho.

Mae diffyg deunyddiau yn broblem yng Ngogledd Iwerddon. Fodd bynnag, nid yw hyn – mewn rhai achosion – yn broblem na ellir ei datrys. Mae cyfraith trosedd a chyfraith tystiolaeth yn enghreifftiau o hyn, oherwydd er bod y ddarpariaeth statudol yn wahanol,[37] maent yn debyg iawn o ran sylwedd, ac mae achosion y Llys Apêl yn Lloegr yn gynsail berswadiol.[38] Dywedodd un academydd y byddai'n drugarog ar unrhyw fyfyrwyr a gyfeiriai, o bryd i'w gilydd, at ddarpariaeth Lloegr, cyn belled na ddangosent anwybodaeth am y ffaith y ceir darpariaeth ar wahân yng Ngogledd Iwerddon.[39]

Bu meysydd eraill yn fwy problemus, yn arbennig cyfraith tir, sydd – fel yr eglurwyd – yn wahanol iawn yng Ngogledd Iwerddon o'i gymharu â Chymru a Lloegr, a bellach, Gweriniaeth Iwerddon hefyd. Ceir ymdriniaeth gynhwysfawr yn *Irish Land Law* gan yr Athro John Wylie,[40] ond nid yw'r argraffiad diweddaraf yn cynnwys trafodaeth ar Ogledd Iwerddon,[41] nodwedd y gellir ei phriodoli i'r diwygiadau diweddar i'r de o'r ffin. O ganlyniad, ni cheir unrhyw werslyfr manwl ar y testun, sy'n golygu mai'r unig ddeunydd sydd ar gael yw copïau o'r penodau perthnasol o hen argraffiadau llyfr yr Athro Wylie. Fel y nododd un academydd, '*we're struggling quite seriously here*'.[42]

Awgrymai rhai bod yr ymarfer Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (FfRhY) wedi cael effaith ar hyn. Dywedodd un academydd:

> For the right or wrong reasons we have got the very clear steer that publishing on Northern Ireland law is not international excellence, which I think is completely

36 *Research update 12/02, Workforce development progress and headline findings from stage 3 of the LETR research*, paragraff 52. Ar gael ar: www.letr.org.uk/wp-content/uploads/2012/11/headline-findings2-31102012.pdf (Cyrchwyd: 20 Chwefror 2013).

37 Gellid disgwyl mai'r un fyddai'r achos yng Nghymru. Hyd yn oed petai cyfraith drosedd yn cael ei datganoli, mae'n bur annhebygol y ceid diffiniad newydd ar gyfer lladdiad (*homicide*), er enghraifft, neu Ddeddf Dwyn newydd ar gyfer Cymru. Mae newidiadau ymylol yn llawer mwy tebygol, megis llunio trosedd ar gyfer defnyddio coleri cŵn sy'n rhoi sioc drydanol drwy'r Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Coleri Electronig) (Cymru) 2010.

38 Gweler, er enghraifft, Wild C., a Weinstein S. (2010), *Smith and Keenan's English Law* (Harlow: Pearson), tt. 201–2.

39 Cyfweliad gyda'r awduron, Belffast, Mai 2012.

40 Wylie, J. (1997), *Irish Land Law* (Dublin: Bloomsbury Professional).

41 Ibid.

42 Cyfweliad gyda'r awduron, Belffast, Mai 2012.

> wrong, because it's supposed to be the inherent quality of the work, not the jurisdictions that you're researching on.[43]

O ganlyniad, ceir ymdeimlad cyffredinol na fydd ysgrifennu am Ogledd Iwerddon yn derbyn cydnabyddiaeth deilwng: '*It would have to be a labour of love and a weekend or evening only project. That's just the way it works and that is because the REF is dictating what you can and can't do at certain levels.*'[44] Yn sgil y diffyg tryloywder proses y FfRhY, mae'n amhosibl dweud a oes sail ddilys ar gyfer y farn hon ai peidio. Fodd bynnag, os ydy'r sefyllfa'n arwain at ddiffyg deunyddiau, neu ddiffyg sylwebaeth academaidd ar y gyfraith, mae'n destun gofid. Yn anffodus, mae'r un gofidiau'n berthnasol i Gymru hefyd.

**Hygyrchedd Cyfreithiau Cymreig**

Mae'r mater ynghylch deunyddiau dysgu yn adlewyrchu pwynt am hygyrchedd yn fwy cyffredinol. Mae gan Ogledd Iwerddon Raglen Gwasanaethu'r System Gyfreithiol (GSG), corff sydd â swyddogaeth i ddarparu amryw o adnoddau ynglŷn â'r gyfraith yng Ngogledd Iwerddon. Fe'i sefydlwyd ym 1980 yn dilyn papur a baratowyd gan Ddeon Cyfadran y Gyfraith ym Mhrifysgol Queen's ar y pryd, yr Athro Colin Campbell, a rhai o'i gydweithwyr. Eglura Alan Hewitt fod y papur yn amlinellu, 'the serious lack of any adequate and systematic approach to legal publications in Northern Ireland, and the consequent difficulties for practitioners and others.'[45] Gellir gweld hyn drwy bwynt a wnaed gan *Adroddiad Armitage* ym 1973:

> Another serious drawback facing the newly called barrister is the lack of tools of his trade. There is, for example, no annotated edition of the Northern Ireland Statutes and no up-to-date practice book corresponding to the English 'White Book' (the Annual Practice). The latest available edition of the corresponding work came out in 1906 and relates therefore to the pre-partition courts in Ireland. There is no book of Northern Ireland Court precedents and only an ancient and rather sketchy book of non-litigious forms. The English precedent books such as Atkin's 'Court Forms' have to be used, but warily, because of the many differences in practice and substantive law between the two jurisdictions. There are very few general text books on Northern Ireland law and therefore some special professional skills and techniques must be learned by the newcomer to the Bar in addition to those required by barristers in other parts of the United Kingdom.[46]

Yn unol â hynny, fel y nododd un o staff GSG, diffyg cyhoeddwyr masnachol oedd y 'raison d'être' ar gyfer sefydlu GSG.[47] I raddau, mae materion tebyg yn codi yng Nghymru, sy'n golygu bod GSG yn cynnig ei hun yn syth fel model posibl.

---

43 Ibid.

44 Ibid.

45 Hewitt, A. (2010), *The Law Society of Northern Ireland: A History* (Belfast: The Law Society of Northern Ireland), t. 102.

46 Government of Northern Ireland (1973), *Report of the Committee on Legal Education in Northern Ireland* (Cmd 579: H. M. Stationary Office), t. 12. Cadeiriwyd y Pwyllgor gan yr Athro A. L. Armitage.

47 Cyfweliad gyda'r awduron, Belffast, Mai 2012.

Elusen yw GSG, sy'n cael ei hariannu gan y proffesiwn cyfreithiol. Mae swyddfeydd yn cael eu darparu gan Brifysgol Queen's, ac mae ganddi bedwar aelod o staff llawn amser. O ran cyhoeddiadau, y prif adnodd yw'r *Bulletin of Northern Ireland Law* a gyhoeddir pob pum wythnos, ac sy'n darparu adroddiad cynhwysfawr o ddatblygiadau cyfreithiol.[48] Yn ogystal, ceir dau gyhoeddiad arbenigol: y *Northern Ireland Conveyancing and Land Law Journal*, a gyhoeddir ddwywaith y flwyddyn, a'r *Child and Family Law Update* a gyhoeddir bob chwarter.

Mae darparu gwerslyfrau hefyd yn swyddogaeth allweddol, ac mae GSG yn comisiynu llyfrau ar amryw o feysydd cyfraith Gogledd Iwerddon, er enghraifft cyfraith tai, methdaliadau, trefniadaeth droseddol a morgeisi.[49] Erbyn heddiw, nid ysgrifennir y llyfrau gan academyddion fel rheol.[50] Yn hytrach, fe'u hysgrifennir gan ymarferwyr, am ei fod yn ffordd dda iddynt hyrwyddo'u harbenigedd. Fel y nododd un o gynrychiolwyr GSG, 'that's how we keep pushing it to people now, that the profession here is too big, there are too many barristers and there isn't enough work so they've got to find a way of differentiating themselves, and one way they can differentiate themselves is by publishing.'[51]

Yn ogystal â chyhoeddi adnoddau, mae GSG yn chwarae rhan bwysig iawn drwy hyfforddiant datblygiad proffesiynol parhaus (DPP), ac yn trefnu amryw o gyrsiau a chynadleddau. Er bod mwy o gystadleuaeth erbyn hyn oddi wrth ddarparwyr masnachol, ystyrir y GSG fel y prif sefydliad i'r perwyl hwn, ac mae eu cyrsiau amrywiol yn ariannu eu cyhoeddiadau. Mae digwyddiadau DPP yn cynnwys cynadleddau undydd o bwys, seminarau nosweithiol, a chyrsiau chwe wythnos ar bynciau megis cyfraith fasnachol, adolygiad barnwrol a datrys anghydfodau. Maent yn cynnal diwrnod ar gyfer ymarferwyr profiant a diwrnod ar gyfer cleientiaid hŷn yn flynyddol.

Mae angen dybryd am wasanaeth addysgol o'r fath yng Nghymru. Ar y cyfan, ni fu mentrau hyd yma yn ddigonol nac yn systematig,[52] ac mae'n glir bod galw am rywbeth mwy cynhwysfawr.[53] Felly, dylid sefydlu GSG Cymreig gyda'r prif swyddogaethau hyn: darparu diweddariadau a sylwebaeth ar gyfraith Gymreig; trefnu adnoddau i'w cyhoeddi (gan gynnwys gwerslyfrau a chyfnodolion), a threfnu hyfforddiant i gyfreithwyr

---

48 Mae'r *Bulletin* hefyd ar gael ar-lein (gweler www.sls.qub.ac.uk/new_site/index_html). Mae staff GSG o'r farn bod hwn yn gynnyrch o safon uwch, gan fod modd cynnwys nodweddion megis hyperddolenni sy'n gyrru'r darllenydd at y statudau a'r dyfarniadau. Er hyn, mae'r fersiwn brintiedig yn fwy poblogaidd.

49 Am restr o'r teitlau sydd ar gael, gweler: www.sls.qub.ac.uk/catalogue/page1_new.htm?category=Books

50 Awgrymodd cynrychiolwyr GSG, yn unol â'r academyddion, y gallai gofynion y FfRhY fod wedi effeithio ar hyn.

51 Cyfweliad gyda'r awduron, Belffast, Mai 2012.

52 Dylid cydnabod y cynhyrchid cronfa ddata o ddeddfwriaeth Gymreig gan Brifysgol Caerdydd am sawl blwyddyn. Er iddi fod yn ddefnyddiol, serch hynny, nid oedd yn cynnwys unrhyw sylwebaeth ar y gyfraith.

53 Mae'r Cwnsler Cyffredinol, Theodore Huckle, wedi awgrymu datblygu 'gwyddoniadur' er mwyn darparu hygyrchedd gwell ar gyfer cyfreithiau Cymreig. Fodd bynnag, nid yw'n glir ar ba ffurf y bydd hwn ar hyn o bryd. Gweler: www.wales.gov.uk/newsroom/firstminister/2012/120626accesstowelshlaw/;jsessionid=C8B60B358D79A3AE479ED67324CDB9FE?lang=cy (Cyrchwyd: 20 Chwefror 2013)

sy'n ymarfer yng Nghymru. O brofiad GSG yng Ngogledd Iwerddon, ni fyddai'n or-gostus i'w gynnal, a byddai'n darparu gwasanaeth gwerthfawr tu hwnt a âi ymhell i sicrhau datblygiad effeithiol a gwir gyfreithlondeb y gyfraith yng Nghymru.

**Y Gymraeg**

Un nodwedd sy'n gosod Cymru ar wahân i Loegr a Gogledd Iwerddon yw'r iaith Gymraeg.[54] Er nad yw hyn yn hollol berthnasol i thema gymharol gweddill yr erthygl, dylid rhoi ystyriaeth iddi yng ngolau'i phwysigrwydd sylfaenol yn y cyd-destun Cymreig.

O ganlyniad i Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Mesur y Gymraeg 2011, mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg. Ar ben hynny, mae gan ddeddfwriaeth y Cynulliad 'sail gyfartal' yn y Gymraeg a'r Saesneg.[55] Yn unol â hynny, mae angen arbenigedd i sicrhau y'i drafftir a'i dehonglir yn gywir. Fel yr eglura Watkin,

> The laws made by the Assembly and the Welsh Ministers are not made in English, nor in Welsh, but in both languages. With Parliament having decreed that the two language versions are to be treated as of equal validity for all purposes, it cannot therefore be safe to interpret the meaning of one text without having due regard to the meaning of the other. This has far-reaching implications for the education, qualifications and composition of the legal professions, affecting practitioners, as they expound the law to their clients, and the judiciary, who will be called upon to adjudicate upon and interpret these laws in court.[56]

Nodwedd o bwys difrifol yw'r ffaith nad yw cyhoeddwyr masnachol yn darparu testun Cymraeg o ddeddfwriaethau. Yn ogystal, mae Hughes a Davies yn pwysleisio mai'r 'person sy'n dymuno gweld testun cyfoes Cymraeg y gyfraith a wnaed yn Gymraeg sydd yn y sefyllfa waethaf oll, gan nad yw'r testun hwnnw ar gael o gwbl, yn gyhoeddus nac o wasanaeth a ddarperir yn fasnachol.'[57] Pe deuai Cymru'n awdurdodaeth ar wahân, mae'n bosibl y byddai angen cyfieithu darpariaethau sydd eisoes yn bodoli, sy'n berthnasol i Gymru a Lloegr. Byddai hyn yn dwysáu'r mater.

Mae'r goblygiadau i addysg gyfreithiol yn amlwg ar bob lefel, yn arbennig o ran adnoddau. Mae'r mater eto'n gysylltiedig â hygyrchedd, a cheir nifer o drafferthion. Mae'n bosibl na fyddai rhai'n credu bod paratoi deunyddiau cyfrwng Cymraeg yn ateb gofynion yr ymarfer FfRhY.[58] At hynny, hwyrach na fyddai cyhoeddi deunyddiau masnachol yn ymarferol wrth ystyried y gynulleidfa gymharol fechan. Mae hyn yn debyg

---

54 Dylid cydnabod bod cwestiynau ieithyddol yn codi yng Ngogledd Iwerddon, yn benodol Scoteg Ulster a'r Wyddeleg. Mae hyn, serch hynny, y tu hwnt i gwmpas y prosiect ymchwil presennol.

55 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, a.156.

56 Watkin, *The Legal History of Wales*, t. 209.

57 Gweler Hughes a Davies, 'Deddfwriaeth Hygyrch a Dwyieithog i Gymru', t. 134.

58 Er bod y FfRhY wedi gwneud darpariaeth ar gyfer cyflwyniadau cyfrwng Cymraeg, *Assessment Framework and Guidance on Submissions* (July, 2011), paragraffau 128–30 ar gael ar: http://www.ref.ac.uk/media/ref/content/pub/assessmentframeworkandguidanceonsubmissions/GOS%20including%20addendum.pdf (Cyrchwyd: 20 Chwefror 2013); Gweler hefyd Parry, R. G. (2002), 'Hyrwyddo'r Gymraeg ym Myd y Gyfraith: Beth yw Cyfraniad Adrannau Cyfraith y Brifysgol?', *Cylchgrawn Cyfraith Cymru*, 1, 394.

i sefyllfa GSG yng Ngogledd Iwerddon. Er mwyn adeiladu ar yr argymhellion cynharach ar gyfer sefydlu GSG cyfatebol yng Nghymru, dylai corff o'r fath ymgymryd â chynhyrchu deunyddiau cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys deunyddiau dysgu cyfrwng Cymraeg. Yn wir, yn ôl R. Gwynedd Parry, mae adnoddau cyfrwng Cymraeg yn hanfodol ar gyfer datblygu addysg gyfreithiol ddwyieithog:

> Cyn y gellir gweld datblygiadau pellach mewn addysg ddwyieithog yn y gyfraith, rhaid wrth ddeunydd ar ffurf testunau cyfreithiol yn Gymraeg. Y maen tramgwydd sylfaenol yw diffyg llyfrau yn egluro'r gyfraith yn Gymraeg. Nid oes felly ganllawiau neu gyfeirlyfrau y gall myfyrwyr (nac, o ran hynny, ymarferwyr y gyfraith yn y llysoedd) droi atynt am arweiniad a chyngor.[59]

Mae rhai camau sylweddol eisoes wedi'u cymryd. Mae geiriadur cyfreithiol Cymraeg,[60] yn ogystal â geiriadur termau cyfreithiol Cymraeg eisoes wedi'u cyhoeddi.[61] Darperir rhywfaint o addysg gyfreithiol cyfrwng Cymraeg ar draws prifysgolion Cymru, ac mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn ariannu nifer o fentrau, gan gynnwys cymrodoriaethau dysgu cyfrwng Cymraeg, ynghyd â chynnal ymchwil gyfreithiol drwy gyfrwng y Gymraeg.[62] Er hynny, mae'n amlwg bod her aruthrol yn wynebu addysgwyr y dyfodol yn sgil diffyg adnoddau dysgu cyfrwng Cymraeg, nodwedd a all beri i fyfyrwyr beidio â dewis addysg cyfrwng Cymraeg.

**Cymru fel awdurdodaeth**

O'r drafodaeth uchod, mae'n glir fod angen datblygu strwythurau o fewn yr awdurdodaeth bresennol er mwyn ymateb i ddatganoli. Yn benodol, mae angen sicrhau bod deunyddiau addysgol, er enghraifft gwerslyfrau ac erthyglau, yn cydnabod y gwahaniaethau rhwng Cymru a Lloegr – yn ogystal â hybu hygyrchedd yn fwy cyffredinol – drwy greu sefydliad cyfatebol yng Nghymru i'r GSG yng Ngogledd Iwerddon. Yn gysylltiedig â hyn, mae'n hollbwysig sicrhau bod adnoddau ar gael yn y Gymraeg, er mwyn adlewyrchu statws cyfartal yr iaith.

Fodd bynnag, yn sgil datblygiadau posibl y dyfodol, mae'n berthnasol hefyd i ystyried y materion a allai godi pe deuai Cymru'n awdurdodaeth ar wahân. Yn amlwg, byddai llawer yn dibynnu ar yr union fodel a ddewisir, ond gobeithir y bydd y drafodaeth hon yn un ddadlennol. Er mwyn gosod y cyd-destun, mae'n werth cyfeirio at yr Adolygiad Addysg a Hyfforddiant Cyfreithiol.[63] Un o'r cwestiynau a ofynnwyd i'r cyfranogwyr fel rhan o ymchwil mesurol yr adolygiad – a oedd yn cynnwys academyddion ac

---

59 Parry, R. G. (2002), 'Hyrwyddo'r Gymraeg ym Myd y Gyfraith', t. 390; Gweler hefyd, Parry, *Cymru'r Gyfraith: Sylwadau ar Hunaniaeth Gyfreithiol*, t. 117; a Davies, I. (2001), 'Adroddiad Seminar: Yr Iaith Gymraeg a'r Broses Gyfreithiol yng Nghymru', *Cylchgrawn Cyfraith Cymru*, 1, 11; 'Cytunwyd y byddai dwyieithrwydd yn y broses gyfreithiol ar ei hennill yn fawr petai defnyddiau cyfreithiol ar gael yn y Gymraeg a hefyd addysg gyfreithiol trwy gyfrwng y Gymraeg ar lefel israddedig a lefel LPC/BVC.'

60 Lewis, R. (2003), *Geiriadur Newydd y Gyfraith* (Llandysul: Gomer).

61 Jones, D. Ll., Prys, D. a Davies, O. L. (goln) (2008), *Geiriadur Termau'r Gyfraith* (Bangor: Prifysgol Bangor). Paratowyd y termau gan staff Ysgol y Gyfraith, Prifysgol Bangor. Mae'r geiriadur ar gael yn electronig drwy'r Porth Termau Cenedlaethol: termau.org.

62 Parry, *Cymru'r Gyfraith*, tt. 108–15.

63 Gweler www.letr.org.uk am fanylion pellach. Ar adeg ysgrifennu'r erthygl, nid oedd yr adroddiad terfynol wedi ei gyhoeddi.

ymarferwyr cyfreithiol – oedd; 'Should the education and training of legal professionals in Wales differ from the education and training of legal professionals in England?'[64] Roedd yr ymatebion fel a ganlyn:

| Located in | No, never | No, not now, but perhaps in the future | Yes, small differences | Yes, large differences | Yes, there should be completely different systems |
|---|---|---|---|---|---|
| England (997 respondents) | 58.7% | 28.4% | 12.0% | 0.4% | 0.4% |
| Wales (47 respondents) | 49.0% | 25.5% | 19.1% | 2.1% | 4.3% |

Gellir gweld o'r darganfyddiadau hyn bod nifer o'r farn, hyd yn oed pe sefydlid awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân yng Nghymru, y dylai addysg a hyfforddiant barhau'r un fath â'r hyn a geir yn Lloegr. Hwyrach nad yw hyn yn gwbl annisgwyl o ystyried meddylfryd geidwadol y gymuned gyfreithiol. Fodd bynnag, gellir dadlau nad yw dull o'r fath yn gynaliadwy, ac yn dilyn profiadau Gogledd Iwerddon, mae'n debygol y bydd angen newid er mwyn adlewyrchu'r cyd-destun yn fwy cywir i'r dyfodol. Tra bydd maint y gwahaniaethau yn ddibynnol ar sut y datblyga'r sefyllfa yng Nghymru, byddai mabwysiadu agwedd *laissez-faire* nid yn unig yn golygu methu manteisio'n llawn ar ddatganoli, ond byddai hefyd yn niweidiol i ddatblygiad y gyfraith yng Nghymru yn y dyfodol.

**Addysg gyfreithiol israddedig**

Dadleuwyd uchod y dylai prifysgolion Cymru a Lloegr sicrhau rhoi sylw i gyfreithiau Cymru. Er hynny, pe sefydlid awdurdodaeth ar wahân i Gymru, ni fyddai disgwyl i brifysgolion Lloegr addysgu cyfraith Gymreig yn fwy na chyfraith unrhyw awdurdodaeth arall, megis Gogledd Iwerddon. Er hynny, gallai hynny arwain at broblemau mewn perthynas â graddau cymhwysol yn y gyfraith. Yn gryno, y cwestiwn dan sylw yw; a fyddai graddau prifysgolion Cymru yn raddau cymhwysol yn y gyfraith ar gyfer myfyrwyr sy'n dymuno cwblhau eu hyfforddiant galwedigaethol yn Lloegr? Unwaith eto, gall profiad Gogledd Iwerddon fod yn gynsail gwerthfawr i'r perwyl hwn. Yno, mae graddau cyfreithiol sy'n ateb gofynion y cyrff proffesiynol yng Nghymru a Lloegr yn ddilys yng Ngogledd Iwerddon cyn belled â'u cymeradwyir gan y Cyngor ar gyfer Addysg Gyfreithiol (Gogledd Iwerddon). Yr unig ddisgwyliad ychwanegol yw bod myfyrwyr yn astudio cyfraith dystiolaeth droseddol, neu'n sefyll arholiad ychwanegol yn y pwnc cyn dechrau eu hastudiaethau proffesiynol. Yn ymarferol, nid yw graddau cyfraith Cymru a Lloegr i'w gweld fel llawer o rwystr. Fel yr eglurwyd gan gynrychiolydd y Sefydliad Astudiaethau Cyfreithiol Proffesiynol: '*because they're moving from academic to practical law we don't notice a huge difference.*'[65] Yn wir, credai ei fod yn fwy o 'her' pan nad oedd myfyrwyr wedi astudio rhai o fodiwlau'r cwrs yn y brifysgol, megis cyfraith cwmni neu gyfraith teulu. Ar sail y dystiolaeth uchod felly, gellir awgrymu y dylai graddau

64 *Research update 12/02, Workforce development progress and headline findings from stage 3 of the LETR research*, paragraff 51 (Cyrchwyd: 20 Chwefror 2013).

65 Cyfweliad gyda'r awduron, Belffast, Mai 2012.

cyfraith Lloegr fod yn ddilys ar gyfer y rhai sy'n bwriadu hyfforddi yng Nghymru, gan gymryd yn ganiataol wrth gwrs y sefydlid hyfforddiant ar wahân iddynt yn y lle cyntaf.

Yn anffodus, nid yw'r sefyllfa ar gyfer myfyrwyr yng Ngogledd Iwerddon sy'n dymuno cymhwyso yng Nghymru a Lloegr yr un mor syml. Yn gyffredinol, mae graddau Gogledd Iwerddon yn ddilys yng Nghymru a Lloegr. Gwahaniaeth nodedig, fodd bynnag, yw y disgwylir i fyfyrwyr Gogledd Iwerddon astudio cyfraith tir Lloegr yn ategol at gyfraith tir Gogledd Iwerddon. Mae hyn yn ddealladwy o ystyried y gwahaniaeth amlwg rhwng y cyfreithiau, ynghyd â phwysigrwydd dealltwriaeth o gyfraith eiddo ar gyfer cymhwyster proffesiynol.[66] Fodd bynnag, gellir honni ei fod yn afresymol nad yw'r sefyllfa yr un fath i'r rhai sy'n symud o Gymru a Lloegr i Ogledd Iwerddon, a mynegwyd cryn syndod o ganlyniad. Fel y dywedodd un academydd, '*it's a very tough experience for the students*'.

Er nad yw'r mater hwn yn codi yng Nghymru heddiw o ganlyniad i'r tebygrwydd rhwng sylwedd cyfraith Cymru a Lloegr, fe all godi yn y dyfodol. Gellir dadlau bod disgwyl i Ysgolion Cyfraith Cymru ymdrin â chyfreithiau Lloegr yn ogystal â Chymru er mwyn cynyddu dewisiadau i'w graddedigion o ran gyrfa. Yn wir, gall unrhyw awgrym camarweiniol bod graddau cyfraith o brifysgolion Cymru yn amherthnasol i fyfyrwyr o Loegr, neu fyfyrwyr sy'n bwriadu ymarfer yn Lloegr, gael effaith niweidiol ar ysgolion cyfraith Cymru gan y byddai'n amhosibl denu digon o fyfyrwyr.[67] Byddai'r sefyllfa honno'n debyg i sefyllfa'r Alban, lle nad oes modd i fyfyrwyr sy'n derbyn gradd gyfraith o'r Alban gymhwyso fel cyfreithiwr yng Nghymru a Lloegr. Fodd bynnag, pe caiff cyfreithiau Lloegr eu haddysgu yn ategol at gyfreithiau Cymru, ceir perygl y gallai graddau yng Nghymru un ai fod yn anos (fel yr hyn a welir yng Ngogledd Iwerddon yn sgil y rheidrwydd i ddysgu cyfraith tir Lloegr yn ategol at gyfraith tir Gogledd Iwerddon), neu'n llawer mwy arwynebol dros amser – rhywbeth y dylid ei osgoi.

Cwestiwn arall y dylid ei ystyried yw; a ddylai graddau o Loegr gael statws dilys yng Nghymru fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, ynteu a ddylid gosod gofynion ychwanegol? Am resymau tebyg i'r rhai a amlinellwyd gan gynrychiolydd y Sefydliad Astudiaethau Cyfreithiol Proffesiynol yng Ngogledd Iwerddon uchod, mae modd dadlau na fyddai gosod gofynion o'r fath yn fanteisiol. Y pwynt allweddol yw bod egwyddorion cyfraith gyffredin a chyfraith achosion yn debygol o aros yr un peth, yn arbennig os yw'r Goruchaf Lys yn parhau fel llys apeliadol uchaf Cymru, ac o ragdybio y byddai gan achosion Llys Apêl Lloegr natur berswadiol. Fodd bynnag, os yw graddau Lloegr yn gymwys yng Nghymru, mae'n bwysig bod graddau cyfraith Gymreig yn gymwys y tu hwnt i Glawdd Offa. Dylai graddau cyfreithiol Cymru a Lloegr astudio'r gwahanol systemau cyfreithiol.[68]

---

66 Mae ymarfer a chyfraith eiddo yn rhan orfodol o raglenni Cwrs Ymarfer y Gyfraith. Gweler: www.sra.org.uk/documents/students/student-enrolment/beforeyoustart.pdf (Cyrchwyd: 20 Chwefror 2013).

67 Cafodd gofidiau yn y cyd-destun hwn eu cyfleu yn ystod ymgynghoriad y Cynulliad. Gweler Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Ymchwiliad i Awdurdodaeth ar wahân i Gymru*, paragraffau 144 ac 145. Dylid nodi nad oedd hyn yn broblem ym Mhrifysgol Queen's. Nid yw, hwyrach, yn syfrdanol i un academydd awgrymu i broblemau gwleidyddol amrywiol Belffast gael mwy o effaith ar eu gallu i recriwtio myfyrwyr.

68 Gallai hyn ffurfio rhan o fodiwlau cyfraith gyfansoddiadol yn yr un ffordd ag y mae modiwlau cyfredol o'r fath yn cynnwys datganoli ar hyn o bryd.

**Cymhwyster Proffesiynol**

Dylid hefyd ystyried cymwysterau proffesiynol. Wrth reswm, byddai hyn yn gwbl ddibynnol ar effaith sefydlu awdurdodaeth Gymreig ar y proffesiwn cyfreithiol yng Nghymru.[69]

Ym marn yr Adolygiad Addysg a Hyfforddiant Cyfreithiol, ni fyddai angen unrhyw newidiadau sylweddol hyd yn oed pe sefydlid awdurdodaeth Gymreig: '*Clearly if a separate jurisdiction becomes a reality, and involves distinct courts and distinct procedures, some consideration might also be given to "awareness level" education in the vocational teaching of litigation.*'[70] Os felly, hwyrach mai'r unig beth fyddai ei angen fyddai eglurhad o system gyfreithiol Cymru mewn modiwl rhagarweiniol. Er hynny, hwyrach yr ymddangosai'n anarferol i sefydlu proffesiwn cyfreithiol Cymreig a modiwl ar y cyd, tra cedwir proffesiynau Lloegr fel ag y maent, a gellir dadlau ei fod yn fwy priodol o lawer i gynllunio'n arbennig ar gyfer anghenion penodol Cymru. Unwaith eto, fe all cymhariaeth â Gogledd Iwerddon ar gyfer hyn fod yn ddadlennol, oherwydd er y strwythurir y proffesiynau cyfreithiol mewn ffordd debyg i Gymru a Lloegr,[71] mae ganddynt system arbennig o gymhwyster proffesiynol a ddyluniwyd i ateb gofynion proffesiwn cyfreithiol mewn awdurdodaeth fechan.

Mae strwythur yr hyfforddiant cyfreithiol galwedigaethol yng Ngogledd Iwerddon wedi bodoli yn ei ffurf bresennol ers sefydlu'r Sefydliad Astudiaethau Cyfreithiol Proffesiynol (SACP), yn dilyn argymhellion Adroddiad Armitage ym 1973. Cyn hynny, roedd yn rhaid i ddarpar fargyfreithwyr gyflawni cwrs gradd – er nad cwrs cyfraith o reidrwydd – cyn ymgymryd â chwrs blwyddyn ym Mhrifysgol Queen's, ynghyd â sefyll Arholiad Terfynol Bar Lloegr. Astudient ar gyfer yr arholiad hwn yn annibynnol, gan fynychu darlithoedd gan aelodau'r proffesiwn. Caniateid i fyfyrwyr gael eu heithrio o astudio pynciau penodol os oeddent eisoes wedi eu hastudio fel rhan o'u gradd. Ar y llaw arall, er mwyn cymhwyso fel cyfreithwyr, yr oedd yn rhaid i fyfyrwyr gwblhau gradd, neu wasanaethu fel clerc y gyfraith am gyfnod o saith mlynedd. Yna, gallent sicrhau mynediad at brentisiaeth Indentur am dair blynedd. Roedd angen iddynt gwblhau arholiadau blynyddol, er y gallent gael eu heithrio os oeddent eisoes wedi astudio'r pwnc cyfreithiol perthnasol, a gofynnid iddynt lwyddo yn Arholiad Terfynol Cymdeithas y Gyfraith Gorfforedig cyn cael mynediad. Ceid sawl problem i'r system, gyda'r brif feirniadaeth ar '*the almost complete lack of any satisfactory form of direct professional training.*'[72] Fel y nodwyd yn *Adroddiad Armitage*,

> It was clear to us from the evidence submitted that the successful completion of existing courses of professional training provides no guarantee as to the

---

[69] Enghraifft amlwg yn y cyd-destun hwn yw a cheid unrhyw raniad yn y proffesiynau rhwng Cymru a Lloegr. Mae trafodaeth ynghylch pa strwythur fyddai'n ddymunol y tu hwnt i faes yr erthygl hon.

[70] *Research update 12/02, Workforce development progress and headline findings from stage 3 of the LETR research*, paragraff 54.

[71] O ran strwythur, mae proffesiwn cyfreithiol Cymru a Lloegr yn debyg iawn, gyda rhaniad yn y proffesiwn rhwng cyfreithwyr a bargyfreithwyr. Ceir Cymdeithas y Gyfraith a Chyngor y Bar, er nad oes cyrff rheoli ar wahân. Un gwahaniaeth yw nad yw bargyfreithwyr yn gweithio o siambrau; maent yn hytrach yn hunangyflogedig ac â chanolfan yn Llyfrgell y Bar. Gwahaniaeth nodedig arall yw na cheir strwythurau busnes amgen, na dulliau amgen ar gyfer cymhwyso.

[72] Government of Northern Ireland (1973), *Report of the Committee on Legal Education in Northern Ireland* (Cmd. 579: H. M. Stationary Office), t. 11.

competence or the quality – beyond the academic quality – of a candidate for either branch of the Profession. We are satisfied that the case for change is overwhelming.[73]

Daeth newid yn sgil y cwrs galwedigaethol a ddarperir gan yr SACP. Mae strwythur y cwrs yn wahanol i Gymru a Lloegr, ac yn cynnwys sawl budd posibl, gan gynnwys rhai a fyddai'n arbennig o ddeniadol mewn cyd-destun Cymreig. Gyda hyn mewn golwg, darperir trosolwg o rai o'r prif wahaniaethau.

Cyn egluro sut y gweithredir y cwrs galwedigaethol, dylid tanlinellu y ceir dwy ysgol erbyn hyn. Y gyntaf i'w sefydlu oedd y SACP, sy'n rhan o Brifysgol Queen's ym Melffast. Yn 2008, sefydlwyd yr Ysgol Raddedig ar gyfer Addysg Gyfreithiol Broffesiynol (YRAGB), sy'n rhan o Brifysgol Ulster yn Londonderry. Diben cael darparwr ar wahân oedd gwasanaethu anghenion gogledd y wlad. Mae'r arwyddocâd i Gymru yn amlwg. Yn hanesyddol, gwthiwyd Gogledd Cymru i'r cyrion o ran addysg gyfreithiol, ond daeth tro ar fyd pan sefydlwyd Ysgol y Gyfraith ym Mhrifysgol Bangor yn 2004. Gyda sefydlu cyrsiau galwedigaethol, mae'n hanfodol y cyflwynir darpariaeth ar gyfer myfyrwyr yn y gogledd a'r canolbarth, yn ogystal â'r de.

Nifer cyfyngedig o lefydd sydd ar y cyrsiau yng Ngogledd Iwerddon. Bob blwyddyn mae'r SACP yn derbyn 120 o gyfreithwyr dan hyfforddiant a 30 o ddarpar fargyfreithwyr, tra bod yr YRAGB yn derbyn 28 o gyfreithwyr dan hyfforddiant. Mae cyfyngu llefydd yn cyflwyno trefn teilyngdod, gyda'r nod o gynnal safonau uchel. Mae hyn yn gyferbyniad llwyr â Chymru a Lloegr, lle mae safonau mynediad yn gymharol isel, elfen sydd o bosibl yn annog myfyrwyr i ymgymryd â chyrsiau er bod cyfleoedd prin ar gyfer swyddi yn dilyn hynny.[74]

Yn y SACP,[75] yn groes i Gymru a Lloegr,[76] mae'r ymgeiswyr i'r ddau broffesiwn yn hyfforddi yr un pryd â'i gilydd. Un fantais i'r sefyllfa hon, gan nad yw'n ymarferol i gael dau gwrs hyfforddiant ar gyfer niferoedd bychain, yw y caniateir i ddarpar gyfreithwyr a bargyfreithwyr adeiladu rhwydwaith o gysylltiadau. Yn wir, mae gan y cyrsiau wahanol ddyddiadau cychwyn, sy'n golygu bod darpar fargyfreithwyr yn cyfarfod dau grŵp o ddarpar gyfreithwyr. Yn wahanol i Gymru a Lloegr, mae'r cwrs cyfreithwyr wedi ei strwythuro fel un rhyngosodol, ac mae'n cael ei gyfuno â hyfforddiant i gyfreithiwr proffesiynol.[77] Daeth hyn yn sgil *Adroddiad Bromley* ym 1985, a oedd yn arolygu'r

---

73 Ibid., t. 15.

74 Dengys ffigyrau Cymdeithas y Gyfraith fod 7,064 o fyfyrwyr wedi cofrestru ar y Cwrs Ymarfer Cyfreithiol yn 2010–11, tra cofrestrwyd 5,441 contract hyfforddi newydd. Gweler, Dixon, D. (2012), *Entry to the Solicitor's Profession 1980-2011* (Cymdeithas y Cyfreithwyr), i'w weld ar: http://www.lawsociety.org.uk/careers/becoming-a-solicitor/entry-trends/ (Cyrchwyd: 20 Chwefror 2013). Yn yr un flwyddyn, cofrestrwyd 1,793 o fyfyrwyr ar Gwrs Hyfforddi Proffesiynol y Bar, tra cofrestrwyd 460 disgybledd (*pupillage*). Gweler: https://www.barstandardsboard.org.uk/media-centre/research-and-statistics/statistics/ (Cyrchwyd: 20 Chwefror 2013).

75 Ar gyfer cyfreithwyr yn unig y darperir hyfforddiant gan yr Ysgol Raddedig ar gyfer Addysg Gyfreithiol Broffesiynol.

76 Yng Nghymru a Lloegr, ceir Cwrs Ymarfer Cyfreithiol ar gyfer cyfreithwyr a Chwrs Hyfforddi Proffesiynol y Bar ar gyfer bargyfreithwyr.

77 Cyn dechrau'r cwrs, mae myfyrwyr yn treulio pedwar mis yn gweithio gyda chyfreithiwr (y 'meistr'). Wedi hynny maent yn astudio am flwyddyn, cyn treulio wyth mis arall gyda'r un cyfreithiwr cyn cymhwyso.

SACP.[78] Yn unol â natur alwedigaethol y cwrs, mae myfyrwyr yn dilyn tua 30 modiwl gwahanol, sy'n llawer mwy na'r hyn y dilyna myfyrwyr yng Nghymru a Lloegr.[79] Rhoddir pwyslais ar 'sylfaen dda' yn hytrach nag arbenigedd. Mae hyn yn fwy addas ar gyfer gwlad sydd ar y cyfan yn cynnwys cwmnïau cyfreithiol bychan yn hytrach na chwmnïau mawr dinesig. Byddai hyn yn ystyriaeth amlwg yng Nghymru.

Mae gofyn i gyfreithwyr dan hyfforddiant gael yr hyn a adwaenir fel 'meistr' cyn dechrau astudio. Nid oes yr un gofyn ar fargyfreithwyr, ond mae'n arfer i bob bargyfreithiwr ddod o hyd i feistr cyn ymgymryd â'r cwrs. Mantais amlwg y system meistr yw bod gan yr holl fyfyrwyr gytundeb wrth ddechrau eu hastudiaethau. Fel y nododd cynrychiolydd SACP: '*so they know that if they work hard they will get qualified.*' Mae hyn yn wahanol iawn i Gymru a Lloegr, lle caiff nifer o fyfyrwyr drafferth i gael disgybledd (prentisiaeth bar) neu gytundeb hyfforddi ar ôl cwblhau'r cwrs galwedigaethol. Er gwaethaf y manteision, rhaid cydnabod bod gan y system meistr broblemau yn ogystal, yn arbennig yn ystod cyfnodau o ddirwasgiad. Yn syml, os na all y myfyrwyr disgleiriaf ddod o hyd i feistr, ni chânt eu derbyn ar y cwrs. O ganlyniad, pe ceir mwy o ymgeiswyr na'r nifer o feistri sydd ar gael, rhoddir rhwydd hynt i fyfyrwyr gwannach eu gallu i ymuno â'r cwrs am fod ganddynt gysylltiadau gwell. Tanseilia hyn y cysyniad o deilyngdod, a cheir perygl amlwg o arferion megis neigarwch (*nepotism*). Fel yr eglura Hewitt:

> Even in 2008/9 some students who had won places were unable to take them up because they could not find masters willing to take them on (presumably because of the economic situation) and the places were subsequently taken up by others who somehow managed to do so. It would be a great pity if only those with advantageous family or other connections in the profession were able to take up places offered to them at the IPLS or the GSPLE, and even more unfortunate if able people who had taken degrees and completed their postgraduate professional training were unable to find employment.[80]

Lleisiwyd gofidiau tebyg gan sawl un o'r cynrychiolwyr, ac awgrymodd cynrychiolydd y SACP fod yn rhaid iddynt addysgu myfyrwyr o alluoedd mwy amrywiol na'r hyn a welwyd yn y gorffennol.[81] Fodd bynnag, rhaid cydnabod y derbynnir myfyrwyr o alluoedd tra amrywiol ar y cyrsiau proffesiynol yng Nghymru a Lloegr, a bod y perygl o neigarwch yr un mor amlwg. Y gwahaniaeth pennaf, wrth gwrs, yw y byddai'r myfyrwyr sy'n methu â chael disgybledd na chytundeb hyfforddi wedi paratoi gogyfer

---

78 Government of Education for Northern Ireland (1985), *Report of the Committee on Professional Legal Education in Northern Ireland* (Belfast: Department of Education for Northern Ireland). Cadeiriwyd y pwyllgor gan yr Athro P.M. Bromley o Brifysgol Manceinion. Gweler t. 3 o'r adroddiad: 'Experience has shown that training at an institute cannot replace training on the job … we believe that it is of the utmost importance that training at an institute and training in practice should be more closely integrated.'

79 Ar gyfer gofynion y Cwrs Ymarfer Cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr, gweler: www.sra.org.uk/documents/students/student-enrolment/beforeyoustart.pdf (Cyrchwyd: 20 Chwefror 2013).

80 Hewitt, *The Law Society of Northern Ireland: A History*, t. 79.

81 Cyfweliad gyda'r awduron, Belffast, Mai 2012.

â chymhwyster nad yw'n arwain at unrhyw beth. Ar y sail hon, fe ellir gweld model Gogledd Iwerddon, er gwaethaf ei phroblemau, fel model gwell.[82]

Yn dilyn darganfyddiadau'r Adolygiad ar Addysg a Hyfforddiant Cyfreithiol fel y nodwyd uchod, byddai awgrymu'r angen am gyrsiau cymhwyso proffesiynol ar wahân pe sefydlid awdurdodaeth Gymreig yn ymddangos braidd yn radical – os nad yn afrealistig – yn arbennig wrth ystyried y tebygrwydd rhwng cyfreithiau Cymru a Lloegr. I'r perwyl hwn, hwyrach y byddai'n well mynnu rhyw fath o gymhwyster ychwanegol ar gyfer y rhai sy'n bwriadu ymarfer yng Nghymru.[83] Wedi dweud hynny, nid yw'r syniad o gymhwyster ar wahân ynghlwm â chyfreithiau ar wahân; mae'r gyfraith yng Ngogledd Iwerddon yn debyg iawn o ran sylwedd, ond er hynny, mae'r cyrsiau a gynhelir gan y SACP a'r YRAGB yn wahanol iawn i'r rhai a gynigir gan y darparwyr amrywiol yng Nghymru a Lloegr. Ar y sail hon, gellir awgrymu y dylid seilio system dda o gymhwyso proffesiynol ar ddarparu addysg o'r safon uchaf posibl, yn ogystal ag ateb anghenion yr awdurdodaeth. Yn ôl pob golwg, dyma'r sefyllfa yng Ngogledd Iwerddon, a thrwy'r ymchwil a wnaed, darganfuwyd ymdeimlad clir bod cysylltiadau cryf rhwng cwrs y SACP a'r cyrff academaidd a phroffesiynol. O ganlyniad, awgrymir – pe sefydlid awdurdodaeth Gymreig – y dylid cynnal adolygiad er mwyn darganfod a fyddai modd cynnig system fwy effeithiol na'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd. O ran hynny, ac yn yr un modd â'r GSG, gellir cynnig Gogledd Iwerddon fel model o arfer da.

**Trosglwyddo Cymwysterau**

Pe sefydlid system wahanol o gymwysterau, byddai'n angenrheidiol i ystyried a ellid trosglwyddo'r cymwysterau hynny rhwng Cymru a Lloegr, yn ogystal ag awdurdodaethau eraill fel Gogledd Iwerddon. Roedd aelodau Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn amrywiol eu barn ynghylch a ddylid gosod gofynion ychwanegol.[84] Gellir gwneud cymhariaeth â Gogledd Iwerddon, lle gall cyfreithwyr o Gymru a Lloegr ymarfer heb gyfyngiadau. Fodd bynnag, ers yn ddiweddar, mae'n rhaid i gyfreithwyr sy'n symud i Gymru a Lloegr sefyll arholiadau a chyflawni materion gweinyddol eraill o dan y Cynllun Trosglwyddo Cyfreithwyr Cymwys.[85] Mae hyn yn anodd ei gyfiawnhau, a bu iddo ennyn llawer o feirniadaeth.

82 Mae'n werth nodi i gwmnïau allu osgoi'r feritocratiaeth (*meritocracy*) yn sgil y nifer cyfyngedig yn y SACP cyn y dirywiad economaidd drwy sicrhau y'u cydnabyddir fel darparwyr cytundebau hyfforddi o dan system Cymru a Lloegr, a olygai bod myfyrwyr sy'n methu sicrhau lle ar gwrs y SACP yn gallu dilyn y Cwrs Ymarfer Cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr, cyn mynd ymlaen i gymhwyso ac ymarfer yng Ngogledd Iwerddon.

83 Gwnaed awgrym o'r fath gan Bwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Gweler Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol (2012), *Ymchwiliad i Awdurdodaeth ar wahân i Gymru*, paragraff 89: 'Rydym yn nodi barn y tystion ac yn credu'n gryf na ddylai creu awdurdodaeth ar wahân yn y dyfodol osod rhwystrau ychwanegol i ymarferwyr cyfreithiol yng Nghymru. Fodd bynnag, credwn y dylai hyfforddiant cyfreithiol gael ei ddatblygu ymhellach pe bai awdurdodaeth ar wahân yn cael ei datblygu er mwyn adlewyrchu'n well draddodiadau cyfreithiol Cymru a'i hunaniaeth gyfreithiol newydd. Yn benodol, efallai y byddai sefydlu cymhwyster ychwanegol ym maes cyfraith Cymru i'w weld fel rhywbeth dymunol.'

84 Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Gweler Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Ymchwiliad i Awdurdodaeth ar wahân i Gymru*, paragraffau 84-7.

85 Gweler: www.sra.org.uk/solicitors/qlts/key-features.page (Cyrchwyd: 20 Chwefror 2013).

Gellid dadlau y byddai'n annoeth gosod gormod o rwystrau i ymarferwyr sy'n symud i Gymru o Loegr. Yn wir, gall profiad ymarferwyr sydd wedi gweithio mewn awdurdodaethau eraill fod yn fuddiol. Fel y dywedodd cynrychiolydd Cymdeithas y Gyfraith, Gogledd Iwerddon, '*We will get solicitors coming back who have worked say in the city or who have had experience that you wouldn't otherwise get here, so it's a great asset to our firms to have people coming from that jurisdiction back in.*'[86] Er mwyn cael cydbwysedd, gobeithir y bydd cyrff rheoli Lloegr yn ystyried y mater yn yr un modd, yn arbennig yng ngolau natur y ffin rhwng y ddwy wlad, ynghyd â dymuniad tebygol ymarferwyr i groesi'r ffin honno.

**Datblygiad Proffesiynol Parhaus**

Gellir rhagdybio y byddai unrhyw newid i gymwysterau'n effeithio ar gyfreithwyr newydd yn unig, yn ogystal â chyfreithwyr o Gymru, neu gyfreithwyr sy'n symud i Gymru. Mae angen sicrhau bod y cyfreithwyr sy'n ymarfer yng Nghymru ar hyn o bryd yn ymwybodol o'r gwahaniaethau rhwng cyfreithiau Cymru a chyfreithiau Lloegr, sydd yr un mor berthnasol ar hyn o bryd ag y buasai pe sefydlid awdurdodaeth ar wahân. O ran hynny, ceir rhinwedd i awgrym a wnaed gan yr Adolygiad Addysg a Hyfforddiant Cyfreithiol:

> The detail and the practical implications for practice in Wales might then be most usefully focused at CPD level. Whether this CPD level activity would operate on the basis of trust and professional integrity (passive competence) or as formal certification or as licensure (active competence) is a matter for regulatory and risk-based assessment. One might envisage, for example, a certification regime in the current stages when divergence is comparatively small and confined to specialist areas, becoming a licensure regime in the future if divergence becomes more complete.[87]

Yn debyg i GSG yng Ngogledd Iwerddon, byddai hyn yn swyddogaeth allweddol i gorff Cymreig gyfatebol, a fyddai'n gallu gweithio gydag ymarferwyr Cymreig arbenigol ac academyddion i ddarparu hyfforddiant o safon uchel.

**Casgliad**

Trafodwyd yr effeithiau posib ar addysg gyfreithiol yng Nghymru pe sefydlid Cymru fel awdurdodaeth ar wahân, trwy ddefnyddio Gogledd Iwerddon fel sail i gymhariaeth lle oedd hynny'n briodol. O edrych ar Ogledd Iwerddon, mae'n glir y ceir manteision ynghyd â heriau wrth ddarparu addysg gyfreithiol mewn awdurdodaeth fechan. O ran heriau, y prif broblem yw prinder deunyddiau, ynghyd â materion eraill fel trosglwyddo cymwysterau o un rhan o'r Deyrnas Unedig i'r llall. O ran y manteision, llwyddodd Gogledd Iwerddon i ddatblygu darpariaeth sy'n arbennig o effeithiol ar gyfer hyfforddiant galwedigaethol ac ar gyfer darparu adnoddau, yn enwedig y GSG. Heb amheuaeth, mae'r ffaith ei bod yn awdurdodaeth fechan wedi cynorthwyo gyda'r mentrau hyn. Awgrymir y dylid ystyried dau brif fater mewn perthynas ag addysg

[86] Cyfweliad gyda'r awduron, Belffast, Mai 2012.

[87] *Research update 12/02, Workforce development progress and headline findings from stage 3 of the LETR research*, paragraff 56.

gyfreithiol yng Nghymru. Yn gyntaf, mae angen ymdrin â'r gwahaniaethau a ddaw yn sgil datganoli o dan y gyfundrefn bresennol. Gyda hynny mewn golwg, awgrymir y dylai pawb sy'n ymwneud ag addysg gyfreithiol sicrhau yr hyrwyddir yr holl gyfreithiau perthnasol yn awdurdodaeth Cymru a Lloegr, ynghyd â'u haddysgu'n gywir. Ar lefel fwy cyffredinol, mae'n glir bod angen sefydliad tebyg i'r GSG yng Ngogledd Iwerddon, ynghyd â darpariaeth cyfrwng Cymraeg bellach yng Nghymru. Mae'r ail fater yn ymwneud â'r canlyniadau posibl pe deuai Cymru'n awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân. Dylid gwerthfawrogi dull dadlennol Gogledd Iwerddon yn wyneb yr angen i gynnal cysondeb presennol y radd gymhwysol yn y gyfraith, ond dylid ystyried datblygu hyfforddiant galwedigaethol a gynlluniwyd yn arbennig ar gyfer ymarfer yng Nghymru yn unol â'r system sydd eisoes yn bodoli yng Ngogledd Iwerddon. Pe digwyddai hynny, dylid sicrhau hefyd na osodid rhwystrau i'r cyfreithwyr hynny o Gymru sy'n dymuno ymarfer yn Lloegr, nac ychwaith i gyfreithwyr o awdurdodaethau eraill sy'n dymuno ymarfer yng Nghymru. Hwyrach mai'r brif neges o ran addysg gyfreithiol yw'r angen i osod strwythurau priodol er mwyn ymateb i'r datblygiadau a ddigwyddodd yng Nghymru yn sgil datganoli, yn ogystal â chynllunio ar gyfer datblygiadau arfaethedig y dyfodol. O ystyried yr agweddau negyddol a ddangoswyd yn yr Adolygiad Addysg a Hyfforddiant Cyfreithiol yn enwedig, hawdd fyddai gwneud dim a gadael i bethau ddatblygu ar hap. Serch hynny, er mwyn i gyfraith Cymru ddatblygu'n llwyddiannus, yn enwedig os eir ati i greu awdurdodaeth Gymreig ar wahân, ceir angen am drafodaeth ynghylch pa ddatblygiadau y mae galw amdanynt. Gyda hynny mewn golwg, gobeithir y gellir dysgu oddi wrth brofiadau Gogledd Iwerddon, fel yr amlinellwyd yn yr erthygl hon, wrth symud y drafodaeth yn ei blaen.

**Llyfryddiaeth**


*Adroddiad Comisiwn Richard* (2004), http://www.comisiwnrichard.gov.uk/content/finalreport/report-w.pdf (Cyrchwyd: 20 Chwefror 2013).

Aughey, A., Bort, E. ac Osmond, J. (2011), *Unique Paths to Devolution: Wales, Scotland and Northern Ireland* (Cardiff: Institute of Welsh Affairs).

Bogdanor, V. (1999), *Devolution in the United Kingdom* (Oxford: Oxford University Press).

Burton, Frances (2012), *Family Law* (London: Routledge).

Bush, Keith (2004), 'The Planning and Compulsory Purchase Act 2004 – A Case Study in Post-Devolution Primary Legislation in Wales', *Cylchgrawn Cyfraith a Pholisi Cymru*, 3, 238-50.

Comisiwn y Gyfraith Gogledd Iwerddon (NILC 8, 2010), *Adroddiad ynglŷn â chyfraith tir*, www.nilawcommission.gov.uk/land_law_report_nilc_8__2010_.pdf (Cyrchwyd: 20 Chwefror 2013).

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol (2012), *Ymchwiliad i Awdurdodaeth ar wahân i Gymru* (Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru).

Cynulliad Cyffredinol y Cenedloedd Unedig (1989), *Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, 20 Tachwedd 1989*, Cenhedloedd Unedig, Cyfres Cytundebau, cyf. 1577, t. 3.

Davies, Iwan (2001), 'Adroddiad Seminar: Yr Iaith Gymraeg a'r Broses Gyfreithiol yng Nghymru', *Cylchgrawn Cyfraith Cymru*, 1, 9-20.

Deddf Buddsoddiad Ymddiriedolwyr ac Elusennau (Yr Alban) 2005 (2005, asp 10).

Deddf Comisiynydd Plant Cymru 2001 (2001, pennod 18).

Deddf Elusennau (Gogledd Iwerddon) 2008 (2008, pennod 12).

Deddf Llywodraeth Cymru 1998 (1998, pennod 38).

Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (2006, pennod 32).

Deddf Plant 2004 (2004, pennod 31).

Deddf Safonau Gofal 2000 (2000, pennod 14).

Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 (1993, pennod 38).

Dixon, D. (2012), *Entry to the Solicitor's Profession 1980-2011* (Cymdeithas y Cyfreithwyr), http://www.lawsociety.org.uk/careers/becoming-a-solicitor/entry-trends/ (Cyrchwyd: 20 Chwefror 2013).

East, R. (2005), 'Legal Education in Wales: Opportunities and Challenges', http://www.ukcle.ac.uk/resources/directions/previous/issue10/wales/ (Cyrchwyd: 20 Chwefror 2013).

Government of Northern Ireland (1973), *Report of the Committee on Legal Education in Northern Ireland* (Cmd.579: H.M. Belfast: Stationary Office).

Government of Education for Northern Ireland (1985), *Report of the Committee on Professional Legal Education in Northern Ireland* (Belfast: Department of Education for Northern Ireland).

Griffiths, Aled, Aaron, Carys, a Manley, Jennifer (2012), 'Measuring a Measure: Much Ado About £50 a Week?', *Statute Law Review*, 33, 281-303.

Hewitt, Alan (2010), *The Law Society of Northern Ireland: A History* (Belfast: The Law Society of Northern Ireland).

Hughes, Dylan a Davies, Huw (2012), 'Deddfwriaeth Hygyrch a Dwyieithog i Gymru (Accessible Bilingual Legislation for Wales)', *Statute Law Review*, 33, 122-30.

Huws, Catrin (2012), 'The Language of Education Law in England and/or Wales', *Statute Law Review*, 33, 252-80.

Jones, Dewi Llŷr, Prys, Delyth, a Davies, Owain Lloyd (goln) (2008), *Geiriadur Termau'r Gyfraith* (Bangor: Prifysgol Bangor)

Jones, Timothy a Williams, Jane (2004), 'Wales as a Jurisdiction', *Public Law*, 1, 78-101.

Jones, Timothy a Williams, Jane (2005), 'Cymru fel Awdurdodaeth', *Cylchgrawn Cyfraith a Pholisi Cymru*, 4, 33-53.

Leighton, Patricia (2003), 'Is the Legal Education System in Wales Measuring Up to Contemporary Challenges? Some Research Evidence from the MaLEW Project 2003', *Cylchgrawn Cyfraith Cymru*, 2 (4), 386-90.

Lewis, Robyn (ail argraffiad, 2003), *Geiriadur Newydd y Gyfraith* (Llandysul: Gwasg Gomer).

Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 (2011, mccc 2).

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (2011, mccc 1).

Melding, David (2012), 'Editorial', *Statute Law Review*, 33, 97-102.

Miers, David (2012), *Law Making in Wales: A Measure of Devolution*, http://www.studyofparliament.org.uk/spg-paper-2.pdf (Cyrchwyd: 20 Chwefror 2013).

Northern Ireland Assembly (2012), *Criminal Justice Bill: Explanatory and Financial Memorandum*, www.niassembly.gov.uk/Documents/Legislation/Bills/Executive%20Bills/Session-2011-12/niabill-10-11-15-efm.pdf (Cyrchwyd: 20 Chwefror 2013).

Northern Ireland Assembly (2012), *Charities Bill: Explanatory and Financial Memorandum*,

www.niassembly.gov.uk/Documents/Legislation/Bills/Executive%20Bills/Session-2011-12/Charities_EFM%20-%20As%20Introduced.pdf (Cyrchwyd: 20 Chwefror 2013).

Owen, Richard (2010), 'The Government of Wales Act 2006: The Challenges for Legal Education', www.ukcle.ac.uk/resources/nations/wales/wales/ (Cyrchwyd: 20 Chwefror 2013).

Parry, R. Gwynedd (2002), 'Hyrwyddo'r Gymraeg ym Myd y Gyfraith: Beth yw Cyfraniad Adrannau Cyfraith y Brifysgol?', *Cylchgrawn Cyfraith Cymru*, 1, 388-95.

Parry, R. Gwynedd (2012), *Cymru'r Gyfraith: Sylwadau ar Hunaniaeth Gyfreithiol* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).

Parry, R. Gwynedd (2012), *Evidence to the National Assembly for Wales Constitutional and Legislative Affairs Committee, Inquiry into a Separate Welsh Jurisdiction* (Cardiff: National Assembly for Wales).

*Research update 12/02, Workforce development progress and headline findings from stage 3 of the LETR research*, www.letr.org.uk/wp-content/uploads/2012/11/headline-findings2-31102012.pdf (Cyrchwyd: 20 Chwefror 2013).

Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Coleri Electronig) (Cymru) 2010 (2010, Cy. 97).

Watkin, Thomas (2012), *The Legal History of Wales* (Cardiff: University of Wales Press).

Wild, Charles a Weinstein, Stuart (2010), *Smith and Keenan's English Law* (Harlow: Pearson).

Wylie, John (1997), *Irish Land Law* (Dublin: Bloomsbury Professional).

Wylie, John (2010), *Irish Land Law* (Dublin: Bloomsbury Professional).

Williams, Jane (2013), *The United Nations Convention on the Rights of the Child in Wales* (Cardiff: University of Wales Press).

Rhys ap Gwent

# Cynllun Llywodraeth Cymru i gyflwyno system caniatâd tybiedig ar gyfer rhoi organau

Gwerddon
CYFNODOLYN ACADEMAIDD CYMRAEG
Golygydd **Yr Athro Ioan Williams**

# Cynllun Llywodraeth Cymru i gyflwyno system caniatâd tybiedig ar gyfer rhoi organau

*Rhys ap Gwent*

### Cefndir

Yng Nghymru bu trafodaeth ers nifer o flynyddoedd ynghylch cyflwyno cynllun caniatâd tybiedig (*presumed consent*) ar gyfer rhoi organau. Yn fras, yn ôl y cynllun hwn, os na fydd oedolion yng Nghymru'n mynegi eu gwrthwynebiad i roi eu horganau ar ôl iddynt farw, bydd yr awdurdodau'n tybio i'r oedolion hynny roi eu caniatâd. Yn ôl y drefn bresennol, rhoddir cyfrifoldeb ar yr unigolyn i gofrestru fel rhoddwr, ond pan weithredir y cynllun newydd hwn, bydd yr unigolyn yn gyfrifol am ddatgofrestru.

Cyflwynwyd Papur Gwyn gan Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2011. Pwrpas y ddogfen hon oedd amlinellu'r cynllun, dechrau cyfnod ymgynghori, a gwahodd pobl i fynegi barn. Ym mis Mehefin 2012, cyhoeddwyd y Mesur drafft, ac ar 3 Rhagfyr 2012, rhoddwyd Mesur o'r enw Bil Trawsblannu Dynol (Cymru)[1] gerbron y Senedd. Ym mis Mai 2013, cyflwynwyd nifer o ddiwygiadau i'r Mesur, ac ar 2 Gorffennaf 2013, pasiwyd y Mesur gan y Senedd. Cefnogwyd y Mesur gan 43 allan o 60 aelod y Cynulliad, pleidleisiodd wyth yn ei erbyn ac ymataliodd dau ohonynt. Gweithredir y cynllun yn 2015.

Er mwyn troi Mesur yn ddeddf, ceir nifer o gamau i'r broses ddeddfu. Bu'r broses o greu cyfraith newydd er mwyn gweithredu'r cynllun hwn yn un hir a chymhleth. Eir ati yn yr erthygl hon i wneud gwerthusiad cyfreithiol o egwyddorion y cynllun, yn hytrach na thrafod y broses wleidyddol, ddeddfwriaethol.

### Pwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Mae'r broses o drosglwyddo pwerau o Lywodraeth San Steffan i Gymru, a ffurfio Llywodraeth yng Nghaerdydd, wedi bod yn un raddol. Dros amser, cyfrannodd nifer o elfennau at ddatblygu'r Cynulliad a Llywodraeth Cymru i'w sefyllfa bresennol. Er y bu Cymru'n wlad annibynnol ganrifoedd yn ôl, mae hanes cyfoes datganoli pwerau i Gymru'n dechrau gyda Refferendwm 1997. O ganlyniad i'r mwyafrif o bleidleisiau o blaid creu Cynulliad i Gymru yn y refferendwm hon, pasiodd Llywodraeth San Steffan Ddeddf Llywodraeth Cymru ym 1998,[2] a arweiniodd at sefydlu'r Cynulliad. Yn 2006, pasiwyd Deddf Llywodraeth Cymru, ac mae Atodlen 7 i'r Ddeddf hon yn amlinellu ugain maes lle rhoddir hawl i'r Cynulliad ddeddfu.

Mae iechyd yn un o'r meysydd a amlinellir yn Atodlen 7 Deddf Llywodraeth Cymru 2006.[3] Mae gan y Cynulliad, felly, yr hawl i basio cyfreithiau newydd yng Nghymru sy'n

---

[1] Bil Trawsblannu Dynol (Cymru) 2012-13.
[2] Deddf Llywodraeth Cymru 1998.
[3] Deddf Llywodraeth Cymru 2006, Atodlen 7, paragraff 9.

berthnasol i faes iechyd a gwasanaethau iechyd. Mae'n bwysig nodi, serch hynny, y ceir sawl eithriad; er enghraifft, ni chaiff y Cynulliad wneud unrhyw benderfyniad ynglŷn ag erthyliad na chamddefnyddio cyffuriau.

Er mwyn creu cyfraith yng Nghymru cyn Refferendwm mis Mawrth 2011, roedd angen i'r Cynulliad ofyn am ganiatâd San Steffan ar ffurf gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol.[4] Yn dilyn canlyniad y refferendwm, a oedd o blaid cynyddu pwerau'r Cynulliad, dywedodd Edwina Hart AC, gan gyfeirio at Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006,[5] fod gan y Cynulliad bellach yr hawl i ddeddfu'n annibynnol oddi wrth Lywodraeth San Steffan ynglŷn â rhoi organau.

**Sefyllfa Cleifion yng Nghymru**

Erbyn diwedd mis Mawrth 2011, roedd 7800 o gleifion wedi cofrestru am drawsblaniad yn y Deyrnas Unedig.[6] Yn ystod y cyfnod 2010/11, bu farw 511 o gleifion wrth aros. Mae'n debyg fod y gwir nifer yn uwch na hyn, yn nes at 1000, gan y tynnwyd nifer o gleifion oddi ar y rhestr am eu bod yn rhy sâl i dderbyn llawdriniaeth. Yn ôl y Cyn-weinidog Iechyd, Lesley Griffiths, bu farw 37 o bobl yng Nghymru wrth iddynt aros am drawsblaniad yn ystod cyfnod 2011/12.

Tra bod nifer fawr o gleifion yn dal i aros am drawsblaniad, mae nifer yr organau sydd ar gael wedi cynyddu dros y ddeng mlynedd ddiwethaf o ganlyniad i ymgyrchu a mwy o ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd. Rhwng cyfnod 2007/08 a 2010/11, nododd yr Awdurdod Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG gynnydd o 25 y cant yn nifer yr organau oddi wrth roddwyr marw. Mae'r awdurdod hwn hefyd yn rhagweld, yn sgil gwaith ymgyrchu'r Tasglu Rhoi Organau (*Organ Donation Taskforce*), y bydd nifer yr organau sydd ar gael yn cynyddu o 50 y cant o fewn 5 mlynedd.[7] Er gwaethaf y cynnydd hwn, mae prinder yn parhau, ac yn ôl adroddiad gan Gyngor Ewrop,[8] mae'r Deyrnas Unedig yn parhau i fod yn un o'r gwledydd sydd â'r ganran isaf o roddwyr yn Ewrop. Mae nifer o ffactorau personol yn effeithio ar agwedd unigolion wrth iddynt ystyried cofrestru fel rhoddwyr organau, gan gynnwys crefydd, cyfoeth, addysg, a chredoau cymdeithasol. Mae ffactorau mwy cyffredinol fel deddfwriaeth, yr amodau o fewn ysbytai, a diogelwch ar y ffyrdd hefyd yn dylanwadu'n gryf iawn. O ganlyniad, ceir trafodaethau cyson ynglŷn â sut i wella'r drefn bresennol.

**Y Gyfraith Bresennol**

Ar hyn o bryd, mae'r gyfraith mewn perthynas â rhoi a thrawsblannu organau'r sawl a fu farw wedi'i hamlinellu yn Neddf Meinweoedd Dynol 2004.[9] Pasiwyd y Ddeddf hon yn dilyn sgandal yn Ysbyty Alder Hey.[10]

---

4 Webley, L. a Samuels H. (2009), *Complete Public Law* (Oxford: Oxford University Press).
5 Deddf Llywodraeth Cymru 2006.
6 NHS Blood and Transplant (2011), *Transplant Activity in the UK. Activity Report 2010/11* (Bristol, NHSBT), t.1.
7 NHS Blood and Transplant (26 Ionawr 2012), *Achieving the 50% increase in organ donation* (Bristol, NHSBT).
8 Council of Europe (2011), 'Newsletter. Transplant 2011' (Strasbourg, Council of Europe), t. 4.
9 Deddf Meinweoedd Dynol 2004.
10 Jackson, E. (2009, 2ail argraffiad 2010), *Medical Law: Text, Cases and Materials* (Oxford: Oxford University Press).

Mae Adran 1 (1) (c) y Ddeddf Meinweoedd Dynol (trwy gyfeirio at Atodlen 1, paragraff 7) yn rhoi'r hawl i organau dynol gael eu tynnu o gorff marw a'u trawsblannu.

Mae Adran 1 (1) y Ddeddf hon yn datgan bod angen caniatâd priodol (*appropriate consent*) cyn y gellir tynnu organ o gorff i'w drawsblannu. Rhoddir esboniad i 'ganiatâd priodol gan oedolyn' yn Adran 3. Mae caniatâd priodol gan unigolyn byw gyfystyr â chaniatâd cyffredinol yn y cyd-destun meddygol. Yn ôl y drefn bresennol, ceir tri modd i brofi caniatâd priodol i drawsblannu organau oddi wrth y sawl sydd wedi marw:–

1) Mae'r caniatâd yn ddilys os rhoddodd yr ymadawedig ganiatâd ysgrifenedig sy'n gyson â gofynion Adran 3 (5) y Ddeddf;

2) Mae'r caniatâd yn ddilys os y'i rhoddir gan unigolyn a benodwyd gan yr ymadawedig cyn iddo farw;

3) Mae'r caniatâd yn ddilys os y'i rhoddir gan unigolyn sy'n berthynas i'r ymadawedig. Mae Adran 27 (4) yn rhoi rhestr o berthnasau sydd â'r hawl i fod yn rhan o'r drafodaeth ynghylch rhoi caniatâd i gymryd organau'r sawl a fu farw. Mae'r rhestr hefyd yn gosod gwahanol berthnasau yn eu trefn yn ôl pwysigrwydd eu barn, gyda gŵr neu wraig ar frig y rhestr a ffrind agos ar y gwaelod.

Esbonia Adran 54 (1) y Ddeddf mai ystyr 'oedolyn' yw unigolyn sy'n hŷn na 18 oed. Mae Adran 2 yn esbonio sut y gall plant fynegi eu caniatâd i'w horganau gael eu defnyddio ar ôl iddynt farw, ac yn ôl y gyfraith, gall plentyn fynegi ei fwriad yn ysgrifenedig. Nid yw'n fwriad yn y cynllun newydd i newid y gyfraith mewn perthynas â phlant, felly ni thrafodir Adran 2 Deddf 2004 ymhellach yn yr erthygl hon.

Yn ôl Adran 5 y Ddeddf, mae unigolyn yn cyflawni trosedd os yw'n tynnu organ o gorff heb y math o ganiatâd a ddisgrifiwyd yn Adran 3 Deddf Meinweoedd Dynol 2004.

Yn ogystal â'r math o ganiatâd a ddisgrifir yn Adran 3 y Ddeddf, rhoddir dewis i bobl ymuno â'r Gofrestr Rhoddwyr Organau. Cronfa genedlaethol, gyfrinachol yw'r gofrestr hon, sydd ar gael i feddygon gyfeirio ati ar fyr rybudd pan fo angen. Gall unigolion ymuno â'r gofrestr mewn nifer o wahanol ffyrdd. Gallant gofrestru gyda'u meddyg teulu, neu'n uniongyrchol trwy lythyr neu ar y we. Rhoddir cyfle i gofrestru wrth wneud cais am drwydded yrru, cerdyn yswiriant Ewropeaidd neu gerdyn mantais Boots. Mae 67 y cant o'r bobl sy'n rhoddwyr organau ar ôl iddynt farw yn bobl a ddewisodd gofrestru.

Pan fydd unigolyn yn marw heb gofrestru, a phan na roddir caniatâd gan y teulu na chan gynrychiolydd penodedig, ni roddir hawl i'r meddyg ddefnyddio organau'r unigolyn hwnnw.

**Beth yw'r Gyfraith Newydd?**

Bwriad y gyfraith newydd hon yw cynyddu nifer yr organau sydd ar gael, drwy ehangu ar y nifer o sefyllfaoedd lle gellir profi caniatâd y rhoddwr. Mae'r cysyniad o ganiatâd tybiedig ar gyfer rhoi organau yn un a drafodwyd ledled y byd ers nifer o flynyddoedd. Mae sawl gwlad yn Ewrop yn gweithredu cynllun o'r math hwn. Ar 8 Tachwedd 2011,

cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Bapur Gwyn[11] fel dogfen ymgynghori ynglŷn â'i bwriad i newid y drefn bresennol. Ar 3 Rhagfyr 2012, cyflwynwyd Bil Trawsblannu Dynol (Cymru) gerbron y Senedd, ac yn dilyn cyfnod o ymgynghori a nifer o ddiwygiadau, pasiwyd y Mesur ar 2 Gorffennaf 2013. Yn ôl y gyfraith newydd, cyflwynir system newydd yn 2015 lle cofrestrir pob unigolyn heb ymgynghoriad, yn hytrach na rhoi'r cyfle i'r unigolyn gofrestru o'i wirfodd. O ganlyniad, bydd caniatâd yr unigolyn i'w organau gael eu defnyddio yn cael ei dybio. Os nad yw'n dymuno bod yn rhoddwr, bydd yn ddyletswydd ar yr unigolyn i ddatgofrestru. Mae'r rhai sy'n gefnogol i'r cynllun yn dadlau bod y dewis a'r hawl i benderfynu'n aros yr un fath, ond bod y cwestiwn a ystyrir gan yr unigolyn yn newid. Bydd y cwestiwn damcaniaethol yn newid o fod yn gwestiwn cadarnhaol i fod yn gwestiwn negyddol. Yn hytrach na gofyn, 'a hoffech roi caniatâd i'r wladwriaeth drawsblannu eich organau ar ôl i chi farw?', y cwestiwn damcaniaethol fydd, 'a fyddai'n well gennych beidio â rhoi caniatâd i'r wladwriaeth drawsblannu eich organau ar ôl i chi farw?'

Bydd y drefn newydd yn effeithio ar bobl dros 18 oed a fydd yn derbyn cyfle i fynegi eu gwrthwynebiad. Ni fydd plant sy'n iau na 18 oed yn cael eu cynnwys yn y cynllun. Er mwyn sicrhau bod gan bawb gyfle i wrthwynebu, bydd dyletswydd ar yr awdurdodau i gynnig gwybodaeth a manylion llawn mewn modd hygyrch i bawb. Yn ogystal, disgwylir i'r wybodaeth fod yn ddealladwy, a bydd angen trefniant swyddogol clir i alluogi pobl i'w heithrio eu hunain o'r cynllun.

Ni fydd pobl sy'n byw y tu allan i Gymru, ond sy'n marw yma, yn cael eu cynnwys yn y system newydd. Bydd y cynllun yn berthnasol yn unig i'r rheiny a fu'n byw yng Nghymru'n ddigon hir i fod yn ymwybodol o'r cynllun, ac a gafodd ddigon o gyfle i fynegi eu gwrthwynebiad. Os nad oes modd adnabod y sawl a fu farw, ni fydd caniatâd yn cael ei dybio.

Sefydlir ymgyrch o godi ymwybyddiaeth ymhell cyn newid y gyfraith, a rhoddir hawl i bob un newid ei feddwl ar unrhyw adeg. Mae'r Papur Gwyn, drwy gyfeirio at Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005,[12] yn cydnabod ei bod hi'n anodd gwneud rhaniad syml rhwng y rhai sydd â'r gallu meddyliol i wneud penderfyniad o'r fath, a'r rhai nad oes ganddynt y gallu hwnnw. Pan fydd amheuaeth ynghylch gallu meddyliol y sawl sydd newydd farw, bwriedir y bydd meddygon a theulu'r unigolyn hwnnw'n cynnal trafodaeth er mwyn penderfynu a ddylid rhoi caniatâd i gymryd yr organau ai peidio.

Bydd y Gofrestr Rhoddwyr Organau yn parhau i fod yn weithredol yng Nghymru, a hynny er mwyn parchu dymuniad y rheiny na chânt eu cynnwys dan y drefn newydd; pobl o Gymru sy'n marw y tu allan i Gymru, ynghyd â phobl o'r tu allan i Gymru sy'n marw yma yng Nghymru.

Un o elfennau pwysicaf y drafodaeth yw pa ddylanwad fydd gan deulu'r ymadawedig ar benderfyniad y meddygon i ddefnyddio'i organau. Mae'r Papur Gwyn yn rhoi mwy o fanylion ar y mater hwn na'r hyn a geir yn y Mesur (Bil Trawsblannu Dynol (Cymru))

---

11 http://wales.gov.uk/consultations/healthsocialcare/organ/?lang=cy (Cyrchwyd: 20 Tachwedd 2011).

12 Deddf Galluedd Meddyliol 2005.

fel y'i cyflwynwyd. Roedd hi'n glir wrth ddarllen y Mesur gwreiddiol y cawsai teulu'r ymadawedig fod yn rhan o drafodaeth gyda'r meddygon cyn y gwneid penderfyniad i ddefnyddio'r organau, ond nid amlinellwyd union natur eu trafodaeth. Yr enw ar y math o gynllun sy'n ystyried dymuniadau'r teulu yw cynllun caniatâd tybiedig 'meddal' (*soft opt-out*). Mae'r Papur Gwyn yn cyfeirio at Adran 27 (4) Deddf Meinweoedd Dynol 2004 ac yn gosod perthnasau'r ymadawedig yn y drefn y dylai'r meddyg ymgynghori â hwy. Er enghraifft, yn ôl y rhestr hon, dylai'r meddyg ymgynghori â gŵr/gwraig/partner yr ymadawedig yn gyntaf, a ffrind agos (ers blynyddoedd) yn olaf. Roedd y Mesur gwreiddiol yn defnyddio yr un rhestr yn union o bobl (perthnasau a chydnabod yr ymadawedig) â Deddf Meinweoedd Dynol 2004, ond ni roddai flaenoriaeth i un berthynas dros y llall. Yr oedd ansicrwydd, fodd bynnag, ynghylch pwy a wnâi'r penderfyniad terfynol; y perthnasau, ynteu'r meddyg ar sail y wybodaeth a gawsai gan berthnasau'r ymadawedig. Er y cyflwynwyd llai o wybodaeth am natur cyfraniad y teulu yn y Mesur gwreiddiol, roedd Cymal 4 (4) (b) yn dweud na ddylid tybio caniatâd pe darperid gwybodaeth gan unigolyn – a oedd mewn perthynas ddilys â'r ymadawedig yn union cyn ei farwolaeth – a fyddai'n arwain unigolyn rhesymol at y casgliad na fyddai'r ymadawedig wedi cydsynio. Awgrymai hyn mai rhoi gwybodaeth i'r meddyg, yn hytrach na gwneud penderfyniad, yw dyletswydd y teulu. Roedd angen felly am fwy o eglurhad ynghylch union natur mewnbwn teulu'r ymadawedig. Dyma oedd prif gasgliad Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Cynulliad.

Er mwyn cadarnhau'r sefyllfa, cyflwynwyd diwygiad i Gymal 4 (4) y Mesur ym mis Mai 2013. Dyma eiriad terfynol Cymal 4 (4) fel y'i pasiwyd, sy'n diffinio'r amgylchiadau lle na bo'r caniatâd tybiedig yn ddilys, o ganlyniad i wrthwynebiad teulu neu gyfaill yr ymadawedig:

> '(a) os yw perthynas neu gyfaill ers amser maith i'r ymadawedig yn gwrthwynebu ar sail barn yr ymadawedig, a
>
> (b) phe deuai unigolyn rhesymol i'r casgliad bod y berthynas neu'r cyfaill yn gwybod mai barn ddiweddaraf yr ymadawedig cyn iddo farw ar gydsynio i weithgareddau trawsblannu oedd bod yr ymadawedig yn gwrthwynebu i gydsyniad gael ei roi.'

Mae'r cymal newydd hwn yn sôn am berthnasau'n gwrthwynebu yn hytrach na darparu gwybodaeth. Mae hyn yn newid sylweddol. Yn dilyn y diwygiad hwn, os bydd cyfaill neu berthynas i'r ymadawedig yn mynegi gwrthwynebiad ar sail gwybodaeth am ddymuniadau'r ymadawedig, bydd yn rhaid derbyn y gwrthwynebiad hwn os na ellir ei wrthbrofi.

**Beth fydd y gyfraith newydd yn ei olygu?**

Bu dadlau brwd ers awgrymu'r cynllun newydd. Cyfrannwyd at y drafodaeth gan nifer o bobl o sawl mudiad ac o sawl galwedigaeth, gan gynnwys meddygon, cyfreithwyr, gwleidyddion, elusennau ac arweinwyr crefyddol. Ceir sawl elfen i'r ddadl, ond ymddengys mai prif sail y drafodaeth yw'r cysyniad o berchnogaeth organau. Eir ati i sôn am elfennau eraill isod.

A yw hi'n briodol i'r wladwriaeth feddiannu organau unigolyn a fu farw os na fynegodd yr unigolyn hwnnw ddymuniad i'r perwyl hwnnw yn ystod ei fywyd? Dyma'r cwestiwn sy'n poeni sawl un, fel Dr Barry Morgan, Archesgob Cymru. Yn ôl Dr Morgan, mae cofrestru i roi eich organau ar ôl marwolaeth yn rhodd hael, ac ni ddylai'r wladwriaeth dybio bod ganddi'r hawl i'w cymryd.[13] Dywedodd ef y byddai'r cynllun newydd yn gwneud organau yn 'eiddo i'r wlad'. Mae'r cyn-wleidydd Michael Portillo, ar y llaw arall, yn dadlau na fydd ei organau o unrhyw werth iddo ar ôl iddo farw, ac mae'r ffaith y gallant wneud daioni i rywun arall yn lleihau unrhyw bryder sydd ganddo am berchnogaeth y wladwriaeth ar ei organau.[14]

Yn ôl Cyfraith Gwlad (*Common Law*), ni cheir eiddo (yn yr ystyr gyfreithiol) yn y corff dynol.[15] Ceir ansicrwydd ynghylch tarddiad yr egwyddor hon, ond fe'i cysylltir gan nifer ag Edward Coke, a ysgrifennai yn yr unfed ganrif ar bymtheg.[16] Achos cyfreithiol diddorol iawn mewn perthynas ag eiddo yn y corff yw *R v Bentham* (2005).[17] Yn yr achos hwn, roedd y diffynnydd yn lladrata o dŷ. Aeth i mewn i ystafell wely lle'r oedd y dioddefwr yn cysgu, ac wrth i'r dioddefwr ddihuno, dywedodd y diffynnydd fod ganddo ddryll gan fynnu arian. Daliodd ei law mewn siâp dryll, a chan ei bod hi'n dywyll yn yr ystafell, credodd y dioddefwr mai dryll a welodd. Daliodd yr heddlu y lleidr yn ddiweddarach, ac ymhlith sawl cyhuddiad oedd perchnogaeth ar ddryll ffug. Gan mai ei law oedd y dryll ffug, a chan fod ei law yn rhan o'i gorff nad y'i hystyrid yn eiddo, nid oedd yn euog o'r cyhuddiad. Dywedodd yr Arglwydd Bingham, pe bai llaw'r diffynnydd yn eiddo, byddai gan yr heddlu'r hawl i'w gymryd oddi wrtho gan iddo ei ddefnyddio i ddynwared dryll.

Mae sawl rheswm posibl pam nad yw'r corff yn eiddo i neb. Yn gychwynnol, mae'r cysyniad o berchnogaeth ar gorff yn anghyson â chrefydd nifer o bobl. Hefyd, mae perchnogaeth yn gysyniad cyfreithiol a grëwyd er mwyn gosod trefn ar gymdeithas, ac at hynny, mae'r gyfraith sy'n datgan na cheir eiddo mewn corff yn atal tlodion – neu rai sy'n agored i newid – rhag gwerthu eu horganau. Er hynny, mae'r gyfraith yn datblygu ac mae'r safbwynt traddodiadol wedi dechrau newid.

Mae sawl achos cyfreithiol wedi herio'r safbwynt traddodiadol hwn yn ddiweddar ac mae'r gyfraith wedi datblygu o ganlyniad i nifer o achosion pwysig. Eglura Deddf Dwyn 1968[18] mai ystyr dwyn yw cymryd eiddo sy'n perthyn i rywun arall gyda'r bwriad o'i amddifadu'n barhaol ohono. Yn ôl y cysyniad traddodiadol, os na cheir eiddo mewn corff, nid yw hi'n bosibl dwyn darnau o gorff. Yn achos cyfreithiol *R v Kelly*,[19] ar y llaw arall, cafwyd technegydd mewn ysbyty yn euog o ddwyn organau i'w defnyddio i ddysgu anatomeg. Mae'r dyfarniad yn yr achos hwn yn un o'r rhai pwysicaf wrth ystyried bodolaeth eiddo yn y corff.[20] Dywedwyd y gall organau droi'n eiddo os eir ati i'w trin neu eu paratoi'n fedrus.

---

13 http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-14998726 (Cyrchwyd: 18 Hydref 2011).

14 http://www.bbc.co.uk/iplayer/episode/b01by7cz/Moral_Maze_Organ_Donation (Cyrchwyd: 16 Chwefror 2012).

15 Quigley, M. (2009), 'Property: The Future of Human Tissue', *Medical Law Review*, 17 (3), 457.

16 Campbell, A. V. (2009), *The Body in bioethics* (Abingdon: Routledge-Cavendish).

17 R v Bentham (2005), UKHL, 18.

18 Deddf Dwyn 1968.

19 R v Kelly (1998), 3 All ER 741.

20 Nwabueze, R. (2008), 'Donated Organs, Property Rights and the Remedial Quagmire', *Medical Law Review*, 16 (2), 201.

Elfen berthnasol arall i'r ddadl yw'r ffaith y dangosodd nifer o achosion y gellir bod yn berchen ar feinwe adfywiol (*regenerative tissue*). Yn achos *R v Welsh*,[21] roedd gyrrwr meddw yn euog o ddwyn ar ôl cipio ei sampl wrin o swyddfa'r heddlu pan adawodd y plismon yr ystafell. Ceir achos cyfreithiol arall tebyg, sef *R v Rothery*,[22] lle cafodd sampl gwaed ei ddwyn.

Mae achos cyfreithiol *Yearworth*[23] yn berthnasol i'r ddadl. Yn yr achos hwn, roedd sawl dyn a oedd ar fin cael triniaeth cemotherapi wedi rhoi sberm i'r ysbyty i'w gadw at y dyfodol rhag ofn y'u gwnaed yn anffrwythlon gan y driniaeth. Roedd nam ar yr oergell, a chollwyd y samplau sberm. Dyfarnodd Tŷ'r Arglwyddi fod y samplau sberm yn eiddo i'r dynion, a bod yr ysbyty yn atebol yn ôl cyfraith mechnïad (*bailment*). Mae'r achos hwn yn bwysig am ei fod yn newid y safbwynt traddodiadol ar berchnogaeth meinwe ddynol. Mae'n ystyried yr achos mewn termau mechnïad yn hytrach nag anaf, gan dorri tir newydd drwy gadarnhau'r egwyddor bod modd cael perchnogaeth ar gorff. Er bod yr achos hwn yn ymwneud â sberm yn hytrach nag organau, mae'r un egwyddor yn berthnasol i organau gan eu bod hefyd yn enghreifftiau o feinwe ddynol.

Felly, mae'r organau a dynnir o'r corff gan lawfeddyg, yn ôl achos *Kelly*, yn troi'n eiddo oherwydd bod gwaith y llawfeddyg yn ychwanegu rhinweddau newydd atynt. Dywedwyd hefyd yn achos *Kelly* y gall organau fod yn eiddo, os oes pwrpas iddynt y tu hwnt i fodolaeth yn unig. Gall organau a ddewiswyd er mwyn eu trawsblannu, felly, fod yn eiddo am y rheswm hwn yn unig. Y cwestiwn nesaf yw; eiddo i bwy yw'r organau pan ddônt yn eiddo? Er mwyn cael ateb i'r cwestiwn hwn, ystyriodd y llys yn achos *Kelly* achos *Dobson v North Tyneside*.[24] Achos yw hwn lle honnai teulu menyw a fu farw o diwmor ar yr ymennydd i'r ysbyty fod yn esgeulus. Er mwyn profi hyn roedd angen gweld darnau'r ymennydd a dynnwyd o'r corff yn ystod yr awtopsi. Cawsai'r ysbyty wared ar y darnau cyn hynny, a dadleuodd y teulu fod y darnau hynny o'r ymennydd yn eiddo iddynt hwy. Er mwyn ystyried a oedd yr ymennydd yn eiddo, ac os ydoedd, yn eiddo i bwy, edrychodd y llys ar achos o Awstralia, *Doodeward v Spence*.[25] Yn yr achos hwnnw, dywedwyd bod y llawfeddyg, neu dechnegydd sy'n gwneud y gwaith o droi organ yn eiddo, hefyd yn dod yn berchennog. Yn *Dobson*, penderfynwyd nad oedd y darnau o ymennydd bellach yn eiddo gan mai eu pwrpas oedd adnabod y salwch, a bod hynny wedi ei gyflawni. Ar y llaw arall, pe bai'r darnau'n eiddo, byddent yn eiddo i'r meddyg a oedd wedi eu paratoi.

Cadarnheir y safbwynt hwn yn achos cyfreithiol *AB v Leeds Teaching Hospital* yn 2004,[26] lle'r aeth rhieni ati i ddadlau nad oeddent wedi rhoi caniatâd i'r ysbyty gymryd a chadw organau eu plant. Mae'r achos hwn yn wahanol i'r trafferthion yn Ysbyty Alder Hey. Yno, torrwyd nifer o reolau clir ac roedd cyfarwyddwyr yn yr ysbyty wedi rhoi gorchmynion anghyfreithlon i'w technegwyr. Mae achos *AB v Leeds Teaching Hospital* yn fwy perthnasol i'r drafodaeth hon am ei fod yn fwy diweddar, ac am y codwyd nifer o

21 *R v Welsh* (1974), RTR 478.
22 *R v Rothery* (1976), RTR 550.
23 *R v Yearworth* (2009), 3 WLR 118.
24 *Dobson v North Tyneside* (1996), 4 All ER 474.
25 *Doodeward v Spence* (1908), 6 CLR 406.
26 *AB v Leeds Teaching Hospital* (2004), 2 FLR 365.

gwestiynau cyfreithiol. Dywedodd y llys fod yr ymchwiliadau post-mortem yn gyfreithiol, a bod y patholegydd – wrth wneud ei waith ar yr organau – wedi'u troi'n eiddo iddo ef ei hun. Y camwedd yn yr achos hwn oedd nad esboniwyd hynny na'i drafod gyda'r rhieni o flaen llaw.

Mae organau a baratoir i'w trawsblannu, felly, yn eiddo i'r ysbyty. Dengys hyn i ba raddau y newidiodd y safbwynt ar berchnogaeth.

**Ymateb y cyhoedd i'r cynllun newydd**

Roedd cyhoeddi'r Papur Gwyn yn ddechrau ar gyfnod ymgynghori a ddaeth i ben ar 31 Ionawr 2012. Yn ystod y cyfnod hwn, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ei hymchwil ei hun. Comisiynwyd adroddiad annibynnol gan gwmni Beaufort Research Ltd, a bu i'r BBC gynnal arolwg hefyd.

Cyhoeddwyd canlyniadau cyfnod ymgynghori Llywodraeth Cymru ar 8 Mawrth 2012. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd 1124 o bobl wedi cysylltu â'r Llywodraeth i fynegi barn. Roedd 642 o'r rheiny o blaid y cynllun, a'r 482 a oedd yn weddill yn erbyn.[27]

Ar 18 Ebrill 2012, cyhoeddwyd canlyniadau cwmni Beaufort Research Ltd. Cynhaliodd y cwmni nifer o grwpiau ffocws ar draws Cymru. Ar y cyfan, cafwyd cefnogaeth i'r cynllun newydd o ganiatâd tybiedig.[28] Ar y llaw arall, dangosodd yr ymchwil hwn i nifer o bobl – cyn cymryd rhan yn y drafodaeth – gamddeall y gyfraith bresennol ynghyd â chamddeall yr hyn a gynigir. Tanlinellodd adroddiad Beaufort Research bwysigrwydd addysg a chyfathrebu clir â'r boblogaeth cyn gweithredu'r cynllun.

Yn ystod yr un cyfnod, dangosodd arolwg gan y BBC fod 63% o bobl yn cefnogi'r cynllun.[29] Cwestiynwyd y ffigurau hyn gan rai, drwy honni na allai cynifer o'r boblogaeth fod yn gefnogol i'r syniad. Maent yn honni, os yw mwyafrif y boblogaeth yn wirioneddol gefnogol i'r cysyniad, byddent eisoes wedi cofrestru fel rhoddwyr organau dan y system bresennol, a byddai mwyafrif y boblogaeth eisoes yn rhoddwyr organau. Nid oes sail i'r ddadl hon, gan ei bod hi'n bosibl i rywun gefnogi'r ddeddfwriaeth newydd heb ddymuno bod yn rhoddwr organau. Er enghraifft, ceir nifer o bobl a fyddai'n hapus i gael trawsblaniad organ, ond ni fyddent fyth yn dymuno rhoi organau. Byddai'r bobl hyn yn debygol o gefnogi mesur a fyddai'n cynyddu nifer yr organau sydd ar gael i gleifion, heb beryglu hawliau'r rhai na ddymunant fod yn rhoddwyr.

**Moeseg Feddygol**

Yn ogystal â chyfraith gwlad, mae angen ystyried cynlluniau o'r math hwn o safbwynt moesegol. Mae nifer o bobl a gyfrannodd at y drafodaeth ar y cynllun newydd o ganiatâd tybiedig yn pryderu am golli rheolaeth dros eu cyrff, ynghyd ag ymboeni am y cysyniad o gorff yr unigolyn yn dod yn eiddo i'r wladwriaeth. Er mwyn trafod y pryderon

---

27 Llywodraeth Cymru (2012), *Ymgynghoriad – Crynodeb o'r Ymatebion. Cynigion ar gyfer Deddfwriaeth ar Roi Organau a Meinweoedd* (WG15008).

28 http://wales.gov.uk/about/aboutresearch/social/latestresearch/organdonation/?lang=en (Cyrchwyd: 22 Ebrill 2012).

29 http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-politics-17226610 (Cyrchwyd: 1 Ebrill 2012).

hyn ynghyd ag asesu gwerth y cynllun yn gyffredinol, rhaid sydd wrth ystyried yr elfen foesol ac athronyddol.

Sefydlwyd moeseg feddygol ganrifoedd yn ôl, a cheir iddi bedair agwedd elfennol, sef 'ymreolaeth', 'haelioni', 'diniweidrwydd' a 'chyfiawnder'.[30] 'Ymreolaeth' yw'r egwyddor bwysicaf, ac mae ei phoblogrwydd wedi cynyddu ar hyd y canrifoedd.[31] Ystyr 'ymreolaeth' yw hawl yr unigolyn i wneud ei benderfyniadau ei hun, a gellir ei briodoli i'r caniatâd a roddir gan glaf am driniaeth. Mae'r egwyddor hon yn berthnasol iawn i'r cynllun o ganiatâd tybiedig ar gyfer rhoi organau. Er mwyn cyfiawnhau'r cynllun newydd, mae angen profi nad amherir ar ymreolaeth yr unigolyn. Mae'r Papur Gwyn yn cyfeirio at bwysigrwydd ymreolaeth, gan esbonio'r camau a gymerir er mwyn parchu ymreolaeth y boblogaeth. Mae'r ddogfen yn esbonio sut bydd y Gofrestr Rhoddwyr Organau bresennol yn parhau i fodoli er mwyn galluogi'r rhai sy'n dymuno rhoi eu horganau i nodi hynny os hoffent, yn hytrach nag aros i'w caniatâd gael ei dybio. Esbonia'r Papur Gwyn hefyd sut y crëir cofrestr newydd ochr yn ochr â'r gofrestr bresennol. Ystyrir pedwar dewis mewn perthynas â ffurf yr ail gofrestr hon. Fe'u rhestrir isod:

> Opsiwn A - cofrestr i Gymru o'r bobl nad ydynt wedi gwrthwynebu, a chofrestr o'r bobl sydd wedi gwrthwynebu.
>
> Opsiwn B – Cofrestr i Gymru sy'n cynnwys enwau'r bobl nad ydynt wedi gwrthwynebu yn unig.
>
> Opsiwn C - Cofrestr i Gymru sy'n cynnwys enwau'r bobl sydd wedi gwrthwynebu yn unig.
>
> Opsiwn Ch – dim cofrestr(au), ond cofnod o wrthwynebiad yn cael ei roi i feddyg teulu'r unigolyn, a'i gadw yno.

Mae'r *Patients Association*[32] yn elusen sy'n gofalu am hawliau cleifion. Maent yn gwrthwynebu'r cynllun gan ddweud bod y dewis yn un personol ac y dylid cael trafodaeth gyda'r teulu ym mhob achos. Maent yn dadlau nad oes modd cael system o dybio caniatâd sy'n addas i bawb.

Ystyr egwyddor 'haelioni'[33] yw hybu iechyd a gwneud pethau sydd o les i gleifion. Nod y cynllun newydd yw cynyddu nifer yr organau sydd ar gael i gleifion sy'n aros am drawsblaniad. Dros gyfnod o flwyddyn (2010-11), bu farw 51 o gleifion wrth iddynt aros am organ. Gwnaeth y Cyn-weinidog Iechyd, Lesley Griffiths, amcan y byddai'r system newydd yn cynyddu nifer y rhoddwyr hyd at 25 y cant. Byddai llwyddiant o'r fath yn cyd-fynd yn gryf gyda'r egwyddor o 'haelioni'. Ceir perygl wrth gwrs y gallai'r gyfraith newydd fod yn fethiant a bydd nifer y rhoddwyr organau'n disgyn. Ceir elfen o risg yn

---

30 '*Autonomy*', '*beneficience*', '*non-malificence*' a '*justice*': Herring, J. (2011), *Medical Law* (Oxford: Oxford University Press).

31 Rhodes, R. (2007), *Medical Ethics* (Oxford: Blackwell Publishing).

32 http://www.patients-association.com/Default.aspx?tabid=192 (Cyrchwyd: 5 Gorffennaf 2012).

33 Mason, J. K. a Laurie, G. T. (8fed argraffiad, 2001), *Law and Medical Ethics* (Oxford: Oxford University Press).

gysylltiedig â phob agwedd ar feddygaeth, ond mae gweithwyr iechyd a chleifion yn barod i gymryd risg pan fydd mwy o fanteision na pheryglon.

'Diniweidrwydd' yw'r egwyddor sy'n datgan na ddylai triniaeth beri niwed i gleifion. Mae'n egwyddor sy'n ennyn tipyn o drafodaeth, ond sy'n llai perthnasol i'r drafodaeth hon am y saif ei berthnasedd o fewn cyd-destun llawdriniaeth. Rhaid sydd wrth gydbwysedd, er enghraifft, rhwng y niwed a wna llawfeddyg, a'r lles a ddaw yn sgil y llawdriniaeth.

'Cyfiawnder' yw'r egwyddor sydd anoddaf ei mesur. Yn y cyd-destun meddygol, defnyddir y gair wrth sôn am ddosbarthu adnoddau prin. Mae hwn yn berthnasol iawn i'r erthygl hon yng ngolau prinder a gwerth organau, ac yn enwedig o ystyried bwriad y cynllun newydd i gynyddu'r nifer ohonynt sydd ar gael. Clywir sawl un yn dadlau bod gwastraffu organau iach yn anfoesol mewn achos lle nad yw'r sawl a fu farw wedi cofrestru.

Elfen ganolog i'r drafodaeth ar 'gyfiawnder' yw'r ffaith nad yw'r cynllun newydd yn amharu ar ryddid yr unigolyn, gan na thynnir yr hawl i ddewis oddi arno. Yr hyn sy'n wahanol yw natur y cwestiwn a roddir o'i flaen, cyn iddo benderfynu a yw'n dymuno rhoi ei organau ai peidio. Er mwyn osgoi anghyfiawnder, mae'n hanfodol fod yr awdurdodau'n gwneud yr oll sy'n angenrheidiol i addysgu'r cyhoedd am y newidiadau a'u goblygiadau.

Er y dadlau a fu, ceir cefnogaeth i'r cynllun oddi wrth y mwyafrif, sy'n allweddol i'w lwyddiant. Pe bai'r syniad yn amhoblogaidd, ofnir y gallai'r cyhoedd adweithio fel y digwyddodd ym Mrazil ym 1998, pan gyflwynwyd system caniatâd tybiedig ar gyfer rhoi organau er gwaethaf gwrthwynebiad y cyhoedd.[34]

**Casgliad**

Gwelir yma enghraifft o Lywodraeth Cymru'n mynd ati i ymdrin â phroblem yn y maes iechyd, gan fanteisio ar bwerau newydd y Cynulliad Cenedlaethol drwy gynnig cynllun tra gwahanol i'r hyn a geir yng ngweddill y Deyrnas Unedig.

Mae'r cynllun gan Lywodraeth Cymru i gyflwyno system caniatâd tybiedig 'meddal' ar gyfer rhoi organau yng Nghymru yn un a esgorodd ar lawer o drafodaeth. Mae'r pwnc yn un sy'n ysgogi teimladau cryf o blaid ac yn erbyn, ac yn gyfle i greu newid sylweddol yn y gyfraith. Mynegodd nifer o bobl bryder ynghylch newid yn y berthynas rhwng unigolion a'r wladwriaeth. Trwy bwyso a mesur y gyfraith bresennol yn erbyn yr hyn a gynigir gan y cynllun newydd, awgrymaf na chaiff rhyddid yr unigolyn i ddewis a gwneud penderfyniadau ei effeithio gan y cynllun. Yr hyn sy'n newid yw natur y cyfrifoldeb a roddir ar unigolion; yn hytrach na mynegi awydd i roi organau, disgwylir iddynt fynegi eu gwrthwynebiad. Bydd y penderfyniad i fod yn rhoddwr (ai peidio) yn nwylo'r unigolyn, ac ni thybir caniatâd oddi wrth unrhyw un na chafodd gyfle i wrthwynebu.

[34] Csillag, C. (1998), 'Brazil abolishes 'presumed consent' in organ donation', *Lancet*, 352, 1367.

Erys un cwestiwn heb ei ateb; faint o wahaniaeth fydd o ganlyniad i'r Ddeddf newydd? Cytunaf â nod ac egwyddor Bil Trawsblannu Dynol (Cymru) fel y'i pasiwyd. Yn anffodus – yn fy marn i – tanseilir cryfder y Mesur oherwydd y modd y'i geiriwyd, ac yn ymarferol ni fydd y gyfraith newydd yn gwella sefyllfa cleifion yng Nghymru. Ofnaf hefyd y bydd y gyfraith hon yn lleihau nifer yr organau a fydd ar gael i'w trawsblannu.

Er mwyn i gynllun fel hwn lwyddo, mae gofyn iddo fod yn hawdd i'w ddeall, a bydd gofyn i'r rhai sy'n ei weithredu fod yn sicr o'r sefyllfa gyfreithiol. Bydd y gyfraith newydd yn gwneud y sefyllfa'n aneglur i feddygon ac yn gwneud eu gwaith yn anos.

Yn ôl y gyfraith bresennol, pan fydd unigolyn yn marw, ni cheir unrhyw amheuaeth o hawl y meddygon i ddefnyddio'i organau os yw'r unigolyn hwnnw wedi cofrestru fel rhoddwr. Os nad yw'r ymadawedig wedi cofrestru fel rhoddwr, yn ôl Adran 3 (6) (c) Deddf Meinweoedd Dynol 2004, gall ei berthnasau fynegi caniatâd i ddefnyddio'r organau. Felly, o dan y drefn bresennol, os nad yw'r ymadawedig wedi cofrestru fel rhoddwr, mae'r hawl i benderfynu a roddir caniatâd i ddefnyddio'r organau ai peidio yn nwylo'r teulu.

Yn ôl y drefn newydd, bydd y gofrestr rhoddwyr organau yn parhau i fodoli, ac felly bydd dymuniad unrhyw unigolyn sydd wedi cofrestru yn glir. Serch hynny, yn unol â'r drefn newydd, os nad yw'r ymadawedig wedi cofrestru fel rhoddwr, tybir ei ganiatâd yn yr un modd. Ar yr wyneb, ymddengys y sefyllfa'n glir, ond yn anffodus, yn sgil pryderon gwrthwynebwyr y Mesur ynghylch dymuniadau'r teulu, newidiwyd y Mesur trwy gyflwyno diwygiad i Gymal 4 (4) ym mis Mai 2013, er mwyn sicrhau lle ar gyfer gwrthwynebiad perthnasau a ffrindiau. Bydd y cymal hwn yn tanseilio pwrpas y ddeddfwriaeth yn llwyr ac yn ei wneud yn amhosibl i'w gweithredu. Yn ymarferol, nid yw'n debygol y bydd unrhyw feddyg yn dadlau yn erbyn gwrthwynebiad teulu'r sawl a fu farw, nac yn ei anwybyddu. Ceir perygl yn hynny, nid yn unig am y byddai gweithred o'r fath yn difrïo enw da'r meddyg ac yn denu sylw'r cyfryngau, ond hefyd am y byddai'r meddyg hwnnw'n troseddu yn ôl Cymal 10 y Mesur, pe gellir profi nad oedd y caniatâd yn ddilys. Yn y fath achos, gallai'r troseddwr gael ei garcharu am 3 blynedd.

Y gwir yw, felly, yn ôl yr hen drefn ac yn ôl y gyfraith newydd, os nad yw'r ymadawedig wedi cofrestru fel rhoddwr organau, penderfyniad y teulu yw a gaiff yr organau eu defnyddio ai peidio. Fel y soniwyd eisoes, mae Adran 27 (4) Deddf Meinweoedd Dynol 2004 yn rhestru perthnasau'r ymadawedig yn ôl trefn pwysigrwydd eu barn. Gŵr/gwraig sydd ar ben y rhestr, felly ystyrir ei farn, neu ei barn, cyn aelodau eraill y teulu. Cymhlethir y gyfraith newydd ymhellach gan na sonnir am flaenoriaeth mewnbwn un berthynas dros y llall yn y rhestr o 'berthnasau dilys' a osodir yng Nghymal 19 (3). O ganlyniad, gallai achos godi lle byddai meddyg yn clywed safbwyntiau gwahanol gan wahanol aelodau'r teulu.

Y newid sylweddol a ddaw o ganlyniad i'r gyfraith newydd yw y bydd yn haws i bobl fynegi eu gwrthwynebiad i roi eu horganau wedi iddynt farw. Trwy ddatgofrestru, bydd yr unigolyn wedi mynegi eu barn yn glir heb unrhyw amwysedd.

O ganlyniad i fanylion y Mesur hwn, poenaf fod perygl i'r cyhoedd gamddeall, ac mai canlyniad y gyfraith newydd fydd gostyngiad yn nifer yr organau a fydd ar gael

i gleifion. Ofnaf na fydd pobl mor debygol o gofrestru fel rhoddwyr organau, gan y bydd trefn y gyfraith newydd o osod pawb ar y gofrestr (oni fynegir gwrthwynebiad) yn eu harwain at gredu nad oes angen gwneud hynny. Yn sgil aneglurder y sefyllfa, fel yr amlinellwyd uchod, byddai'n arfer da i bobl gofrestru fel rhoddwyr yn ystod eu bywydau, er mwyn osgoi unrhyw amwysedd ar ôl marwolaeth, ac er mwyn osgoi gwrthwynebiad posibl y teulu.

Yn fy marn i, mae Bil Trawsblannu Dynol (Cymru) fel y'i pasiwyd yn ddiffygiol ac ni fydd yn llwyddo yn ei nod, yn bennaf gan y'i tanseilir gan wrthwynebiad y teulu (yr hyn a elwir yn '*soft opt-out system*'). Yr unig drefn lwyddiannus fyddai '*hard opt-out system*' lle nad oes gan deulu'r sawl a fu farw unrhyw ddylanwad. Er hynny, gellir gweld o'r trafodaethau diweddar na fyddai'r cyhoedd yn cymeradwyo'r drefn honno, a byddai'r gwrthwynebiad iddi'n rhy fawr i'w chyflwyno.

Gobeithiaf fod y gyfraith newydd hon, serch hynny, yn gam i'r cyfeiriad cywir. Gobeithiaf y daw'r gymdeithas i ymgyfarwyddo â'r cysyniad o ganiatâd tybiedig, ac y caiff y Ddeddf newydd ei diwygio a'i gwella maes o law er mwyn iddi fedru cyrraedd ei nod.

Y cam nesaf fydd i'r Bil Trawsblannu Dynol (Cymru) dderbyn Cydsyniad Brenhinol eleni, cyn dod i'w lawn rym yn 2015.

## Llyfryddiaeth

### Llyfrau a llyfrynnau

Campbell, A. V. (2009), *The Body in bioethics* (Abingdon: Routledge-Cavendish).

Herring, J. (2011), *Medical Law* (Oxford: Oxford University Press)

Jackson, E. (2ail argraffiad, 2010), *Medical Law* (Oxford: Oxford University Press).

Llywodraeth Cymru (2012), *Ymgynghoriad – Crynodeb o'r Ymatebion. Cynigion ar gyfer Deddfwriaeth ar Roi Organau a Meinweoedd* (WG15008).

Mason, J. K., a Laurie, G. T. (9fed argraffiad, 2013), *Law and Medical Ethics* (Oxford: Oxford University Press).

NHS Blood and Transplant (26 Ionawr 2012), *Achieving the 50% increase in organ donation* (Bristol, NHSBT).

NHS Blood and Transplant (2011), *Transplant Activity in the UK. Activity Report 2010/11* (Bristol, NHSBT).

Rhodes, R., Francis, L. P., a Silvers, A. (2006), *The Blackwell Guide to Medical Ethics* (Oxford: Blackwell Publishing).

Webley, L., a Samuels, H. (2009), *Complete Public Law* (Oxford: Oxford University Press).

### Achosion

AB v Leeds Teaching Hospital (2004), 2 FLR 365.

Dobson v North Tyneside (1996), 4 All ER 474.

Doodeward v Spence (1908), 6 CLR 406.

R v Bentham (2005), UKHL 18.

R v Kelly (1998), 3 All ER 741.

R v Rothery (1976), RTR 550.

R v Welsh (1974), RTR 478.

R v Yearworth (2009), 3 WLR 118.

### Deddfwriaeth

Deddf Llywodraeth Cymru 1998.

Deddf Llywodraeth Cymru 2006, Atodlen 7, Paragraff 9.

Deddf Galluedd Meddyliol 2005.

Deddf Meinweoedd Dynol 2004.

**Erthyglau**

Council of Europe (2011), 'Newsletter. Transplant 2011' (Strasbourg, Council of Europe).

Csillag, C. (1998), 'Brazil abolishes 'presumed consent' in organ donation', *Lancet*, 352, 1367.

Nwabueze, R. (2008), 'Donated Organs, Property Rights and the Remedial Quagmire', *Medical Law Review*, 16 (2), 201-24.

Quigley, M. (2009), 'Property: The Future of Human Tissue', *Medical Law Review*, 17 (3), 457-66.

**Ffynonellau Electronig**

http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-14998726 (Cyrchwyd: 18 Hydref 2011).

http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-17766968 (Cyrchwyd: 21 Ebrill 2012).

http://www.bbc.co.uk/iplayer/episode/b01by7cz/Moral_Maze_Organ_Donation (Cyrchwyd: 16 Chwefror 2012).

http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-politics-17226610 (Cyrchwyd: 1 Ebrill 2012).

http://www.patients-association.com/Default.aspx?tabid=192 (Cyrchwyd: 5 Gorffennaf 2012).

http://wales.gov.uk/consultations/healthsocialcare/organ/?lang=cy (Cyrchwyd: 20 Rhagfyr 2011).

http://wales.gov.uk/about/aboutresearch/social/latestresearch/organdonation/?lang=en (Cyrchwyd: 22 Ebrill 2012).

# Cyfranwyr

## *Craig Owen Jones*

Ganwyd Craig Owen Jones yn Llanelwy. Derbyniodd ei radd Ddoethur o Ysgol Gerdd Prifysgol Bangor yn 2006. Mae'n arbenigo mewn cerddoriaeth boblogaidd, yn enwedig cerddoriaeth bop Gymraeg, y Manic Street Preachers, cerddoriaeth boblogaidd mewn ieithoedd lleiafrifol, a roc pync. Mae'n gweithio fel darlithydd dan nawdd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn yr Ysgol Gerdd, Prifysgol Bangor.

## *Ffion Curtis, E. J. Oliver, A. W. Jones, S. Rice, a R. Thatcher*

Mae'r awduron yn aelodau o'r Grŵp Ymchwil i weithgaredd corfforol mewn iechyd, yn ystod adferiad ac wrth heneiddio, wedi ei leoli yn yr Adran Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff ym Mhrifysgol Aberystwyth. Mae'r grŵp rhyngddisgyblaethol hwn yn cynnwys ymchwilwyr ym meysydd biomecaneg, rheoli symudiadau, ffisioleg, maeth, a seicoleg wybyddol ac ymddygiadol. Mae aelodau'r grŵp yn gweithio'n agos gyda chlinigwyr, cleifion a sefydliadau gwirfoddol. Nod y grwp ymchwil yw edrych ar y rhesymau dros gyfyngiadau ar weithgareddau corfforol ynghyd ag astudio canlyniadau gweithgareddau corfforol ac arferion byw, gan gynnwys ansawdd bywyd a gallu gweithrediadol (*functional ability*). Amcan allweddol yr ymchwil hwn yw datblygu strategaethau ac ymyriadau er mwyn sicrhau buddiannau iechyd ac adferiad o'r radd flaenaf.

## *Osian Rees a Huw Pritchard*

Mae Osian Rees yn ddarlithydd yn y Gyfraith ym Mhrifysgol Bangor. Mae ei ddiddordebau ymchwil yn cynnwys cyfraith teulu a phlant yng Nghymru, yn ogystal â datganoli a chyfraith Gymreig.

Mae Huw Pritchard yn fyfyriwr PhD yn y Gyfraith ym Mhrifysgol Bangor dan nawdd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Ei brif faes ymchwil yw cyfraith datganoli a datblygiad awdurdodaeth gyfreithiol i Gymru.

## *Rhys ap Gwent*

Mae Rhys ap Gwent yn fyfyriwr ôl-raddedig ym Mhrifysgol Abertawe. Cyn astudio'r Gyfraith yn Abertawe, derbyniodd radd mewn Gwyddoniaeth Fiofeddygol ym Mhrifysgol Caerdydd. Ei uchelgais yw dilyn gyrfa ym maes arbenigol Cyfraith Feddygol.

Gwerddon

CYFNODOLYN ACADEMAIDD CYMRAEG

ISSN 1741-4261